# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 15 Mawrth 2018

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Bethan Davies**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6372

SeneddCyllid@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Papur(au) i'w nodi

(09.30) (Tudalennau 1 - 5)

**2.1 PTN1 - Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid at y Cadeirydd - Horizon 2020 Adroddiad Blynyddol 2017 - 7 Mawrth 2018**

(Tudalennau 6 - 7)

**2.2 PTN2 - Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid at y Cadeirydd - Bondiau Buddsoddi Cyfalaf - 8 Mawrth 2018**

(Tudalennau 8 - 9)

**2.3 PTN3 - Llythyr gan Gomisiwn y Cynulliad at y Cadeirydd - Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2018-19 - 9 Mawrth 2018**

(Tudalennau 10 - 51)

## 3 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013: Sesiwn dystiolaeth (Swyddfa Archwilio Cymru)

(09.30-10.30) (Tudalennau 52 - 108)

Alison Gerrard, Aelod o'r Bwrdd, Swyddfa Archwilio Cymru

Anthony Barrett, Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol

Martin Peters, Pennaeth Cyfraith a Moeseg, Swyddfa Archwilio Cymru

Nicola Evans, Pennaeth Cyllid, Swyddfa Archwilio Cymru

Papur 1 - Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru: Y drefn ffioedd archwilio cyhoeddus gymhleth yng Nghymru - achos dros newid

Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

**4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitem 5 ac eitemau 8-11**

(10.30)

**5 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013: Trafod y dystiolaeth**

(10.30-10.40)

**6 Ymchwiliad i Danwariant Penderfyniad y Bwrdd Taliadau: Sesiwn dystiolaeth 1 (Swyddfa Archwilio Cymru)**

(10.40-11.10) (Tudalennau 109 - 122)

Anthony Barrett - Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol

Ann-Marie Harkin, Arweinydd Archwilio Ariannol ar gyfer archwilio cyfrifon Comisiwn y Cynulliad, Swyddfa Archwilio Cymru

Papur 2 - Swyddfa Archwilio Cymru: Tystiolaeth ysgrifenedig

**11.00 - 11.15 Egwyl**

**7 Ymchwiliad i Danwariant Penderfyniad y Bwrdd Taliadau: Sesiwn dystiolaeth 2 (Comisiwn y Cynulliad)**

(11.20-12.10) (Tudalennau 123 - 152)

Suzy Davies AC, Comisiynydd y Gyllideb a Llywodraethu

Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad

Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid, Comisiwn y Cynulliad

Papur 3 - Comisiwn y Cynulliad: Tystiolaeth ysgrifenedig

**8 Ymchwiliad i Danwariant Penderfyniad y Bwrdd Taliadau: Trafod y dystiolaeth**

(12.10-12.20)

**9 Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru): Trafod Adroddiadau Pwyllgor Cyfnod 1**

(12.20-12.40)

Papur 4 – Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru): Trafod Adroddiadau Pwyllgor Cyfnod 1

## 10 Gweithdrefn y Cynulliad ar gyfer Gorchmynion Adran 116C yn y Cyngor

(12.40–12.55) (Tudalennau 153 – 172)

Papur 5 – Llythyr gan y Llywydd at y Cadeirydd – Gweithdrefn y Cynulliad ar gyfer Gorchmynion Adran 116C yn y Cyngor – 1 Mawrth 2018

## 11 Datganoli pwerau cyllidol i Gymru: Trafod yr adroddiad drafft

(12.55–13.10) (Tudalennau 173 – 194)

Papur 6 – Adroddiad drafft

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 1 Mawrth 2018

Amser: 09.08 - 09.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4617

# Wedi'i ohirio

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Simon Thomas AC (Cadeirydd)<br>Neil Hamilton AC<br>Mike Hedges AC<br>Jane Hutt AC<br>Nick Ramsay AC<br>David Rees AC |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Catherine Hunt (Ail Glerc)<br>Georgina Owen (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Joanne McCarthy (Ymchwilydd)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Steffan Lewis AC.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 2.1 PTN1 - Llythyr gan y Gweinidog Tai ac Adfywio i'r Pwyllgor Cyllid - Y Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) - 21 Chwefror 2018

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 4, 5 ac 6

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 4 Ail Gyllideb Atodol 2017-18: Trafod yr adroddiad drafft

4.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad â rhai mân newidiadau.

## 5 Enwebiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Trafod yr adroddiad drafft

5.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad â rhai mân newidiadau.

## 6 Cost Gofalu am Boblogaeth sy'n Heneiddio: Trafod yr ymatebion i'r ymgynghoriad

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth ysgrifenedig.

## 7 Cost Gofalu am Boblogaeth sy'n Heneiddio: Sesiwn dystiolaeth 1 (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru)

7.1 Gohiriwyd yr eitem hon yn sgil y tywydd garw. Cytunodd y Pwyllgor i aildrefnu'r sesiwn dystiolaeth.

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mercher, 7 Mawrth 2018

Amser: 09.02 - 11.17

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4618

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Simon Thomas AC (Cadeirydd)<br>Neil Hamilton AC<br>Mike Hedges AC<br>Jane Hutt AC<br>Nick Ramsay AC<br>David Rees AC |
| Tystion: | Vanessa Young, Conffederasiwn GIG Cymru<br>Carol Shillabeer, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys<br>Gerry Evans, Gofal Cymdeithasol Cymru<br>Joseph Ogle, Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2025 |
| Staff y Pwyllgor: | Catherine Hunt (Ail Glerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Georgina Owen (Dirprwy Glerc)<br>Joanne McCarthy (Ymchwilydd)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd)<br>Christian Tipples (Ymchwilydd) |

| | |
|---|---|
| | Gareth Pembridge (Cynghorydd Cyfreithiol)<br><br>Ben Harris (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Steffan Lewis AC.

## 2 Cost Gofalu am Boblogaeth sy'n Heneiddio: Sesiwn dystiolaeth 1 (Cydffederasiwn GIG Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru)

2.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Vanessa Young, Cyfarwyddwr, Cydffederasiwn GIG Cymru; Carol Shillabeer, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Addysgu Powys; a Gerry Evans, Dirprwy Brif Weithredwr, Gofal Cymdeithasol Cymru, ar gyfer ei ymchwiliad i gost gofalu am boblogaeth sy'n heneiddio.

## 3 Cost Gofalu am Boblogaeth sy'n Heneiddio: Sesiwn dystiolaeth 2 (Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2025)

3.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Joseph Ogle, Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2025, ar gyfer ei ymchwiliad i gost gofalu am boblogaeth sy'n heneiddio.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Cost Gofalu am Boblogaeth sy'n Heneiddio: trafod y dystiolaeth

5.1 Derbyniodd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd.

## 6 Ymchwiliad i'r tanwariant sy'n deillio o Benderfyniadau'r Bwrdd Taliadau: trafod y dystiolaeth ysgrifenedig

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth ysgrifenedig a gafwyd a chytunodd i...

## 7 Ymchwiliad i'r paratoadau ariannol ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd: dull o gynnal gwaith craffu

7.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y dull o gynnal ei ymchwiliad i'r paratoadau ariannol ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd.

## 8 Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016: Offerynnau Statudol ym maes treth

8.1 Trafododd y Pwyllgor yr offerynnau statudol, gan gytuno i gyflwyno adroddiad arnynt.

**Mark Drakeford AM/AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid**
**Cabinet Secretary for Finance**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

7 Mawrth 2018

Annwyl gyfeillion,

Ysgrifennaf i roi gwybod i chi bod Adroddiad Blynyddol 2017 Horizon 2020 yng Nghymru wedi'i gyhoeddi.

Mae Horizon 2020 yn werth €70 biliwn, a hi yw rhaglen ymchwil ac arloesi fwyaf erioed yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n creu cyfleoedd go iawn i sefydliadau yng Nghymru fod yn rhan o'r gwaith blaengar sy'n digwydd ym maes ymchwil ac arloesi. Mae ein Papur Gwyn ‘Diogelu Dyfodol Cymru’ a'n papur polisi ‘Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit’ yn ei gwneud yn gwbl glir pa mor bwysig fydd hi inni barhau i gymryd rhan yn Horizon 2020 a'r rhaglen a ddaw yn ei lle ar ôl i'r DU ymadael â'r EU.

Mae'r adroddiad, sydd ar gael yn http://gov.wales/funding/eu-funds/horizon2020/?skip=1&lang=cy yn disgrifio sut mae sefydliadau o Gymru wedi perfformio hyd yn hyn o ran cael mynediad at gyllid Horizon 2020, a’r cynnydd a wnaed o ran cyflawni ein prif amcanion ar gyfer sicrhau mwy o lwyddiant fyth, gan edrych ymlaen at weithgareddau 2018. Mae'r adroddiad yn cynnwys sawl enghraifft o sefydliadau sydd wedi elwa ar y ffynhonnell bwysig hon o gyllid yr UE.

Bellach mae sefydliadau o Gymru wedi elwa ar dros €83m o gyllid Horizon 2020 drwy 189 o gyfranogiadau. Mewn ychydig dros flwyddyn, rydym wedi gweld cynnydd o 77 o gyfranogiadau a’r cyfle i fanteisio ar dros €30m o gyllid, gydag oddeutu 2,000 o bartneriaid rhyngwladol hyd yn hyn. Mae'n amlwg bod Horizon 2020 yn cefnogi Cymru gan ein bod yn genedl sy'n edrych y tu hwnt i'n ffiniau er mwyn cydweithio gyda goreuon Ewrop a'r byd.

Mae'r perfformiad cryf hwn ynadlewyrchu’r ffaith bod dull gweithredu egnïol a chadarnhaol ar waith mewn sefydliadau yng Nghymru, er gwaethaf yr ansicrwydd ynghylch Brexit, ac mae hefyd yn dyst i’r angen parhaus am y math hwn o gyllid ymchwil ac arloesi yng Nghymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r adroddiad blynyddol hefyd yn tynnu sylw at lwyddiannau sylweddol eraill, gan gynnwys lefel uchel o gyfranogi gan fusnesau yng Nghymru; cynnydd nodedig yn amrywiaeth y sefydliadau sy'n manteisio ar y rhaglen; enghreifftiau o weithio ar draws sefydliadau; a defnyddio'r Cronfeydd Strwythurol i sicrhau'r capasiti y mae ei angen i elwa ar ffynonellau cyllid cystadleuol megis Horizon 2020.

Caiff y llwyddiannau eu dathlu yn nigwyddiad blynyddol Horizon 2020 yng Nghaerdydd ar 15 Mawrth, pan fydd cyfle i drafod ymhellach gyda'n partneriaid i'n helpu i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar ôl inni o dan Horizon 2020, ac i baratoi ar gyfer y rhaglen a ddaw yn ei lle.

Yn gywir,

**Mark Drakeford AM/AC**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance

**Mark Drakeford AM/AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid**
**Cabinet Secretary for Finance**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Simon Thomas AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

8 Mawrth 2018

Annwyl Simon,

Fel y gwyddoch, fel rhan o gyhoeddiad Dydd Gŵyl Dewi, cytunodd Llywodraeth y DU i alluogi Llywodraeth Cymru i ddarparu bondiau buddsoddi cyfalaf yn ychwanegol at y darpariaethau benthyca cyfalaf presennol a nodir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006.

Oherwydd y pwysau disgwyliedig ar amser deddfwriaethol a Seneddol yn y gwanwyn, ac yn unol â'r darpariaethau yn adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rwyf wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn gofyn i Lywodraeth y DU gyflwyno'r is-ddeddfwriaeth y mae ei hangen i alluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu bondiau ar gyfer gwariant buddsoddi cyfalaf.

Fel y dywedais yn ystod y cam craffu ar y Gyllideb ddrafft y llynedd, rwyf wedi ymrwymo i ddefnyddio'r ffynhonnell rataf o fenthyca er mwyn lleihau'r goblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru gymaint â phosibl. Ar hyn o bryd, benthyca oddi wrth y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol yw'r opsiwn sy'n cynnig y gwerth gorau am arian, ac er nad oes gennyf unrhyw beth mewn egwyddor yn erbyn y syniad o ddarparu bondiau, fy mwriad yw parhau i fenthyca oddi wrth y Trysorlys tra bydd hwnnw'n cynnig y ffynhonnell rataf o gyllid. Fodd bynnag, bydd cael y pŵer i ddarparu bondiau yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn meddu ar gyfres lawn o ddulliau benthyca yn y dyfodol.

Byddaf wrth gwrs yn parhau i sicrhau bod y Pwyllgor Cyllid yn cael gwybod y diweddaraf am ein cynlluniau benthyca, fel rhan o'r broses Gyllidebol arferol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,



**Mark Drakeford AM/AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid.
Cabinet Secretary for Finance

Eitem 2.3

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

National Assembly for Wales
Assembly Commission

Simon Thomas AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

9 Mawrth 2018

Annwyl Simon

**Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Graffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2018-19**

Diolch am adroddiad eich Pwyllgor ar Graffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2018-2019, a gyhoeddwyd ar 20 Hydref 2017. Roedd ymateb cychwynnol y Comisiwn i argymhellion y Pwyllgor Cyllid wedi'i nodi yn ein llythyr ar 11 Tachwedd 2017. Rhoddwyd gwybodaeth ychwanegol ar argymhellion 1, 5 a 7 i chi yn ein llythyr ar 21 Rhagfyr 2017.

Mae'r Atodiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar ein cynnydd hyd yma ar yr argymhellion a wnaed yn eich adroddiad sy'n weddill. Mae hyn yn cynnwys diweddariad ar yr Adolygiad Capasiti a gynhaliwyd yn 2017.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth ar unrhyw fater sydd wedi'i gynnwys yn yr atodiad, mae croeso ichi gysylltu â mi.

Yn gywir

Suzy Davies

copi at Gomisiynwyr y Cynulliad, Manon Antoniazzi, Nia Morgan

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SulafaThomas@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 6227

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SulafaThomas@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 6227

**Atodiad: Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Graffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2018-19**

***Argymhelliad 3. Os bydd y Comisiwn yn dewis defnyddio cyllideb atodol i ddechrau'r gwaith cynllunio ar gyfer adeilad newydd posibl, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Comisiwn, cyn cyflwyno cynnig cyllideb atodol, gyflwyno'r Memorandwm Esboniadol sy'n ofynnol yn ôl Rheol Sefydlog 20.32 i'r Pwyllgor i'w ystyried cyn iddo gael ei gyflwyno. Byddai'r Pwyllgor yn disgwyl gweld gwybodaeth fanwl am y rhesymau pam y mae angen adeilad newydd o ran anghenion y Comisiwn a Llywodraeth Cymru, gan gynnwys rhwymedigaethau statudol, a sut y byddai'n darparu ar gyfer cynnydd posibl yn nifer yr Aelodau Cynulliad.***

Mae'r Comisiwn yn derbyn Argymhelliad 3 ac os bydd yn penderfynu symud ymlaen gyda chais cynllunio ar gyfer adeilad newydd, yna bydd y Memorandwm Esboniadol gofynnol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor i'w ystyried, cyn i'r cynnig cyllideb gael ei osod.

***Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod canlyniad yr Adolygiad Capasiti sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd yn cael ei roi ar ffurf papur i'r Pwyllgor. Ar y cam hwn, hoffai'r Pwyllgor weld manylion am y cynnydd yn nifer y staff dros y 10 mlynedd diwethaf, gan gynnwys manylion am y gwasanaethau lle y mae nifer y staff wedi cynyddu a'r rhesymau am y cynnydd hwn.***

Bydd copi o'r Adroddiad Adolygiad Capasiti yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor.

Dangosir manylion am y cynnydd yn nifer y staff dros y 10 mlynedd diwethaf, gan gynnwys manylion ynghylch pa wasanaethau sydd â nifer uwch o staff yn Atodiad A yr adroddiad Adolygiad Capasiti.

Mae'r rhesymeg y tu ôl i'r codiadau hyn wedi'u nodi yn yr adran "**Datblygu strwythur Comisiwn y Cynulliad"** a gynhwysir yn yr adroddiad.

Fel rhan o gam 1 yr adolygiad, gwnaethom hefyd:

- feincnodi ein lefelau staffio yn erbyn y rhai o Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon;
- esbonio datblygiad ac ehangiad y lefelau staffio o fewn y cyd-destun cyfansoddiadol;
- nodi digwyddiadau arwyddocaol megis darparu TGCh yn fewnol, sy'n parhau i ddarparu arbedion ac effeithlonrwydd ariannol rheolaidd i'r Comisiwn, er gwaethaf y cynnydd mewn niferoedd staff;
- amlinellu'r effaith ar lefelau staffio o gael nifer cymharol isel o aelodau etholedig er gwaethaf pwerau cynyddol;
- darparu manylion fesul gwasanaeth o sut mae staff yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd; ac
- esbonio'r broses y tu ôl i'r broses cynllunio capasiti sy'n amlinellu sut y dyrennir adnoddau i gyflawni blaenoriaethau'r Comisiwn.

Bydd Cam 2 yr adolygiad yn datblygu cynlluniau i fynd i'r afael â gweithredoedd a chanfyddiadau eraill Adroddiad Cam 1 a, lle bo hynny'n briodol, bydd hyn yn cynnwys dadansoddiad cymhariaeth bellach gyda sefydliadau tebyg.

***Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid ystyried yr adolygiad capasiti ochr yn ochr ag ymarfer meincnodi sy'n cynnwys seneddau eraill, gan gynnwys seneddau sydd â swyddogaeth ddwyieithog.***

Fel y crybwyllwyd uchod, mae'r Adroddiad Adolygiad Capasiti yn cynnwys canlyniadau ein trafodaethau meincnodi cychwynnol a bydd Cam 2 yr adolygiad yn dadansoddi ymhellach ganlyniadau'r gwaith hwn i ddatblygu golwg fanwl ar y sefyllfa.

*Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn yn y Cynulliad barhau fel y mae yn ystod blwyddyn ariannol 2018-19, er mwyn atal cynnydd ychwanegol mewn adnoddau staffio a rhoi cyfle i'r Prif Weithredwr a Chlerc newydd ystyried canlyniad yr adolygiad capasiti a sut y gellir defnyddio'r staff presennol yn effeithiol i fodloni blaenoriaethau'r Cynulliad a'r Comisiwn.*

Mae'r Comisiwn wedi adolygu nifer sefydledig y staff fel rhan o'r Adolygiad Capasiti. Mae hyn wedi llywio'r trafodaethau ynghylch y lefel briodol o staff sydd ei hangen i ddiwallu'r heriau y mae'r Cynulliad yn eu hwynebu nawr ac yn y dyfodol. Felly, bydd y Comisiwn yn ymrwymo i gynnal lefelau gwasanaeth effeithiol i gefnogi Aelodau ac ymgysylltu â'r cyhoedd o fewn y nifer gyfredol o swyddi sefydledig, sef 491, hyd ddiwedd y Pumed Cynulliad ac yn amodol ar unrhyw flaenoriaethau newydd, arwyddocaol sy'n dod i'r amlwg.

Rydym hefyd yn casglu mwy o ddata meintiol i amlygu swm y gwaith y mae gwahanol dimau yn eu hwynebu, yn ogystal ag ymgymryd ag ymarferion cynllunio senario i ragweld y gofynion posibl yn y dyfodol yn sgil newid cyfansoddiadol pellach, sy'n cynnwys Brexit. Gallai'r gwaith hwn effeithio ar yr uchafswm o 491 y tu hwnt i 2018-19.

At ddiben eglurder, nodwn fod y nifer Cyfwerth ag Amser Llawn, a gyflwynir yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon i gydymffurfio â gofynion cyfrifyddu, yn gyfrifiad gwahanol. Mae'n seiliedig ar nifer gwirioneddol y staff a gyflogir, gan gynnwys staff rhan-amser, rhai sy'n gweithio llai na'r oriau arferol, staff sy'n cyflenwi dros gyfnodau mamolaeth a secondiadau, a staff sy'n rhannu swyddi. Felly, gall y ffigwr cyfwerth ag amser llawn newid yn rheolaidd trwy'r flwyddyn. Ddiwedd mis Rhagfyr 2017, y nifer cyfwerth ag amser llawn oedd 450.

**Comisiwn y Cynulliad**

**Mawrth 2018**

Adolygiad Capasiti

Cynnwys

Rhagair i’r adolyiad capasiti ............................................................ 2
Crynodeb Gweithredol ............................................................ 3
Cyflwyniad ............................................................ 7
Pam ein bod wedi cynnal yr adolygiad hwn ............................................................ 7
Sut y gwnaethom gynnal yr adolygiad hwn ............................................................ 7
Strwythur yr adroddiad ............................................................ 8
Staffio Comisiwn y Cynulliad ............................................................ 9
Y cyd-destun cyfansoddiadol ............................................................ 9
Datblygu strwythur Comisiwn y Cynulliad ............................................................ 10
Strwythur presennol Comisiwn y Cynulliad ............................................................ 12
Dulliau o ddarparu adnoddau ............................................................ 14
Diwylliant y sefydliad ............................................................ 15
Sgiliau a galluoedd ............................................................ 16
Meincnodi ............................................................ 18
Meincnodi maint y sefydliad ............................................................ 18
Meincnodi gwasanaethau dwyieithog ............................................................ 23
Cyfleoedd i weithio'n wahanol ............................................................ 25
Cytuno ar flaenoriaethau ............................................................ 25
Cynllunio a darparu yn well ............................................................ 27
Capasiti a gallu hyblyg ............................................................ 28
Datblygu dealltwriaeth gyffredin ............................................................ 31
Camau Nesaf ............................................................ 32

## Rhagair i'r adolyiad capasiti

Fel sefydliad a ariennir gan y cyhoedd, rhaid i Gomisiwn y Cynulliad ddangos yn gyson ei fod yn defnyddio ei adnoddau yn effeithlon ac yn effeithiol. Yn y cyd-destun hwn, ym mis Medi 2017, gwnaethom gychwyn adolygiad o strwythur a phrosesau Comisiwn y Cynulliad er mwyn deall sut y mae adnoddau'n cael eu dyrannu ar hyn o bryd o fewn y sefydliad ac i bwyso a mesur ai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon o ddefnyddio'r adnoddau hyn.

Bydd angen i Aelodau'r Cynulliad, eu Staff Cymorth a staff Comisiwn y Cynulliad gydweithio i gytuno ar y blaenoriaethau a sut i ddyrannu adnoddau er mwyn bodloni'r heriau sydd o'n blaenau a sicrhau'r hyblygrwydd i ymateb i newidiadau yn y galw.

Rydym yn falch o gyflwyno'r Adroddiad hwn, sy'n cofnodi canfyddiadau cam cyntaf yr adolygiad. Mae'r Adroddiad hwn hefyd yn sail dystiolaeth ar gyfer y cyfnod nesaf o waith, a fydd yn ceisio datblygu atebion i sicrhau y defnyddir ein hadnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon, a hynny er mwyn cyflawni amcanion y Comisiwn ar gyfer y Pumed Cynulliad a thu hwnt.

**Comisiwn y Cynulliad**

## Crynodeb Gweithredol

Ym mis Medi 2017, gofynnodd y Comisiwn i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru arwain adolygiad o strwythur a phrosesau'r Cynulliad er mwyn deall sut y caiff adnoddau eu dyrannu ar hyn o bryd yn y sefydliad ac i werthuso a yw'n defnyddio adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon.

Mae cam cychwynnol yr adolygiad, sy'n cael ei drafod yn yr adroddiad hwn, yn sylfaen dystiolaeth ar gyfer cam nesaf y gwaith, a fydd yn edrych ar ddatblygu atebion i sicrhau y defnyddir adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon i gyflawni amcanion y Comisiwn ar gyfer y Pumed Cynulliad ac ar ôl hynny. Mae'r adolygiad wedi ymgysylltu'n helaeth â staff Comisiwn y Cynulliad a chydag Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Wrth i'r adolygiad symud i'r cyfnod gweithredu, bydd angen i ni ymgysylltu'n ymhellach ag Aelodau a'u staff i sicrhau bod gwasanaethau yn parhau i ddiwallu eu hanghenion.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cynnal cyfres o drawsnewidiadau radical o'i bwerau a'i strwythur yn y 18 mlynedd ers ei sefydlu. Mae penderfyniad y DU i adael yr UE yn debygol o ddod â newidiadau pellach i rôl a llwyth gwaith y Cynulliad.

Mae'r heriau newydd hyn wedi golygu bod angen cyfnod o dwf yn nifer y staff er mwyn gwireddu'r nodau, y blaenoriaethau a'r anghenion a nodwyd gan y Comisiwn ac Aelodau'r Cynulliad. Maint presennol Comisiwn y Cynulliad yw 491 o swyddi sefydledig gyda 454 o staff cyfwerth ag amser llawn (FTE)[1].

Fel rhan o'r adolygiad, rydym wedi meincnodi nifer ein staff yn erbyn y rhai sydd yn Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Rydym hefyd wedi cynnal gwaith meincnodi penodol ar nifer y staff sydd yn ymwneud â darparu

[1] Mae ffigur y Sefydliad yn cynrychioli nifer y swyddi parhaol y nodwyd eu bod yn angenrheidiol i gyflawni Strategaeth y Comisiwn; mae'n strwythur sefydliadol sefydledig ac yn eithaf sefydlog dros amser. Mae newidiadau i ffigur y Sefydliad yn deillio o'r newidiadau y cytunwyd arnynt i flaenoriaethau'r sefydliad. Y rhif Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE), a gyflwynir yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon i gydymffurfio â gofynion cyfrifyddu yw nifer gwirioneddol y staff a gyflogir, gan gynnwys staff rhan-amser, rhai sy'n gweithio llai na'r oriau arferol, staff sy'n cyflenwi dros gyfnodau mamolaeth a secondiadau, a staff sy'n rhannu swyddi.

gwasanaethau dwyieithog gyda seneddau sy'n gweithio'n ddwyieithog i raddau amrywiol.

Mae gan Senedd yr Alban sefydliad o 504 o swyddi, ac mae gan Gynulliad Gogledd Iwerddon sefydliad o 344.9; felly, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gorwedd rhwng y ddau sefydliad hyn o ran maint.

Roedd yr ymarfer meincnodi yn amlygu'r anhawster o wneud cymhariaeth fel hyn gan fod cynifer o newidynnau yn effeithio ar adnoddau gwasanaethau seneddol ac mae'r berthynas â nifer yr Aelodau etholedig yn gymhleth. Bydd gwaith pellach gyda'n cydweithwyr mewn seneddau eraill yn ein helpu i feincnodi modelau darparu gwasanaeth yn well i sicrhau ein bod yn parhau i ddilyn, ac yn helpu i ddatblygu, arfer gorau mewn gwasanaethau seneddol.

Mae darparu adnoddau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn golygu ystod o heriau, o optimeiddio effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gweithdrefnau seneddol, gorfod bodloni nifer o ofynion statudol, cynnwys ystod eang o batrymau gwaith o weithio yn ystod y tymor i systemau sifft, bod yn barod ar gyfer gofynion gwleidyddol mewnol ac allanol a gofynion eraill ac ymateb yn gyflym i’r rhain. Mae'r Cynulliad wedi mabwysiadu dulliau gwahanol i fodloni'r heriau hyn, gan gynnwys dull integredig unigryw i gefnogi pwyllgorau, defnyddio contractau yn ôl y gofyn ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu harwain yn ôl y galw a mabwysiadu cymysgedd o ddulliau i gyflwyno prosiectau.

Roedd gallu deall a datblygu sgiliau a galluoedd ein staff yn well yn thema gref a oedd yn deillio o'r adolygiad. Bydd pwysigrwydd sicrhau bod gennym y sgiliau cywir yn ogystal â’r capasiti cywir yn parhau i fod yn ganolog i'n gallu i fodloni gofynion newidiol.

Mae diwylliant y Comisiwn yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau 'safon aur' wedi eu teilwra, o ansawdd uchel ac sy’n ymatebol iawn i ddiwallu anghenion y Comisiwn a'r Aelodau. Er mwyn sicrhau y gallwn barhau i ddarparu gwasanaethau effeithiol o ansawdd uchel, bydd yn rhaid i ni wneud yn siŵr bod y gwasanaethau hyn yn parhau i ganolbwyntio ar ddiwallu anghenion y defnyddwyr, gan ganolbwyntio ar y pethau sy’n ychwanegu’r gwerth mwyaf.

Cafodd cyfleoedd i wella'r ffordd rydym yn gweithio eu casglu yn ystod yr adolygiad ac maent yn perthyn i ddau gategori: y rhai sydd ag effaith ar

draws y sefydliad ac a drafodir isod; a'r rhai sy'n cael effaith benodol ar wasanaeth neu weithgaredd. Bydd y categori olaf yn cael ei asesu a'i ddatblygu ar lefel gwasanaeth. Y cyfleoedd newid ar draws y sefydliad yw:

- Cytuno ar flaenoriaethau;
- Cynllunio a darparu yn well;
- Mwy o ystwythder o ran capasiti a gallu;
- Datblygu dealltwriaeth gyffredin.

Er mwyn cyflawni canlyniadau'r adolygiad bydd Comisiwn y Cynulliad yn:

- sefydlu grŵp llywio i reoli'r gwaith o weithredu camau yr Adolygiad Capasiti;
- cefnogi'r Comisiwn wrth flaenoriaethu prosiectau a mentrau newydd;
- gwella cysylltiadau o flaenoriaethau i gynllunio gweithredol ac amcanion personol;
- cynnal gwaith dadansoddi manwl pellach o'n strwythurau a'n ffyrdd o weithio i werthuso a fydd y rhain yn parhau'n effeithiol yn sgil gofynion yn y dyfodol;
- parhau i adolygu a herio systemau sy'n bodoli eisoes gyda gwaith cychwynnol yn edrych ar y canlynol:
    - Trefniadau rheoli a llywodraethu mewnol;
    - Y ffyrdd rydym yn galluogi Aelodau i wneud penderfyniadau mwy gwybodus ynghylch trefnu eu gwaith pwyllgorau a manylion ac amlder y wybodaeth a ddarparwn iddynt gan amlinellu goblygiadau'r penderfyniadau hynny o ran adnoddau;
    - Adolygu'r trefniadau cymorth o ddechrau'r broses i'r diwedd ar gyfer pwyllgorau;
    - Ein dulliau cyfathrebu mewnol ac allanol a sut rydym yn darparu adnoddau ar gyfer hyn; a
- byddwn yn cymryd camau i wella'r ffordd rydym yn cyfathrebu â staff a rhanddeiliaid eraill. Cyfleu ac atgyfnerthu cyfrifoldebau timau a grymuso'r bobl gywir i wneud penderfyniadau o fewn cyd-destun cyfres glir o flaenoriaethau.

Adolygiad Capasiti

Bydd cwblhau'r camau hyn yn helpu i gyfrannu at well undod o ran pwrpas a chyfeiriad ar draws y sefydliad ac yn darparu sylfaen ar gyfer yr heriau sydd o'n blaenau.

Efallai y bydd newidiadau eithriadol ac eang i amgylchiadau, fel cynyddu nifer Aelodau'r Cynulliad, yn gofyn am asesiad pellach o gapasiti gofynnol y Comisiwn. Fodd bynnag, fel egwyddor gyffredinol, mae'r Comisiwn yn ymrwymedig i aros o fewn ffigur presennol y sefydliad, sef 491, ar gyfer gweddill y Pumed Cynulliad.

Byddwn yn argymell i Gomisiynau y dyfodol fod ymarfer Adolygiad Capasiti tebyg yn cael ei gynnal ar ddechrau pob Cynulliad er mwyn eu galluogi i gynllunio'n effeithiol.

# Cyflwyniad

## Pam ein bod wedi cynnal yr adolygiad hwn

Mae gwariant Comisiwn y Cynulliad yn amodol ar waith craffu agos gan Aelodau (yn eu capasiti fel Aelodau unigol ac fel aelodau o Bwyllgorau'r Cynulliad) a'r cyhoedd yn gyffredinol, ac mae hynny wrth gwrs yn iawn. Rhaid i'r Comisiwn barhau i allu dangos ei fod yn rheoli arian cyhoeddus yn briodol. Rhaid iddo fod yn glir ac yn dryloyw wrth bennu cyllidebau a gwariant ar staff ac adnoddau a dangos bod ei wariant yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

Mae'r Comisiwn wedi profi cyfnod o dwf o ran nifer y staff wrth i ni wynebu heriau newydd a chynyddol gan gynnwys newid cyfansoddiadol, defnyddio rhaglenni TGCh yn fewnol, cynnydd mewn anghenion diogelwch a disgwyliadau uwch gan ein rhanddeiliaid. Rydym yn cydnabod na fydd hi bob amser yn bosibl ateb yr heriau newydd hyn drwy gynyddu maint ein sefydliad. Byddwn yn parhau i ystyried p'un a fyddai ffyrdd gwahanol o weithio a threfnu ein hunain yn cynyddu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ein gwasanaethau.

Ym mis Medi 2017, gofynnodd y Comisiwn i'r Prif Weithredwr a Chlerc arwain adolygiad capasiti o strwythur a phrosesau'r Cynulliad er mwyn deall sut y caiff adnoddau eu dyrannu ar hyn o bryd yn y sefydliad ac i werthuso a yw hyn yn defnyddio adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon i gyflawni amcanion y Comisiwn ar gyfer y Pumed Cynulliad ac ar ôl hynny.

## Sut y gwnaethom gynnal yr adolygiad hwn

Mae'r adolygiad wedi'i lywio gan ystod o dystiolaeth ansoddol a meintiol, gan gynnwys:

- Arolygu holl staff Comisiwn y Cynulliad (359 o ymatebion gyda 190 o ymatebwyr yn rhoi sylwadau manwl sy'n cyfateb i 665 o syniadau a materion gwella unigol);
- Cwrdd â holl Benaethiaid Gwasanaeth Comisiwn y Cynulliad;
- Mynd i gyfarfodydd tîm gwasanaethau ar draws y Comisiwn;
- Mynd i gyfarfod Fforwm y Cadeiryddion;

Adolygiad Capasiti

– Cyfarfodydd unigol â Chadeiryddion Pwyllgorau;

– Cyfarfod â phenaethiaid staff grwpiau pleidiau;

– Dadansoddi penderfyniadau recriwtio, cynlluniau gwasanaeth a chapasiti, adroddiadau adnoddau AD, adroddiadau archwilio mewnol, yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a data sefydliadol eraill;

– Data o Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon i helpu i feincnodi, lle bo hynny'n bosibl;

– Meincnodi ein gwasanaethau dwyieithog yn erbyn deddfwrfeydd dwyieithog eraill.

Yn ychwanegol at y tîm adolygu, cafwyd gweithgor i roi cymorth a her. Mae mewnbwn a chyngor gan Gynghorwyr Annibynnol Comisiwn y Cynulliad hefyd wedi bod yn amhrisiadwy o ran helpu i lunio'r adolygiad.

Mae'r adolygiad yn sylfaen dystiolaeth ar gyfer y cam nesaf o waith, a fydd yn ceisio datblygu a chytuno ar atebion i roi'r cynllun gweithredu ategol ar waith.

## Strwythur yr adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi canfyddiadau'r adolygiad sydd wedi'i strwythuro o amgylch yr amcanion a nodwyd yng nghylch gorchwyl yr adolygiad.

**Staffio Comisiwn y Cynulliad**: I ddadansoddi sut y mae adnoddau staff wedi'u dyrannu o fewn y sefydliad a gwerthuso ai hyn yw'r defnydd mwyaf effeithiol ac effeithlon o adnoddau i gyflawni amcanion y Comisiwn.

**Meincnodi**: Meincnodi ein gwasanaethau yn erbyn y rhai a ddarperir gan seneddau eraill a galluogi'r Comisiwn i ystyried sut y mae hyn yn cyd-fynd â blaenoriaethau esblygol y Comisiwn.

**Cyfleoedd i weithio'n wahanol**: Gweithio gyda staff i ganfod gweithgareddau nad ydynt yn flaenoriaeth mwyach neu y gellid eu darparu'n wahanol, gan ddwyn ynghyd meysydd eraill o waith parhaus ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd i ganfod a manteisio ar ffyrdd o wneud pethau'n well.

## Staffio Comisiwn y Cynulliad

### Y cyd-destun cyfansoddiadol

Mae rôl a phwerau'r Cynulliad wedi cynyddu'n sylweddol ers 1999. Mae'r pwysau ar y Cynulliad yn debygol iawn o barhau i gynyddu wrth fabwysiadu model datganoli cadw pwerau, datganoli pwerau i godi trethi a benthyca (gan gynnwys pwerau amrywio treth incwm), datganoli cyfrifoldebau eraill ymhellach a Brexit.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cynnal cyfres o drawsnewidiadau radical o'i bwerau – ac, yn un achos, ei strwythur – yn y 18 mlynedd ers ei sefydlu. Arweiniodd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 y ffordd at wahanu un corff corfforaethol i Lywodraeth Cymru, y Cynulliad Cenedlaethol a Chomisiwn y Cynulliad yn 2007, gyda symudiad sylfaenol arall ar ôl y Refferendwm yn 2011 i gael pwerau deddfwriaeth sylfaenol llawn. Yn sgil Ddeddfau Cymru 2014 a 2017, cawsom bwerau codi trethi a newidiadau pellach i'r setliad datganoli a chyfrifoldebau'r sefydliad.

Mae maint Llywodraeth Cymru wedi newid dros amser i adlewyrchu rôl a phwerau'r Cynulliad. Pan sefydlwyd y Cynulliad i ddechrau, roedd y Rheolau Sefydlog yn cyfyngu ar faint y Cabinet i naw. Cafodd y terfyn hwn ei gynyddu i 14 gan adran 51 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fodd bynnag, mae'r Cynulliad wedi'i gyfyngu i 60 Aelod o hyd, sy'n gosod heriau sylweddol wrth geisio dwyn y weithrediaeth i gyfrif.

Mae maint y Cynulliad yn golygu bod y rhan fwyaf o Aelodau meinciau cefn pob plaid wleidyddol yn aelodau o ddau neu weithiau tri phwyllgor heriol. Er enghraifft, ar ôl cyfrif aelodau Llywodraeth Cymru a'r Dirprwy Lywydd, dim ond 15 o Aelodau Llafur Cymru y meinciau cefn sydd ar gael. Rhaid i'r 15 Aelod rhyngddynt lenwi lle ar Gomisiwn y Cynulliad, chwe chadeirydd pwyllgor a 31 o lefydd mewn pwyllgorau. Gan fod pedwar lle Llafur ar bob un o'r pwyllgorau polisi a deddfwriaethol, y canlyniad fwy neu lai yw y bydd pob un o aelodau meinciau cefn y blaid mewn pwyllgor ar fore Mercher a drwy'r dydd ar ddydd Iau pan gynhelir pedwar pwyllgor ar yr un pryd.

Gan edrych ymlaen, mae'r Cynulliad yn gweithredu yng nghyd-destun newid cyfansoddiadol heb ei debyg yn y DU, a hynny oherwydd canlyniadau'r refferendwm ar aelodaeth yr UE.

Adolygiad Capasiti

Mae penderfyniad y DU i adael yr UE yn debygol o ddod â newidiadau pellach i rôl a llwyth gwaith y Cynulliad. Mae gan y Cynulliad rôl hanfodol o ran sicrhau bod llais pobl Cymru yn cael ei glywed yn y trafodaethau ar Brexit. Bydd angen iddo chwarae ei ran yn goruchwylio'r trafodaethau, a chraffu ar y ddeddfwriaeth fydd yn dilyn.

Nid yw union natur effaith Brexit ar rôl, pwerau a llwyth gwaith y Cynulliad yn glir eto, gan na allwn wybod yn sicr ar hyn o bryd beth fydd y trefniadau cyfansoddiadol yn y Deyrnas Unedig ar ôl Brexit, na pha bwerau fydd yn cael eu dychwelyd o'r UE a beth fydd goblygiadau hynny o ran cyfrifoldebau a chymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU wedi nodi ei bod yn disgwyl y bydd cyfrifoldebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cynulliad Gogledd Iwerddon a Senedd yr Alban yn cynyddu.

Mae'n amlwg y bydd gan y Cynulliad rôl i'w chwarae yn craffu ar y sefydliad a'r gwaith o weithredu unrhyw fframweithiau cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisi, ym mha bynnag ffurf y byddant. Felly, gallwn ddisgwyl y bydd rôl y Cynulliad yn ystod proses Brexit, ac yn y DU ar ôl Brexit, yn cynnwys ffurfio polisi cyhoeddus yng Nghymru mewn meysydd a oedd yn dibynnu'n flaenorol ar ddulliau a bennwyd ar lefel Ewropeaidd; craffu ar gryn lawer o ddeddfwriaeth sylfaenol, is-ddeddfwriaeth a Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol; craffu ar waith rhynglywodraethol; hwyluso a chynnal gwaith craffu ar y cyd â deddfwrfeydd eraill; a dylanwadu ar y ddadl o ran ble y dylai pwerau sy'n cael eu dychwelyd o'r UE fynd.

Er y gallai fod peth ansicrwydd ynghylch y pwerau sydd gan y Cynulliad o ganlyniad i Brexit, mae'n glir na fydd llwyth gwaith Aelodau yn lleihau a'i fod yn debygol o gynyddu.

Bydd Comisiwn y Cynulliad hefyd yn monitro'n agos unrhyw ddatblygiadau ynghylch argymhellion Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad ac yn ystyried y goblygiadau posibl ar gapasiti, adnoddau a ffyrdd o weithio.

## Datblygu strwythur Comisiwn y Cynulliad

Ers ei greu, nod Comisiwn y Cynulliad o ran adnoddau a darparu gwasanaeth yw anelu at ragoriaeth ym mhob agwedd ar ei waith. Nodweddion y lefelau gwasanaeth y mae'n eu darparu yw cyflymder, ymatebolrwydd i ofynion

Adolygiad Capasiti

Aelodau a darpariaeth sy'n aml wedi'i theilwra i anghenion pwyllgorau ac Aelodau unigol. Mae'r pwynt olaf hwn yn benodol yn un sy'n gwneud y Cynulliad yn senedd nodedig.

Yn ystod y cyfnod ers gwahanu'r weithrediaeth a’r ddeddfwrfa yn 2007, mae Comisiwn y Cynulliad wedi gweld cynnydd yn yr adnoddau pobl a ddyrannwyd iddo er mwyn cyflawni’r nodau, y blaenoriaethau a’r anghenion a bennwyd gan y Comisiwn ac Aelodau’r Cynulliad. Mae hyn wedi cynnwys:

- darparu seilwaith corfforaethol i Gomisiwn y Cynulliad fel sefydliad newydd ar ôl gwahanu oddi wrth Llywodraeth Cymru. Mae hyn wedi cynnwys sefydlu a datblygu swyddogaeth adnoddau dynol i gefnogi'r sefydliad sy'n aeddfedu a darparu swyddogaethau cyfreithiol, llywodraethu a chaffael ei hun i'r sefydliad;
- defnyddio trefniadau TGCh mewnol yn y sefydliad gan sicrhau sgiliau ac arbenigedd TGCh effeithiol sy'n darparu gwell gwerth am arian na'r trefniadau blaenorol o gontractio gwasanaethau;
- darparu lefelau gwell o ddiogelwch, gan gydnabod y bygythiadau cynyddol o ran terfysgaeth;
- cefnogi Aelodau a'u staff yn well i gyflawni eu dyletswyddau yn sgil rolau cynyddol o ran craffu deddfwriaethol ac ariannol a newid cyfansoddiadol ehangach;
- gwella’r gwasanaethau a ddarperir gennym ymhellach mewn perthynas â gweithio'n ddwyieithog i sicrhau bod y ddwy iaith swyddogol yn cael eu trin yn gyfartal;
- ymateb i ddisgwyliadau cynyddol gan Aelodau'r Cynulliad a phobl Cymru o ran ein gwaith ymgysylltu a gwasanaethau digidol. Gan gynnwys disgwyliadau o ran tryloywder a hygyrchedd gwybodaeth a gallu cyfathrebu'n gyflym â'n cynulleidfaoedd mewn ymateb i lwyfannau newyddion 24 awr.

Mae'r Comisiwn wedi derbyn argymhellion y Pwyllgor Cyllid na ddylai newidiadau yn ein cyllideb yn y dyfodol fod yn fwy na'r hyn a welwyd yn grant Bloc Cymru ac nad ydym yn cynyddu nifer y swyddi yr ydym yn eu cyllido yn ystod 2018-19.

Adolygiad Capasiti

O gofio'r pwysau a nodwyd yn ystod yr adolygiad hwn, mae'n hanfodol ein bod yn cynllunio'n ofalus yn ystod y misoedd nesaf i sicrhau bod gennym hyblygrwydd i ymateb i anghenion wrth iddynt godi.

## Strwythur presennol Comisiwn y Cynulliad

Cyhoeddodd Comisiwn y Cynulliad ei Strategaeth ar gyfer y Pumed Cynulliad ym mis Gorffennaf 2016. Ar gyfer pob nod strategol, nod y Comisiwn yw:

*'gosod a chynnal safonau uchel fel arweinydd ym maes gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, a hynny ar adeg o graffu cyhoeddus mwy trylwyr fyth, a gwella ein henw da yn rhyngwladol fel sefydliad seneddol o'r radd flaenaf sy'n agored ac yn effeithiol.'*[2]

Mae strategaeth cyllideb y Comisiwn yn ceisio parhau â'r lefelau rhagorol o gefnogaeth, ond gan hefyd ystyried y cyd-destun ariannol ehangach, sy'n gweld y rhan fwyaf o sefydliadau'r sector cyhoeddus yn gorfod bod yn ddarbodus a gwneud y mwyaf o effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd.

Er mwyn ategu Strategaeth Comisiwn y Cynulliad, mae uwch-reolwyr wedi sefydlu 'edefyn' cynllunio sy'n rhedeg o'r strategaeth a'r nodau, drwy'r blaenoriaethau corfforaethol ac i'n gwaith cynllunio gwasanaeth a chapasiti. Ategir hyn gan fframwaith sicrwydd, sy'n helpu i sicrhau tystiolaeth o gynllunio a phenderfyniadau effeithiol.

Ers mis Awst 2016, rhannwyd gweinyddiaeth y Comisiwn yn dri Chyfarwyddiaeth (Busnes y Cynulliad, Adnoddau'r Cynulliad a Gwasanaethau'r Comisiwn), gan adrodd i'r Prif Weithredwr. Mae'r Cyfarwyddiaethau wedi'u rhannu ymhellach yn wasanaethau, dan arweiniad y Penaethiaid Gwasanaeth.

Mae'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn aelodau o'r Bwrdd Rheoli, sy'n cwrdd yn rheolaidd yn ffurfiol ac yn anffurfiol i adolygu, cydlynu, a rhannu gwybodaeth ar faterion polisi a materion gweithdrefnol. Mae'r Bwrdd Rheoli yn gyfrifol am sicrhau bod y strategaeth yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau.

---

[2] Strategaeth Comisiwn y Cynulliad 2016–2021, Gorffennaf 2016

Adolygiad Capasiti

Mae'r Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau (IRB) (sy'n cynnwys y Prif Weithredwr a Chlerc, Cyfarwyddwyr a Phennaeth Adnoddau Dynol) yn gyfrifol am benderfyniadau ar fuddsoddi ac adnoddau staffio ac am oruchwylio cyllideb y Comisiwn.

O fewn Comisiwn y Cynulliad, mae yna broses sefydledig o ran cynllunio capasiti a gwasanaethau a gwneir penderfyniadau ar draws y sefydliad ddwywaith y flwyddyn, wedi'u llywio gan gynigion manwl gan bob Cyfarwyddiaeth. Dim ond y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau ar hyn o bryd sydd â'r awdurdod i recriwtio ar gyfer pob swydd, boed yn swyddi newydd fel rhan o gynllun capasiti wedi'i gymeradwyo neu swyddi 'ôl-lenwi'.

Gellir gweld manylion y sefydliad presennol a nifer y staff cyfwerth ag amser llawn ym mhob gwasanaeth yn y tabl isod. Mae newidiadau i nifer y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogir gan Gomisiwn y Cynulliad ers 2007 i'w gweld yn Atodiad A.

| Adran | Sefydliad (Medi 17) | Cyfwerth ag amser llawn (Medi 17) |
|---|---|---|
| Y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau (CAMS) | 32 | 32.34 |
| Y Gwasanaethau Cyfreithiol | 15 | 14.08 |
| Yr Adran Adnoddau Dynol | 33 | 28.59 |
| Rheoli Cyfleusterau ac Ystadau (EFM) | 30 | 30.12 |
| Y Gwasanaethau Ariannol | 14 | 13.43 |
| TGCh | 45 | 42.99 |
| Y Gwasanaeth Ymchwil | 44 | 40.27 |
| Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau | 24 | 23.30 |
| Y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi (TRS) | 47 | 43.72 |
| Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth (PLCS) | 33 | 32.41 |
| Cyfathrebu | 32 | 27.27 |
| Diogelwch | 74 | 65.16 |
| Gwasanaeth Llywodraethu, Archwilio a Chaffael | 15 | 14.15 |
| Yr Uned Gydgysylltu | 6 | 6.00 |
| Y Gwasanaeth Trawsnewid Strategol (STS) | 14 | 14.00 |
| Gwasanaethau Ymwelwyr a Lleoliadau Seneddol (PAVVS) | 33 | 26.09 |
| Cyfanswm | 491 | 453.92 |

## Dulliau o ddarparu adnoddau

Mae darparu adnoddau i Gomisiwn y Cynulliad yn golygu ystod o heriau, o optimeiddio effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gweithdrefnau seneddol, gorfod bodloni nifer o ofynion statudol, cynnwys ystod eang o batrymau gwaith o weithio yn ystod y tymor i systemau sifft, bod yn barod ar gyfer

gofynion gwleidyddol mewnol ac allanol a gofynion eraill ac ymateb yn gyflym i'r rhain.

Mae'r Cynulliad yn cael ei ystyried fel un o'r gorau ymysg seneddau eraill am y ffordd integredig y mae'n cefnogi ei bwyllgorau. Caiff y dull ei gydnabod fel un sy'n annog dull cyfannol o ddarparu arbenigedd a chynorthwyo Aelodau'r Cynulliad i'r eithaf.

Mae gan rai gwasanaethau sy'n seiliedig ar alw, neu sydd angen cael gafael ar adnoddau neu arbenigedd ychwanegol dros dro ar adegau penodol, gontractau allanol ar waith sy'n eu galluogi i fod yn fwy hyblyg i fodloni gofynion, fel y Gwasanaethau Cyfreithiol, Ystadau, datblygu rhaglenni TGCh a Chyfieithu.

Mae'r gwaith ymgysylltu academaidd a arweinir gan y Gwasanaeth Ymchwil hefyd yn ffordd o ddefnyddio arbenigedd academaidd ychwanegol am gyfnod byr i wella capasiti a gallu timau yn bennaf o fewn y Gyfarwyddiaeth Fusnes. Mae hyn yn cynnwys partneriaethau cyfnewid gwybodaeth â Phrifysgol Caerdydd ar systemau gwybodaeth daearyddol (GIS) a chydweithio rhyngseneddol e.e. ar Brexit.

Mae staff Comisiwn y Cynulliad hefyd yn dangos ymrwymiad i welliant parhaus ar draws pob agwedd ar y gwasanaethau a ddarperir. Yn ddiweddar rydym wedi cyflwyno strwythurau newydd a ffyrdd newydd o weithio yn dilyn adolygiad o ddigwyddiadau'r Cynulliad a'n gwasanaethau diogelwch. Rydym hefyd wedi sicrhau ffyrdd newydd o chwilio drwy Gofnod y Trafodion a'r prosesau ynghylch cyflwyno cwestiynau a gwelliannau.

Er ein bod yn cydnabod yr amrywiol ffyrdd effeithiol yr ydym yn darparu ein gwasanaethau, rydym hefyd wedi nodi cyfleoedd i wella. Roedd ymatebion i'n harolwg staff yn canfod fod cynllunio gwaith doethach, mwy o gydweithio ar draws timau a sicrhau bod gwaith yn llifo'n effeithlon yn themâu gwella cyffredin.

## Diwylliant y sefydliad

Mae diwylliant o ragoriaeth a cheisio gwella'n barhaus yn un y mae mwyafrif y staff yn ei gydnabod yn eu hymatebion i'r adolygiad. Roedd nifer yn disgrifio diwylliant y Comisiwn fel un sy'n canolbwyntio ar ddarparu'r allbynnau a'r gwasanaethau o'r safon uchaf posibl. Mae hyn wedi arwain at

wasanaethau o safon uchel y mae Aelodau a'u staff cymorth yn dweud eu bod yn eu gwerthfawrogi. Mae canlyniadau arolygon blynyddol, olynol Aelodau a Staff Cymorth Aelodau yn dangos lefelau uchel o fodlonrwydd o ran gwasanaethau'r Comisiwn. Mae Aelodau wedi nodi bod lefel y gefnogaeth a gânt yn helaeth iawn ac yn cymharu'n ffafriol â seneddau eraill.

Un rhan annatod o ethos y sefydliad yw bod y Comisiwn yn draddodiadol yn ymateb ar unwaith i geisiadau gan Aelodau, Comisiynwyr a'r Llywydd. Mae'r dull hwn, ynghyd â'r awydd i ddarparu i'r safon uchaf posibl, wedi arwain at gynnydd yn yr adnoddau sydd eu hangen i ymateb yn effeithiol. Mae gwaith dadansoddi ffurflenni cymeradwyo recriwtio a chynlluniau gwasanaeth yn dangos bod y galw cynyddol i ddarparu gwasanaethau pellach ac o safon uwch yn cyfrannu'n sylweddol at faint cynyddol Comisiwn y Cynulliad.

Roedd y rhai a gyfrannodd at yr adolygiad yn sôn am wneud darnau unigol o waith i Aelodau a gwasanaethau mewnol a allai gynyddu'n gyflym i wythnosau o waith sy'n ychwanegu pwysau at adnoddau presennol i ateb pob cais. Mae’r gwasanaeth Ymchwil, y gwasanaethau Cyfreithiol a Chyfathrebu wedi nodi hyn.

## Sgiliau a galluoedd

Roedd deall a datblygu sgiliau a galluoedd ein staff yn thema gref a oedd yn deillio o'r adolygiad. Roedd y rhai a gyfrannodd yn nodi pa mor bwysig yw cael y sgiliau cywir yn ogystal â chael y capasiti cywir. Rydym wedi elwa ar lefelau da o fuddsoddi yn natblygiad staff fel y gwelir gan y ffaith ein bod wedi cyrraedd y lefelau uchaf yng ngwobrau Buddsoddwyr Mewn Pobl (IiP) ers nifer o flynyddoedd a'r adborth cadarnhaol a gafwyd yn yr arolygon staff ac Aelodau. Roedd y staff y siaradwyd â hwy yn sôn am bwysigrwydd buddsoddi parhaus yn natblygiad staff ond hefyd sicrhau bod hyfforddiant yn canolbwyntio'n briodol ar gyflawni buddion busnes sy'n cyd-fynd â'n nodau strategol.

Mae adolygiad o anghenion dysgu a datblygu wrthi'n cael ei gynnal gyda'r bwriad o gadarnhau pa hyfforddiant y mae’r Cynulliad yn ei gynnig ar hyn o bryd; cynnal dadansoddiad o’r bwlch dysgu; deall y sgiliau / gwybodaeth / dysgu sy'n ofynnol a sut y gellir darparu'r rhain.

Mae'n hollbwysig bod ein swyddogaeth dysgu a datblygu yn cyd-fynd â'n cyfeiriad strategol a bod yr hyn yr ydym yn ei gynnig yn seiliedig ar

fanteision sy'n canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau sy'n galluogi a gwella gwerth y gwasanaethau a ddarperir gennym.

Mae staff cymorth Aelodau'r Cynulliad (AMSS) wedi nodi eu bod yn rhoi gwerth sylweddol ar y cymorth a gânt gan y Comisiwn o ran eu datblygiad proffesiynol, gan nodi bod y *tîm datblygu proffesiynol yn parhau i ddarparu amrywiaeth o gyrsiau ac adnoddau hyfforddiant gwerthfawr sy'n helpu AMSS i wella eu sgiliau fel y gallant gyflawni eu swyddi yn fwy effeithiol ac effeithlon*.

# Meincnodi

## Meincnodi maint y sefydliad

Mae staff Comisiwn y Cynulliad ar draws pob Cyfarwyddiaeth yn cynnal cysylltiadau agos â seneddau eraill yn y DU ac Iwerddon, yn ogystal ag Awstralia a Chanada, gwledydd eraill y Gymanwlad ac mewn mannau eraill ar draws y byd. Mae manteision niferus i'r cysylltiadau hyn gan gynnwys y cyfle i rannu a nodi arfer gorau yn rheolaidd wrth ddarparu gwasanaethau seneddol sy'n cynnig gwerth am arian.

Rydym yn gwybod o'r perthnasau rydym wedi'u datblygu bod seneddau yn darparu adnoddau mewn ffyrdd gwahanol, i ddiwallu anghenion penodol. Mae'r newidynnau (sy'n sylweddol) sy'n effeithio ar benderfyniadau o ran darparu adnoddau yn cynnwys:

- y cyd-destun gwleidyddol ac ariannol;
- swyddogaethau a gweithdrefnau'r senedd, gan gynnwys nifer yr ieithoedd swyddogol;
- nifer yr Aelodau a lefelau staff cymorth yr Aelodau;
- y ffordd y mae Aelodau yn canfod ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau;
- yr adnoddau sydd ar gael i'r senedd gan sefydliadau eraill / sectorau cymdeithasau;
- y dewisiadau a wneir gan uwch-reolwyr ynghylch sut i drefnu timau i fanteisio i'r eithaf ar sgiliau a phrofiad.

Oherwydd hynny, mae'n anodd gwneud cymariaethau uniongyrchol a chlir. Er enghraifft, mae Senedd yr Alban, sy'n cael ei nodi yn aml fel y sefydliad mwyaf tebyg i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn wahanol mewn sawl ffordd, a hynny ar sail y canlynol:

- Hanes, diwylliant a gwleidyddiaeth
- Maint
- System bwyllgorau
- Gweithdrefnau a ffurf y timau clercio
- Gwasanaethau sydd ar gael i Aelodau, e.e. i gefnogi deddfwriaeth y meinciau cefn

Adolygiad Capasiti

- System gyfreithiol (h.y. mae gan yr Alban awdurdodaeth ar wahân i Gymru a Lloegr)
- Cymhwysedd deddfwriaethol
- Polisi iaith

Ar yr wyneb, gellid disgwyl y byddai rhai gwahaniaethau - maint, cymhwysedd deddfwriaethol - yn golygu mwy o staff i Senedd yr Alban; tra y byddai gwahaniaethau eraill - polisi iaith llai uchelgeisiol, llai o gefnogaeth ar gyfer deddfwriaeth meinciau cefn - yn golygu llai o staff. Fodd bynnag, mewn gwirionedd, mae'r gwahaniaethau hyn yn llai amlwg. Er mwyn eu deall bydd angen ystyried yn fanwl pam a sut y mae gwasanaethau yn cael eu strwythuro ac yn cael adnoddau, yn ogystal â'r ffordd y caiff nifer y staff eu nodi, y tasgau a wneir, a'r cyfrifoldebau a rennir ar draws gwahanol dimau.

O fewn amserlen yr adolygiad hwn, nid ydym wedi gallu cynnal y lefel hon o ddadansoddiad manwl mewn perthynas â'n cymaryddion mwyaf cyfarwydd - seneddau datganoledig eraill y DU nac, yn wir, meincnodi byd-eang ehangach.

Serch hynny, rydym wedi gallu meincnodi nifer y staff yn erbyn y rhai yn Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon a gellir eu gweld yn y tablau isod. Mae gan Senedd yr Alban sefydliad o 504 ac mae Cynlluniad Gogledd Iwerddon yn nodi ei fod yn sefydliad o 344.9. Am y rhesymau a nodir uchod, rhaid defnyddio'r ystadegau hyn yn ofalus iawn.

Mae'r ffigurau yn y ddau dabl isod wedi'u dadansoddi yn unol â strwythur Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon, yn y drefn honno. O ganlyniad, pan fo'n briodol, rydym wedi grwpio'r gwasanaethau y gellir eu cymharu â Chynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn gallu gwneud cymariaethau uniongyrchol.

| Gwasanaethau Senedd yr Alban | Sefydliad | Sefydliad |
|---|---|---|

Adolygiad Capasiti

| | Senedd yr Alban (Medi 2017) | Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Medi 2017) |
|---|---|---|
| Siambr, Cofnodi a Darlledu | 75 | 62* |
| Pwyllgorau ac Allgymorth | 62 | 59 |
| Gwasanaethau Digidol | 62 | 54 |
| Adnoddau Dynol a Rheoli Cyfleusterau | 57 | 58 |
| Cyllid (gan gynnwys Cyflogres a Lwfansau) a Diogelwch | 110 | 108 |
| Gwasanaethau Cyfreithiol, Caffael ac Archwilio | 25 | 30 |
| Ymchwil, Cyfathrebu ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd | 92 | 103 |
| Swyddfeydd y Llywydd, Prif Weithredwr, Cysylltiadau Rhyngwladol ACEs, deiliaid swyddi | 21 | 17 |
| Cyfanswm | 504 | 491 |

Adolygiad Capasiti

| Cynulliad Gogledd Iwerddon Gwasanaethau | Sefydliad Gogledd Iwerddon (Medi 2017) | Sefydliad Cymru (Medi 2017) |
|---|---:|---:|
| Swyddfeydd y Cyfarwyddwyr a Chymorth i'r Comisiwn | 14.0 | 32 |
| Cyllid | 20.8 | 14 |
| Swyddfa Adnoddau Dynol a'r Uned Cydraddoldeb | 16.2 | 33 |
| Ystadau, gwasanaeth porthor a gwasanaethau diogelwch | 89.3 | 104 |
| Gwasanaethau Pwyllgorau a'r Cyfarfod Llawn | 73.2 | 77 |
| Cyfathrebu, Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Chofnod Swyddogol | 56.9 | 112* |
| Systemau Gwybodaeth | 17.6 | 45 |
| Gwasanaethau Cyfreithiol | 9.8 | 15 |
| Gwasanaeth Ymchwil | 37.1 | 44 |
| Archwilio, Llywodraeth a Chaffael | 10.0 | 15 |
| Cyfanswm | 344.9 | 491 |

*Mae ffigurau'r Cynulliad Cenedlaethol yn cynnwys staff cyfieithu

Mae pob sefydliad yn unigryw ac mae'r tair deddfwrfa wedi'u strwythuro'n wahanol. Dylem nodi hefyd fod gan Aelodau'r Cynulliad yng Nghymru hawl i gael tri Aelod Cyfwerth ag Amser Llawn fel Staff Cymorth. Cynyddodd nifer y staff cymorth a ganiateir i Aelodau Senedd yr Alban (MSPs) o ddau i dri ar ôl etholiad 2016. Yng Ngogledd Iwerddon, mae gan Aelodau'r Cynulliad Deddfwriaethol (MLA) hawl i gael dau aelod o staff.

Mae'r prif ffigurau yn dangos bod gan Gynulliad Gogledd Iwerddon llawer llai o staff na Chynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd yr Alban.

Mae gan y tair deddfwrfa nifer wahanol o Aelodau – mae yna 60 o Aelodau Cynulliad yng Nghymru, 129 o Aelodau o Seneddol yr Alban ac roedd gan Gynulliad Gogledd Iwerddon 108 o Aelodau hyd at etholiad mis Mawrth 2017, a disgynnodd hyn i 90 wedi hynny.

Adolygiad Capasiti

Mae lefel y gwaith dwyieithog ac ymrwymiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddwyieithrwydd yn ei wneud yn wahanol i'r ddwy ddeddfwrfa ddatganoledig arall. Mae hyn yn cael effaith fawr ar ein gofynion o ran adnoddau ac mae i'w weld yn fwyaf amlwg yn y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi. Fodd bynnag, mae hefyd yn cael effaith ymarferol iawn ar amryw o wasanaethau eraill.

Er enghraifft, mae ymrwymiad y Cynulliad i ddarparu lefelau cynyddol o gymorth briffio i bwyllgorau yn golygu terfynau amser llawer byrrach ar gyfer gwaith ysgrifenedig na'r hyn a welir mewn seneddau uniaith ac, yn ei dro, mae hynny'n cynyddu'r galw ar wasanaethau fel Ymchwil. Cynhelir y broses ddeddfwriaethol gyfan mewn dwy iaith yn hytrach nag un, gan ddyblu'r gwaith sy'n gysylltiedig â gwelliannau a memoranda esboniadol, drafftio a phrawfddarllen. Mae Cynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad yn darparu ar gyfer triniaeth gyfartal o'r ddwy iaith sy'n golygu bod angen defnyddio adnoddau cyfieithu ar gyfer cyfarfodydd mewnol y Comisiwn, addysgu Cymraeg a hyfforddiant i Aelodau, eu staff a staff Comisiwn y Cynulliad.

Mae gwahaniaethau eraill rhwng Gogledd Iwerddon a Chymru a'r Alban yn cynnwys llawer llai o adnoddau ar gyfer TGCh, 17.6 o swyddi yng Ngogledd Iwerddon o gymharu â 45 o swyddi yng Nghymru a 63 o swyddi yn yr Alban. Penderfynodd Comisiwn y Cynulliad ddod â holl swyddogaethau TGCh yn fewnol dair blynedd yn ôl. Mae hyn wedi arwain at arbedion rheolaidd (£1m y flwyddyn) a thîm mewnol sy'n darparu cefnogaeth ymroddedig i Aelodau’r Cynulliad, datblygu rhaglenni pwrpasol ac atebion digidol ymysg gwasanaethau eraill.

Mae gan Ogledd Iwerddon dîm Cymorth Busnes i Aelodau a thîm Allgymorth Addysg llai ac nid oes ganddo wasanaeth tebyg i Wasanaeth Cyfieithu’r Cynulliad Cenedlaethol. Mae Rheolau Sefydlog Gogledd Iwerddon yn darparu i Aelodau siarad yn eu dewis iaith. Fodd bynnag, mae’r Llefarydd yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau hefyd ddarparu cyfieithiad Saesneg. Darperir gwasanaeth cyfieithu gan asiantaeth a’r gost yw tua £18k y flwyddyn heb swyddi yn y sefydliad.

Mae gan Senedd yr Alban ffigur sefydliad sydd 13 yn uwch na ffigur y Cynulliad Cenedlaethol. Eto, mae wedi'i strwythuro mewn ffordd wahanol ond, mewn nifer o feysydd, mae lefelau staff yn debyg.

Adolygiad Capasiti

Nid oes gan Senedd yr Alban wasanaeth cyfatebol uniongyrchol i Wasanaeth Cymorth Busnes i Aelodau, y Bwrdd Taliadau, Datblygiad Proffesiynol Parhaus na'r Gwasanaeth Cyfieithu (gwahaniaeth mewn sefydliad o tua 48 o swyddi sy'n cwmpasu gwasanaethau na ddarperir yn yr Alban).

## Meincnodi gwasanaethau dwyieithog

Fel y nodwyd yn flaenorol, un o'r nodweddion mwyaf nodedig sy'n gwneud y Cynulliad yn wahanol yw ei ddwyieithrwydd. Mae ganddo ddwy iaith swyddogol, sef Cymraeg a Saesneg. O dan Ddeddf Ieithoedd Swyddogol 2012, mae'n ofynnol i'r Cynulliad gyhoeddi cynllun ar gyfer pob tymor y Cynulliad. Mae'n nodi ein huchelgais, y safonau gwasanaeth a'r themâu gwella yr ydym yn cael ein dal i gyfrif amdanynt bob blwyddyn i sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau i sicrhau bod y cyhoedd ac Aelodau'r Cynulliad yn gallu rhyngweithio â'r Cynulliad yn eu dewis iaith swyddogol.

Mae Strategaeth Sgiliau Dwyieithog Comisiwn y Cynulliad, a gyhoeddwyd o dan y Cynllun Ieithoedd Swyddogol cyntaf, yn ei gwneud yn ofynnol bod pob gwasanaeth yn cyhoeddi ei gynllun iaith ei hun. Mae'r cynlluniau yn galluogi Penaethiaid Gwasanaeth i nodi'r capasiti dwyieithog sydd ei angen ar bob tîm o ran swyddogaethau o ddydd i ddydd eu gwasanaeth, ac yn amlinellu sut y mae pob tîm yn gwneud y defnydd gorau o'r sgiliau iaith yn y tîm a thu hwnt.

Rydym wedi ystyried meincnodi ein gwasanaethau dwyieithog yn erbyn y rhai yn Senedd yr Alban o ran y gefnogaeth a gynigir ar gyfer Gaeleg, Cynulliad deddfwriaethol Ontario, a Thŷ'r Cyffredin Canada. Gweler Atodiad B.

Caiff gallu dwyieithog arbenigol y Cynulliad ei reoli drwy'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi (TRS). Mae'r tîm yn cynnwys 47 o swyddi sefydliad sy'n cwmpasu cymysgedd o staff arbenigol ac aml-sgiliau sy'n gallu gweithio ar draws un neu fwy o'r tair sgil yn y gwasanaeth: trawsgrifio'r cofnod swyddogol; cyfieithu testun a chyfieithu ar y pryd.

Mae'r gwasanaeth cofnodi yn gyfrifol am y cofnod (ysgrifenedig) swyddogol o'r holl gyfarfodydd Pwyllgor a'r Cyfarfod Llawn. Cyhoeddir cofnod y Cyfarfod Llawn yn gwbl ddwyieithog a chaiff y gwaith cyfieithu ei gontractio yn allanol am gost o tua £180K y flwyddyn. Caiff trawsgrifiadau Pwyllgor eu cyhoeddi yn yr iaith a siaredir gyda chyfraniadau Cymraeg yn cael eu cyfieithu i'r Saesneg.

Adolygiad Capasiti

Mae'r holl ddogfennau gweithdrefnol a gyhoeddir yn cael eu gwneud yn Gymraeg a Saesneg ar yr un pryd. Gellir darparu dogfennau mewnol a phreifat yn ddwyieithog. Mae cyfieithu ar y pryd ar gael ar gyfer holl Fusnes y Cynulliad ac mewn digwyddiadau a chyfarfodydd mewnol ar gais. Mae gan y Cynulliad wefan gwbl ddwyieithog ac mae systemau meddalwedd yn defnyddio rhyngwynebau dwyieithog lle bo hynny'n ymarferol. Caiff y gwaith cyfieithu ar gyfer y rhain eu gwneud fel arfer gan y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi.

Mae Senedd yr Alban yn cefnogi'r defnydd o Gaeleg mewn trafodion seneddol. Mae cyfieithu ar y pryd ar gael ar yr amod y rhoddir rhybudd ymlaen llaw. Mae'r Cofnod Swyddogol yn yr iaith a siaredir gyda thrawsgrifiad o’r cyfieithu ar y pryd Saesneg ar gyfer unrhyw Gaeleg a siaredir (dyma hefyd y sefyllfa yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon o ran y Wyddeleg). Caiff gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd eu darparu drwy ddau gontract allanol sy'n cyfateb i tua £105K y flwyddyn heb unrhyw swyddi sefydliad.

Mae gan Gynulliad Deddfwriaethol Ontario 107 o Aelodau ac maent yn defnyddio Saesneg a Ffrangeg. Caiff y Cofnod Swyddogol ei gyhoeddi yn yr iaith a siaredir yn unig ac ni chaiff ei chyfieithu. Mae ganddo 21 aelod o staff amser llawn a 6 aelod o staff ar alwad i drawsgrifio'r Cofnod Swyddogol. Darperir cyfieithu ar y pryd ar gyfer holl gyfarfodydd y Tŷ a phwyllgorau sy'n cael eu dangos ar y teledu gan 6 aelod o staff amser llawn yn ogystal â chyfieithwyr ar y pryd llawrydd yn ôl yr angen. Mae dogfennau'r Tŷ (e.e. Pleidleisiau a Thrafodion, Gorchmynion a Hysbysiadau) ar gael yn Saesneg a Ffrangeg, gyda'r gwaith cyfieithu yn cael ei wneud gan wasanaethau cyfieithu arbenigol. Nid yw maint y gwasanaeth cyfieithu yn hysbys.

Mae gan Dŷ'r Cyffredin Canada 334 o Aelodau sy'n gwbl ddwyieithog yn Saesneg a Ffrangeg. Caiff cofnod o’r Pwyllgorau a'r Cyfarfod Llawn a'r holl ddogfennau gweithdrefnol eu cyhoeddi yn y ddwy iaith. Mae tua 160 o weithwyr (75% ohonynt yn rhan-amser) yn gwneud gwaith cofnodi a chyfieithu ar y pryd. caiff yr holl waith cyfieithu ei wneud gan Swyddfa Gyfieithu ar wahân nad yw'n rhan o sefydliad Tŷ'r Cyffredin. Mae'r Swyddfa Gyfieithu yn cynnwys tua 117 o gyfieithwyr a 10 gweinyddwr.

## Cyfleoedd i weithio'n wahanol

Cafodd cyfleoedd i wella'r ffordd rydym yn gweithio eu casglu yn ystod yr adolygiad ac maent yn perthyn i ddau gategori: y rhai sydd ag effaith ar draws y sefydliad ac a drafodir isod; a'r rhai sy'n cael effaith benodol ar wasanaeth neu weithgaredd. Bydd y categori olaf yn cael ei asesu a'i ddatblygu ar lefel gwasanaeth. Y cyfleoedd newid ar draws y sefydliad yw:

- Cytuno ar flaenoriaethau;
- Cynllunio a darparu yn well;
- Mwy o ystwythder o ran capasiti a gallu;
- Datblygu dealltwriaeth gyffredin.

**Cam gweithredu 1**

Byddwn yn sefydlu grŵp llywio i reoli'r gwaith o gwblhau camau gweithredu'r Adolygiad Capasiti. Bydd y grŵp yn:

- goruchwylio'r gwaith o flaenoriaethu, darparu adnoddau, darparu'r rhaglen hon a'i manteision;
- sicrhau bod rhaglen waith yr Adolygiad Capasiti a rhaglenni a phrosiectau newid eraill Comisiwn y Cynulliad yn cyd-fynd â'i gilydd;
- adrodd yn ôl i'r Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr y Cynulliad ac yn rhannu gwybodaeth drwy Fwrdd Rheoli'r Comisiwn;
- Mynd ati i ymgysylltu â staff a chyfathrebu'n rheolaidd ar y cynnydd.

### Cytuno ar flaenoriaethau

Caiff blaenoriaethau newydd eu pennu i'r Comisiwn yn sgil y pwysau cynyddol sydd ar y Cynulliad o ran newid cyfreithiol a rheoleiddiol, newid cyfansoddiadol a disgwyliadau uwch, yn enwedig o ran ymgysylltu â'n rhanddeiliaid sef Aelodau'r Cynulliad, pobl Cymru a sefydliadau partner. Mae'r Cynulliad yn gweithredu mewn amgylchedd sy'n newid yn gyflym a all arwain at flaenoriaethau niferus, cymhleth sy'n cystadlu â'i gilydd.

O ystyried maint cyfyngedig adnoddau Comisiwn y Cynulliad, mae'r holl flaenoriaethau yn cystadlu am yr un adnoddau.

Adolygiad Capasiti

Er mwyn parhau i gyflwyno mentrau newydd a newidiadau, bydd angen i'r Comisiwn allu rheoli'r blaenoriaethau cystadleuol hyn yn well ac, ar yr un pryd, sicrhau bod ei adnoddau yn cael eu defnyddio yn y ffyrdd fwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae cyfres o feini prawf blaenoriaeth i'w defnyddio gan y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau wrthi'n cael eu datblygu a bwriedir treialu hyn yn y misoedd nesaf i helpu'r Bwrdd i flaenoriaethu'r prosiectau a'r buddsoddiadau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf ac ar ôl hynny.

Yn y dyfodol, bydd blaenoriaethu effeithiol parhaus yn dibynnu ar y canlynol:

- Cyflenwi gwybodaeth gywir ac amserol ar gostau, manteision ac effaith buddsoddiadau cystadleuol a mentrau newid i helpu i wneud penderfyniadau;
- Effaith, manteision a chostau cymharol mentrau newid i'w hasesu yn erbyn cyfres o feini prawf y cytunwyd arnynt ar gyfer eu blaenoriaethu;
- Dealltwriaeth a chytundeb ar y cyd o nodau strategol y Comisiwn a blaenoriaethau lefel uchel ar draws y grwpiau dylanwad pwysig gan gynnwys y Comisiwn, y Pwyllgor Busnes, Fforwm Cadeiryddion Pwyllgorau a grwpiau pleidiau. Bydd angen dulliau i gryfhau a chanolbwyntio ar y sgwrs hon;
- Cyfathrebu blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yn effeithiol, gan gynnwys y rhesymau y tu ôl i benderfyniadau, i randdeiliaid mewnol ac allanol.

**Cam gweithredu 2**

Byddwn yn cefnogi'r Comisiwn wrth flaenoriaethu prosiectau a mentrau newydd drwy:

- ddefnyddio dulliau a phrosesau meini prawf blaenoriaethu sefydledig y cytunwyd arnynt;
- darparu gwybodaeth gywir ac amserol ar fanteision a goblygiadau adnoddau yr opsiynau ar gyfer newid;
- sefydlu dulliau cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol rhwng y rhanddeiliaid amrywiol.

## Cynllunio a darparu yn well

Mae darparu mentrau blaenoriaethu yn effeithlon ac effeithiol yn gofyn am waith cynllunio cyson, fel bod:

- Gwell cydlyniad o ran cynllunio cyllideb, gwasanaeth a chapasiti;
- Llwybr clir yn bodoli rhwng y nodau strategol, y gwaith cynllunio gweithredol a’r amcanion personol; a
- Manteision yn cael eu gwireddu drwy weithgareddau newid a sicrwydd cymesur ac effeithiol sy'n ategu gwaith llywodraethu da.

Mae peth o'r gwaith sydd wedi'i gynllunio bellach yn cynnwys:

- Adolygiad o adroddiadau corfforaethol blynyddol gyda'r bwriad o leihau dyblygu posibl yn y system;
- Adnewyddu cyfres y Comisiwn o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs);
- Adolygiad archwilio mewnol o Adroddiadau Datblygu Rheoli Perfformiad (PMDRs) i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'r diben;
- Sgwrs barhaus ac adolygiad o'r trefniadau llywodraethu a sicrwydd prosiectau a rhaglenni;
- Defnyddio Gweithgor ar draws y sefydliad i helpu i sicrhau bod y Comisiwn yn barod ac yn cydymffurfio â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

Yn ogystal â gwelliant parhaus, mae'r Comisiwn yn cyflawni newid drwy brosiectau a rheolir yn ffurfiol a gaiff eu monitro gan y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau (IRB). Caiff buddsoddiad ei gymeradwyo neu ei wrthod yn seiliedig ar asesiad o fanteision a chostau cynigion prosiect.

Mae dulliau newydd  o ran rheoli newid a rheoli prosiectau yn hyblyg wedi'u mabwysiadu a’u nod yw cynyddu effeithiolrwydd prosiectau newydd. Mae'r Comisiwn yn dysgu o'r dulliau newydd hyn ac yn eu meincnodi yn erbyn sefydliadau tebyg gan gynnwys Gwasanaeth Digidol Llywodraeth y DU (GDS), Gwasanaeth Digidol Senedd y DU (PDS) a chydweithwyr yn Senedd yr Alban.

Adolygiad Capasiti

Bydd y rhan fwyaf o flaenoriaethau newydd Comisiwn y Cynulliad yn arwain at brosiectau neu fentrau ffurfiol. Er mwyn cyflawni'r rhain yn effeithiol ac effeithlon, bydd angen i'r Comisiwn barhau i:

- sicrhau dealltwriaeth glir o bwrpas a manteision dymunol mentrau newid;
- rheoli'r effaith ar fusnes o ddydd i ddydd;
- monitro cynnydd yn effeithiol;
- dyrannu arbenigedd rheoli newid yn effeithiol;
- sicrhau gwell eglurder o ran cyfrifoldebau.

**Cam gweithredu 3**

Byddwn yn gwella'r cysylltiadau rhwng blaenoriaethau, cynllunio gweithredol ac amcanion personol drwy:

- cynllunio senarios parhaus i asesu'r galw ar gyfer blynyddoedd i ddod a datblygu opsiynau ar gyfer sut y gellir mynd i'r afael â'r galwadau hynny;
- gweithredu cylchoedd datblygedig newydd ar gyfer cynllunio cyllideb, gwasanaeth a chapasiti a fydd yn sicrhau bod gweithgareddau yn gyson ac yn lleihau'r effaith ar ein hadnoddau ar gyfer tasgau cynllunio a llywodraethu;
- sicrhau bod ein cylch adrodd blynyddol yn addas at y diben ond nid yw'n rhoi baich sylweddol ar adnoddau;
- sicrhau llwybr clir rhwng blaenoriaethau Comisiwn y Cynulliad ac amcanion personol;
- gwella'r gwaith o oruchwylio a rheoli newid ar draws Gomisiwn y Cynulliad gan ddod â dysgu ac arfer da at ei gilydd.

## Capasiti a gallu hyblyg

Mae trydydd thema y cyfleoedd ar lefel strategol i weithio'n wahanol yn edrych ar ffyrdd o ddod â mwy o hyblygrwydd i gapasiti a gallu'r Comisiwn drwy:

Adolygiad Capasiti

- Wella hyblygrwydd a sgiliau ein gweithlu i ymateb i ofynion newidiol;
- Parhau i adolygu a herio strwythurau a systemau presennol gyda'r bwriad o ddatblygu opsiynau ar gyfer ffyrdd gwell o weithio;
- Cyflawni'r manteision o optimeiddio'r defnydd o dechnolegau presennol a newydd.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu'r Strategaeth Pobl ddiweddaraf i'r Cynulliad. Bydd hyn yn adlewyrchu'r angen i greu gweithlu mwy hyblyg. Byddwn yn sicrhau, drwy'r strategaeth hon, ein bod yn datblygu ein sgiliau a'n gallu i ddiwallu anghenion yn y dyfodol yn ogystal ag anghenion heddiw.

Bydd angen i ni ystyried a yw'r patrymau gwaith sydd wedi esblygu dros amser yn parhau i fod yn effeithiol wrth ateb y galw sydd ar staff y Comisiwn, neu a fyddai cyflwyno newidiadau yn arwain at fanteision i'r sefydliad ac i unigolion.

Rhaid i Gomisiwn y Cynulliad barhau i adolygu a herio strwythurau gwasanaeth, systemau, trefniadau rheoli a llywodraethu mewnol presennol, i ddatblygu ffyrdd gwell o weithio sydd mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

Yn ystod yr Adolygiad Capasiti, siaradwyd ag Aelodau, eu staff cymorth a staff y Comisiwn, i gasglu syniadau ar gyfer newid. Yn ogystal â'r pedair prif thema a drafodir yma, awgrymwyd nifer o syniadau newid a oedd yn ymwneud yn benodol â phrosesau hefyd. Roedd tri awgrym yn amlwg gan fod llawer iawn wedi nodi sylwadau am y rhain, sef:

- Galluogi Aelodau i wneud penderfyniadau mwy hysbys ynghylch trefnu eu gwaith pwyllgor, drwy ddarparu gwybodaeth fwy rheolaidd a manwl am oblygiadau adnoddau y penderfyniadau hyn;
- Adolygu trefniadau cymorth o ddechrau'r broses i'r diwedd ar gyfer pwyllgorau, i sicrhau bod holl adnoddau'r Comisiwn sy'n cefnogi gwaith Pwyllgorau yn cael eu defnyddio mor effeithiol ac effeithlon â phosibl;
- Sicrhau bod y sgiliau, y capasiti, y prosesau a'r dechnoleg ar gyfer cyfathrebu'n effeithiol yn fewnol ac yn allanol ar waith.

Ar draws pob gwasanaeth, nodwyd bod angen sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar y dechnoleg gwybodaeth sydd ar gael i'r Cynulliad. Roedd hyn yn

arbennig o wir ar gyfer y gallu i gydweithio a rheoli dogfennau sydd ar gael drwy Office 365 a SharePoint.

**Cam Gweithredu 4**

Mae newidiadau eithriadol ac eang i amgylchiadau, fel cynyddu nifer yr Aelodau Cynulliad, yn gofyn am asesiad pellach o gapasiti gofynnol y Comisiwn. Fodd bynnag, fel egwyddor gyffredinol, mae'r Comisiwn yn ymrwymedig i aros o fewn ei ffigur sefydliad presennol o 491 am hyd y Pumed Cynulliad.

Ar hyn o bryd, gyda'r ymrwymiad i weithio o fewn y ffigur sefydliad ac yn sgil blaenoriaethau newydd y mae'r Comisiwn yn eu hwynebu, bydd y Grŵp Llywio yn cynnal dadansoddiad manwl pellach o'n strwythurau sefydliadol a'n harferion gwaith ac yn gwneud argymhellion i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol yn sgil gofynion yn y dyfodol.

Byddwn yn argymell bod Comisiynau yn y dyfodol yn cynnal ymarfer Adolygiad Capasiti tebyg ar ddechrau pob Cynulliad i'w galluogi i gynllunio'n effeithiol a sicrhau y gellir cyflawni eu strategaethau.

**Cam Gweithredu 5**

Byddwn yn parhau i adolygu a herio systemau presennol a datblygu opsiynau ar gyfer ffyrdd gwell o weithio. Bydd y rhaglen barhaus hon o welliant parhaus yn cael ei rheoli drwy'r Grŵp Llywio. Mae'r Adolygiad Capasiti wedi nodi nifer o feysydd ar gyfer ymchwiliadau cychwynnol. Byddwn yn adolygu:

- Trefniadau rheoli a llywodraethu mewnol;
- Y ffyrdd yr ydym yn galluogi Aelodau i wneud penderfyniadau mwy gwybodus ynghylch trefnu eu gwaith pwyllgor a manylion ac amlder gwybodaeth a ddarparwn iddynt sy'n amlinellu goblygiadau adnoddau y penderfyniadau hynny;
- Adolygu trefniadau cymorth o ddechrau'r broses i'r diwedd ar gyfer pwyllgorau;
- Ein dulliau cyfathrebu mewnol ac allanol a sut rydym yn darparu adnoddau ar gyfer hyn.

## Datblygu dealltwriaeth gyffredin

Y thema newid strategol olaf sy'n dod i'r amlwg o'r adolygiad yw datblygu dealltwriaeth gyffredin o ddiben a swyddogaethau Gwasanaethau'r Comisiwn, er mwyn sicrhau:

- dealltwriaeth glir o gyfrifoldebau ar draws timau yn fewnol a chydag Aelodau, eu swyddfeydd a rhanddeiliaid eraill;
- disgwyliadau o'r pwyntiau dylanwad pwysig i gael eu rheoli o fewn cyd-destun blaenoriaethau'r Comisiwn;
- Datblygu ethos un sefydliad gan sicrhau ymdeimlad cyffredin o berchnogaeth a chyfrifoldeb.

Gall diffyg dealltwriaeth glir o rolau a chyfrifoldebau newidiol gwasanaethau'r Comisiwn arwain at aneffeithlonrwydd yn fewnol a rhwng Aelodau, eu swyddfeydd a'r timau mewnol hyn.

Nododd staff cymorth Aelodau nad ydynt yn gwbl ymwybodol o rolau rhai o'r timau yn y Comisiwn. Awgrymwyd cael pwyntiau cyswllt 'siop un stop' a fyddai'n arbed amser i Aelodau Cynulliad a'u staff yn lle gorfod cysylltu â sawl adran am faterion tebyg.

Mae gwasanaethau sydd wedi'u cynllunio o amgylch defnyddwyr a'u hanghenion yn fwy cost effeithiol gan helpu mwy o bobl i gael y canlyniad gorau i'w hunain ac i'r Cynulliad. Dywedodd staff cymorth Aelodau y siaradwyd â nhw eu bod wir yn gwerthfawrogi cael eu cynnwys yng nghyfnod cynllunio gwasanaethau a gallu trafod beth sydd ei angen arnynt gyda staff y Comisiwn sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau. Nodwyd ym mhob achos bod ymgysylltu'n gynnar wedi arwain at ganlyniadau gwell iddyn nhw a'r Aelodau.

Bydd gwella eglurder cyfrifoldebau, llwybrau clir yn ein gwaith cynllunio a blaenoriaethau clir yn hybu diwylliant 'un sefydliad' y Cynulliad. Bydd camau pellach i wella dulliau cyfathrebu â staff, rhannu gwerthoedd sefydliadol a grymuso'r bobl gywir i wneud penderfyniadau o fewn cyd-destun ein blaenoriaethau yn gwella'r diwylliant hwn.

**Can Gweithredu 6**

Byddwn yn cymryd camau i wella dulliau cyfathrebu â staff a rhanddeiliaid eraill. Cyfathrebu ac atgyfnerthu cyfrifoldebau timau a grymuso'r bobl gywir i wneud penderfyniadau o fewn cyd-destun cyfres glir o flaenoriaethau.

Bydd cwblhau'r camau hyn yn helpu i gyfrannu at well undod pwrpas a chyfeiriad ar draws y sefydliad gan fod yn sylfaen ar gyfer yr heriau sydd o'n blaenau.


## Camau Nesaf

Yn ystod cam nesaf yr Adolygiad Capasiti, byddwn yn datblygu ein dulliau i gyflawni'r heriau nesaf, y mae nifer ohonynt yn aneglur ar hyn o bryd, fel effaith Brexit a diwygio etholiadol posibl.

Bydd y Grŵp Llywio yn cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Adnoddau a bydd yr aelodaeth yn dod o bob rhan o Gomisiwn y Cynulliad. Erbyn mis Mai 2018, bydd gan y Grŵp Llywio gynllun ar waith i ddatblygu prif elfennau'r gwaith. Bydd y Grŵp yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd i'r Comisiwn.

Adolygiad Capasiti

Atodiad A. Cyfwerth ag Amser Llawn Comisiwn y Cynulliad 2007 i 2017




| | 2007-08 | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | Sept 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| FTE at year end | 312 | 346 | 352 | 327 | 346 | 358 | 375 | 411 | 426 | 441 | 454 |



| | |
|---|---|
| | FTE ar Ddiwedd Blwyddyn yn ôl Gwasanaeth (wedi talgrynnu) |

Adolygiad Capasiti

| Gwasanaeth | 2007-08 | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | Sept 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CAMS | 21 | 24 | 25 | 33 | 27 | 17 | 33 | 36 | 39 | 32 | 32 |
| Cyfreithiol | 7 | 8 | 9 | 9 | 10 | 9 | 12 | 12 | 12 | 13 | 14 |
| Adnoddau Dynol | 19 | 24 | 24 | 14 | 12 | 22 | 32 | 28 | 26 | 31 | 29 |
| EFM | 27 | 31 | 32 | 29 | 25 | 28 | 25 | 26 | 29 | 28 | 30 |
| Cyllid | 20 | 19 | 16 | 15 | 15 | 16 | 12 | 16 | 16 | 12 | 13 |
| TGCh | 13 | 17 | 17 | 14 | 18 | 17 | 20 | 37 | 41 | 43 | 43 |
| Ymchwil | 33 | 37 | 35 | 33 | 35 | 35 | 33 | 36 | 38 | 40 | 40 |
| ECS | 20 | 25 | 26 | 23 | 22 | 23 | 17 | 20 | 22 | 24 | 23 |
| FRS | 33 | 34 | 34 | 33 | 37 | 36 | 38 | 37 | 40 | 42 | 44 |
| PLCS | 26 | 28 | 28 | 25 | 25 | 25 | 26 | 28 | 27 | 33 | 32 |
| Cyfathrebu | 38 | 43 | 27 | 31 | 25 | 25 | 25 | 23 | 23 | 23 | 27 |
| Diogelwch | 56 | 56 | 59 | 49 | 59 | 60 | 58 | 61 | 61 | 66 | 65 |
| Llywodraethu ac Archwilio | | | | | 14* | 17 | 13 | 14 | 13 | 14 | 14 |
| Uned Gydgysylltu | | | | | | | 4 | 5 | 6 | 6 | 6 |
| FoH / PAVVS | | | 21” | 19 | 23 | 26 | 23 | 24 | 24 | 23 | 26 |
| STS | | | | | | | 4 | 8 | 9 | 10 | 14 |
| Cyfanswm | 312 | 346 | 352 | 327 | 346 | 358 | 375 | 411 | 426 | 441 | 454 |

*rhan o’r uned gorfforaethol yn CAMS o’r blaen #wedi’i grwpio â Chyfathrebu o’r blaen

Adolygiad Capasiti

Atodiad B. Meincnodi Seneddau Dwyieithog:

Cymharu Gwasanaethau Cofnodi, Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd, Rhagfyr 2017

| Sefydliad | Aelodau | Gwasanaethau dwyieithog | Adnoddau |
|---|---|---|---|
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 60 | – Cymraeg a Saesneg dwyieithog (y ddwy yn Ieithoedd Swyddogol o dan Ddeddf 2012)<br>– Dogfennau gweithdrefnol cyhoeddedig ar gael yn y ddwy iaith ar yr un pryd<br>– Holl Fusnes y Cynulliad yn cael ei gyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg a chyfieithu ar y pryd ar gael mewn digwyddiadau ar gais<br>– Holl ddogfennau mewnol a phreifat ar gael yn y dewis iaith<br>– Cofnod y Cyfarfod Llawn yn gwbl ddwyieithog<br>– Trawsgrifiadau Pwyllgor yn yr iaith y siaredir gyda chyfraniadau Cymraeg yn cael eu cyfieithu<br>– Gwefan cwbl ddwyieithog<br>– Systemau meddalwedd â rhyngwynebau dwyieithog lle y bo'n ymarferol. | – Cymysgedd o staff arbenigol ac aml-sgil yn gallu gweithio ar draws un neu fwy arbenigedd. 47 o swyddi sefydliad wedi'u rhannu fel a ganlyn:<br>○ 9 Rheolwr, Cynllun Ieithoedd Swyddogol a swyddi datblygu sgiliau Cymraeg<br>○ 16 Golygydd<br>○ 7 Golygydd / Cyfieithydd<br>○ 1 Uwch-gyfieithydd ar y pryd<br>○ 6 Golygydd/ Cyfieithydd / Cyfieithydd ar y pryd<br>○ 8 Cyfieithydd<br>– Yn ogystal, mae cyfieithu cofnod llawn y Cyfarfod Llawn yn cael ei rhoi allan ar gontract am gost o tua £180k y flwyddyn |

Tudalen y pecyn 48

| Sefydliad | Aelodau | Gwasanaethau dwyieithog | Adnoddau |
|---|---|---|---|
| Senedd yr Alban | 129 | – Iaith y gwaith yw Saesneg, mae Corff Corfforaethol Seneddol yr Alban (SPCB) o dan ddyletswydd gyfreithiol i wneud a datblygu darpariaeth Gaeleg.<br>– Gellir defnyddio Gaeleg mewn trafodion seneddol ar ôl rhoi rhybudd a darperir cyfieithu ar y pryd. Mae'r Cofnod Swyddogol yn yr iaith y siaredir gyda thrawsgrifiad o gyfieithu ar y pryd Saesneg ar gyfer unrhyw Gaeleg a siaredir.<br>– Gwefan dwyieithog (ar y cyfan) | – Cofnod Swyddogol: Gofynnwyd am nifer y staff a swm y gyllideb gan fod data meincnodi wedi'i ddarparu ar lefel cyfarwyddiaeth<br>– 1 x Swyddog Datblygu Gaeleg cyfwerth ag amser llawn<br>– Darperir gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd drwy ddau gontract allanol sy'n cyfateb i tua £105k y flwyddyn |
| Cynulliad Deddfwriaethol Ontario | 107 | – Saesneg a Ffrangeg<br>– Cofnod Swyddogol yn yr iaith a siaredir yn unig, ni chaiff ei gyfieithu<br>– Darperir cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd y Tŷ a pwyllgorau sy'n cael eu darlledu<br>– Dogfennau'r Tŷ (e.e. Pleidleisiau a Thrafodion, Gorchmynion a Hysbysiadau) ar gael yn Saesneg a Ffrangeg a ddarperir gan wasanaethau cyfieithu arbenigol<br>– Gwefan cwbl ddwyieithog | – Staff cofnodi: 21 amser llawn a 6 ar alwad, cymysgedd o Saesneg yn unig a siaradwyr Saesneg / Ffrangeg<br>– Staff cyfieithu ar y pryd: 6 amser llawn yn ogystal â chyfieithwyr ar y pryd llawrydd fel y bo angen<br>– Nid yw nifer y staff cyfieithu a'r costau ar gael |

Tudalen y pecyn 49

| Sefydliad | Aelodau | Gwasanaethau dwyieithog | Adnoddau |
|---|---|---|---|
| Tŷ'r Cyffredin Canada | 334 | – Saesneg a Ffrangeg Dwyieithog<br>– Caiff cofnod Pwyllgorau a Chyfarfod Llawn a'r holl ddogfennau gweithdrefnol eu cyhoeddi yn y ddwy iaith<br>– Gwefan cwbl ddwyieithog | – Tua 160 o weithwyr (75% yn rhan amser) yn cynnwys cofnodi a chyfieithu ar y pryd.<br>– Caiff yr holl waith cyfieithu ei wneud gan Swyddfa Gyfieithu ar wahân nad yw'n rhan o'r Tŷ Cyffredin. Staff y Swyddfa Gyfieithu:<br>○ 43 (41 cyfieithydd + 2 gweinyddol) ar gyfer Hansard (Cofnod y Cyfarfod Llawn)<br>○ 33 (31 cyfieithydd + 2 gweinyddol) ar gyfer trafodion Pwyllgorau<br>○ 41 (35 cyfieithydd + 6 gweinyddol) ar gyfer Dogfennau (heblaw am unrhyw ddogfennau sy'n deillio o'r Senedd – adroddiadau pwyllgorau, llythyrau, adroddiadau ariannol, polisïau, memos mewnol, ac ati) |

Tudalen y pecyn 50

Adolygiad Capasiti

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Simon Thomas AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

**Cyfeirnod:** IG17013/HVT2757/caf
**Dyddiad cyhoeddi:** 30 Hydref 2017

Annwyl Simon

## Trefn gymhleth ffioedd archwilio cyhoeddus yng Nghymru – achos dros newid

Rydym wedi croesawu'n fawr barodrwydd y Pwyllgor Cyllid i drafod ac edrych i mewn i'r posibilrwydd o symleiddio trefn ffioedd archwilio cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n dda gennym yn awr roi gerbron y Pwyllgor gynigion yr ydym ni'n meddwl fyddai'n arwain at symleiddio'r drefn.

Byddwch yn cofio bod adroddiad y Pwyllgor ym mis Mawrth 2016 yn argymell bod Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn cael ei diwygio er mwyn gwneud y gofynion codi ffioedd archwilio, ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, yn fwy eglur, yn dilyn y dadleuon a gyflwynwyd gennym i'r Pwyllgor ynghylch y cymhlethdodau ymarferol o weithredu yn ôl y Ddeddf. Mae'r ddeddfwriaeth sy'n rheoli ffioedd archwilio yng Nghymru yn gymhleth ac yn amlwg wahanol i'r trefniadau llawer symlach sydd wedi eu sefydlu ar gyfer cyrff archwilio eraill y DU. Mae hyn yn golygu bod y prosesau sy'n sail i'r ffordd yr ydym yn gweithredu'r drefn ffioedd yn gymhleth, yn difa amser ac yn ddryslyd i lawer. Nid ydym yn credu mai hyn oedd y bwriad y tu ôl i'r ddeddfwriaeth.

Ym mis Mehefin 2017, fe wnaethom gyhoeddi papur trafod 'Symleiddio Trefn Ffioedd Gymhleth', oedd yn egluro cymhlethdodau gweithredu'r ddeddfwriaeth ynghyd â'i chanlyniadau anfwriadol yn ogystal â'r datrysiadau yr oeddem ni'n eu cynnig i'r cymhlethdodau hynny. Rhannwyd y papur trafod hwn gyda chyrff a archwiliwyd a phartïon perthnasol eraill ac roeddem yn falch iawn i dderbyn eu hymatebion. Rydym wedi newid rhai o'n hargymhellion yng ngoleuni eu hadborth hwy, fel yr eglurir yn y papur Achos dros Newid sydd ynghlwm. Edrychwn ymlaen at drafod hwn gyda'r Pwyllgor.

Nid yw'r papur Achos dros Newid yn archwilio'r cymhlethdodau eraill sy'n codi o Ddeddf 2013, megis y gofyn am adroddiadau dros dro a'r gofynion cworwm caeth iawn. Nid yw'r papur ychwaith yn mynd i'r afael â phroblemau mewn perthynas â deddfwriaeth arall yr

ydym yn ei hystyried yn bwysig, fel yr eglurwyd yn llythyr yr Archwilydd Cyffredinol, dyddiedig 5 Ebrill (amgaeir copi er hwylustod).

Edrychwn ymlaen at ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 9 Tachwedd i drafod yr uchod.

Yn gywir

**ISOBEL GARNER**
**CADEIRYDD, SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU**

**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

*Amg: papur Achos dros Newid*
*Llythyr yr Archwilydd Cyffredinol HVT2702 dyddiedig 5 Ebrill 2017*

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Heol y Gadeirlan / Cathedral Road
Caerdydd / Cardiff CF11 9LJ
Ffôn / Tel: 029 20 320500
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Dyddiad: 5 Ebrill 2017
Ein cyf: HVT/2702/fgb


Mr Simon Thomas AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

Annwyl Simon

## DIWEDDARU CYFRIFON A DEDDFWRIAETH ARCHWILIO

Yn ystod sesiwn y Pwyllgor ar 15 Mawrth 2017 ar faterion yn ymwneud ag archwilio Cyfoeth Naturiol Cymru, addewais y byddwn yn ysgrifennu atoch gyda rhagor o fanylion am yr angen ar gyfer rhywfaint o ddiweddaru cyfrifon a deddfwriaeth archwilio Cymru.

### Y brif broblem gyffredinol

Fel y soniais ar 15 Fawrth, y brif broblem gyffredinol o ran y darpariaethau archwilio ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru yw eu hanghysondeb ar draws y cyrff amrywiol. O fewn y mater cyffredinol hwnnw, mae'r problemau mwyaf difrifol fel a ganlyn.

a) <u>Y diffyg dyletswydd i fod yn fodlon o ran trefniadau ar gyfer sicrhau gwerth am arian mewn cyrff llywodraeth ganolog</u>

Mae'r diffyg gofyniad i'r Archwilydd Cyffredinol fodloni ei hun o ran y trefniadau ar gyfer sicrhau gwerth am arian mewn cyrff llywodraeth ganolog (Llywodraeth Cymru, Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a rhai cyrff eraill fel Comisiwn y Cynulliad) mewn gwrthgyferbyniad â'r gofyniad mewn perthynas â chyrff llywodraeth leol a chyrff iechyd (o dan adrannau 17(2)(d) a 61(3)(b) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn y drefn honno).

Mae'r absenoldeb dyletswydd i fod yn fodlon o ran trefniadau ar gyfer sicrhau gwerth am arian mewn llywodraeth ganolog yn golygu bod y gwaith i gynorthwyo craffu cyrff llywodraeth ganolog yn cael ei ganiatáu gan statud i fod yn llai helaeth a thrylwyr na'r hyn a wneir yn y GIG a llywodraeth leol. Yn ymarferol, mae fy nhimau archwilio llywodraeth ganolog yn gweithio ar sail ddewisol i oresgyn y gwendid hwn, drwy, ymhlith pethau eraill, ystyried a yw'r diffygion maent yn eu hwynebu yn ystod yr archwiliad cyfrifon yn faterion y dylid eu hystyried wrth

Llinell Uniongyrchol: 029 2032 **0510** E-bost: huw.vaughan.thomas@archwilio.cymru

ddylunio archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian. Maent hefyd yn codi materion y maent yn eu hwynebu mewn llythyrau rheoli. Yn yr un modd, bydd fy nhimau archwilio gwerth am arian ac astudio yn ystyried materion llywodraethu corfforaethol wrth gynllunio a gweithredu eu gwaith.

Hyd yn oed o ystyried y dulliau hyn, mae'r sefyllfa yn llai na boddhaol, oherwydd bod ystyriaeth ddewisol yn fwy agored i her nag ystyriaeth a wneir yn ystod dyletswydd statudol. Mater ymarferol arall yw bod absenoldeb ystyriaeth statudol benodol o drefniadau ar gyfer sicrhau gwerth am arian yn golygu bod angen gwneud mwy o waith nawr mewn llywodraeth ganolog yn hytrach na llywodraeth leol a'r GIG er mwyn cynnal yr archwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy sy'n ofynnol gan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae hyn oherwydd bod ystyried trefniadau ar gyfer sicrhau gwerth am arian yn ei gwneud yn ofynnol cael symiau sylweddol o adolygu trefniadau llywodraethu corfforaethol, a gellir defnyddio llawer o'r gwaith adolygu llywodraethu corfforaethol hwnnw i fodloni gofynion adrannau 17 a 61 Deddf 2004 a gofynion adran 15 o Ddeddf 2015.

b) <u>Absenoldeb darpariaeth benodol mewn statws ar gyfer barn rheoleidd-dra ymhlith llawer o gyrff llywodraeth ganolog</u>

Mae absenoldeb darpariaeth benodol ar gyfer barn rheoleidd-dra yn golygu bod un o elfennau sylfaenol rheolaeth y Cynulliad dros wariant llywodraeth ganolog ar goll o'r statud mewn perthynas â'r corff perthnasol. Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol iawn mai un o swyddogaethau allweddol y Cynulliad Cenedlaethol yw cymeradwyo, yn dilyn craffu, gynigion cyllideb i awdurdodi defnydd y llywodraeth o adnoddau. Er mwyn cwblhau'r cylch o reolaeth, mae'n angenrheidiol i'r Cynulliad Cenedlaethol dderbyn adroddiadau ynghylch a yw'r adnoddau a bleidleisiwyd ganddo wedi'u defnyddio yn unol â'i fwriadau.

Dyma'r cyrff yr effeithir arnynt drwy hepgor y darpariaethau perthnasol:

- Cyngor Gofal Cymru;
- Cyngor y Gweithlu Addysg;
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru;
- Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru;
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru;
- Cyfoeth Naturiol Cymru;
- Cymwysterau Cymru.

Mae hyn yn effeithio ar Gyngor y Celfyddydau a'r Cyngor Chwaraeon hefyd oherwydd hepgor darpariaethau perthnasol o'u Siarteri Brenhinol. Yn wir, mae Siarter y Cyngor Chwaraeon yn hepgor darpariaethau archwilio yn gyfan gwbl.

Rwyf wedi parhau arfer y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol o ddarparu barn ar reoleidd-dra mewn perthynas â'r holl gyrff a noddir er gwaethaf yr hepgoriadau oherwydd bod hyn yn amlwg yn ofynnol am y rhesymau a nodiwyd uchod. Ystyrir ei bod yn angenrheidiol hefyd i gydymffurfio â safonau proffesiynol (Nodyn Ymarfer 10 y Cyngor Adrodd Ariannol).

c) <u>Anhyblygrwydd terfynau amser</u>

Fel y mae achos Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dangos, weithiau nid yw terfynau cyfrifon ac archwilio yn ddigon hyblyg pan fydd problemau sylweddol yn codi. Ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru, nid oes darpariaeth amrywiaeth hyblyg mewn deddfwriaeth fel y ceir ar gyfer cyfrifon adnoddau'r DU o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000

d) <u>Gofynion gosod sy'n gorgyffwrdd</u>

Bu tuedd ddiweddar i ddeddfwriaeth gynnwys darpariaeth i gyrff baratoi adroddiadau blynyddol ar arfer swyddogaethau ac i'r cyrff hynny (nid yr Archwilydd Cyffredinol) osod adroddiadau o'r fath (gweler, er enghraifft, baragraffau 28 a 29 Atodlen 1 i Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015). Mae'r gofynion hyn yn eistedd ochr yn ochr â gofynion i'r Archwilydd Cyffredinol osod y cyfrifon archwiliedig gyda'i dystysgrif ac adroddiad (er enghraifft, paragraff 33 o Atodlen 1 i Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015). Ar yr un pryd, mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) a bennir gan Drysorlys EM yn gosod gofyniad ar gyrff i ddarparu adroddiad ariannol ochr yn ochr â'r cyfrifon. (Yn wir, mae'n arferol i gyrff yn y sector cyhoeddus a phreifat gyhoeddi “adroddiadau blynyddol a chyfrifon”.) Gall y gofynion lluosog hyn arwain ar ddryswch o ran pwy y mae'n ofynnol iddynt osod yr “adroddiad blynyddol”.

## Atebion posibl

Gallai absenoldeb dyletswydd i fod yn fodlon o ran trefniadau ar gyfer sicrhau gwerth am arian mewn cyrff llywodraeth ganolog gael ei gywiro drwy osod darpariaeth o'r fath mewn deddfwriaeth berthnasol. Ar gyfer Gweinidogion Cymru a Chomisiwn y Cynulliad byddai hyn yn golygu diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (neu unrhyw ailddatganiad o ddarpariaethau archwilio yn dilyn Deddf Cymru 2017). Byddai'r rhain yn ddiwygiadau bach yn hytrach na newidiadau helaeth. Ar gyfer Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, byddai angen diwygiadau bach tebyg ar gyfer amrywiaeth o ddeddfwriaeth, gan gynnwys:

- Deddf Safonau Gofal 2000
- Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006
- Deddf Llywodraeth Cymru 1998 (ar gyfer Estyn)
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992
- Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013
- Deddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992
- Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012
- Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005
- Deddf Cymwysterau Cymru 2015
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Siarteri Brenhinol Cyngor y Celfyddydau a'r Cyngor Chwaraeon

Yn yr un modd, gallai darpariaethau barn rheoleidd-dra gael eu mewnosod mewn deddfwriaeth berthnasol pan fo'r rhain ar goll. Hefyd, gallai darpariaethau ar gyfer gosod adroddiadau blynyddol gael eu cysoni er mwyn darparu i'r Archwilydd Cyffredinol osod adroddiadau o'r fath (yn ddelfrydol wedi'i gyfuno ag adroddiadau blynyddol sy'n bodloni gofynion statudol a'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol ).

O ran gwella hyblygrwydd terfynau amser, eto, gallai darpariaethau penodol i ganiatáu amrywiadau drwy Orchymyn, yn debyg i'r rhai a ddarperir gan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, gael eu gosod yn yr amrywiaeth llawn o ddeddfwriaeth berthnasol. Byddai angen i ddarpariaethau o'r fath ddarparu'n glir ar gyfer gweithdrefn garlam er mwyn galluogi gwneud amrywiadau mewn amserlen realistig (fer) werth chweil. Fodd bynnag, fel y nodais yn flaenorol yn fy llythyr dyddiedig 22 Rhagfyr 2016, gallai dull amgen a mwy effeithlon gynnwys darpariaeth i'r perwyl bod y terfyn amser dim ond yn berthnasol i'r graddau nad yw'n rhagfarnu cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio. Gallai hyn hepgor prosesau gwneud Gorchmynion yn llwyr.

Gyda'r pedwar mater a nodwyd uchod, nid diwygio darnau unigol o ddeddfwriaeth fesul tipyn fyddai'r dull mwyaf effeithlon. Dull mwy synhwyrol fyddai codeiddio'r darpariaethau, er enghraifft, yn debyg i ddarpariaethau Pennod 2 o Ran 2 o Fil Archwilio Cyhoeddus (Cymru), a oedd yn destun ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2012. Fodd bynnag, byddai angen rhai newidiadau i ddarpariaethau'r Bil drafft oherwydd, ymhlith pethau eraill, dylai gwmpasu cyrff a grëwyd yn ddiweddar, fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

## Paru data

Er, yn fanwl gywir, nad yw'n fater o archwilio ynddo'i hun, dylwn hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i godi'r mater ynghylch sut mae fy mhwerau paru data bellach yn llusgo y tu ôl i fy nghymheiriaid yn yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Ar hyn o bryd, mae ymarferion paru data yn cael eu cynnal at ddibenion atal a chanfod twyll. Gwneir yr ymarferion ar y cyd ag asiantaethau archwilio eraill y DU, ac fe'u gelwir yn Fenter Twyll Genedlaethol. Hyd yma, mae'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi atal a chanfod twyll a gwallau gwerth dros £1.1 biliwn ar draws y DU, gyda thua £26 miliwn yn cael ei atal a'i ganfod yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o'r symiau hyn yn ymwneud â thwyll a gyflawnir yn erbyn cyrff cyhoeddus.

O dan adran 64A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, ar hyn o bryd mae gennyf bŵer i gynnal paru data at ddibenion cynorthwyo'r broses o atal a chanfod twyll yng Nghymru neu mewn perthynas â Chymru Mae gan Archwilydd Cyffredinol yr Alban, Ysgrifennydd Gwladol a Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Gogledd Iwerddon bwerau tebyg o dan y ddeddfwriaeth ganlynol:

- Yr Alban—Deddf Cyllid Cyhoeddus ac Atebolrwydd (yr Alban) 2000;
- Lloegr—Deddf Archwilio ac Atebolrwydd Lleol 2014;
- Gogledd Iwerddon—Gorchymyn Archwilio ac Atebolrwydd (Gogledd Iwerddon) 2003.

Mae deddfwriaeth yr Alban, fodd bynnag, hefyd yn darparu i baru data gael ei gynnal at ddibenion cynorthwyo wrth atal a chanfod troseddau ar wahân i dwyll, ac i gynorthwyo wrth ddal ac erlyn troseddwyr. At hynny, mae Pwyllgor Craffu Ôl-Ddeddfwriaeth Senedd yr Alban wedi ymgynghori'n ddiweddar ar gryfhau ac ymestyn cwmpas deddfwriaeth yr Alban.

Mae'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chyrff Lloegr yn cynnwys darpariaeth at ddibenion ymarferion paru data i gael eu hymestyn gan reoliadau er mwyn cwmpasu cynorthwyo:

(a) atal a chanfod twyll troseddau ar wahân i dwyll;

(b) dal ac erlyn troseddwyr;

(c) atal a chanfod camgymeriadau a gwallau,

(d) adennill dyledion sy'n ddyledus i gyrff cyhoeddus.

Mae deddfwriaeth Gogledd Iwerddon yn debyg i'r hyn sy'n berthnasol i gyrff yn Lloegr ond nid yw'n cynnwys atal a chanfod camgymeriadau a gwallau. Fodd bynnag, dyma'r gryfaf yn y DU o ran ei gwneud yn ofynnol i gyrff gyfranogi mewn ymarferion paru data, oherwydd ei bod yn galluogi Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Gogledd Iwerddon ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gorff a archwilir ganddo (heblaw am gyrff dynodedig "rhoi cydweithredu Gogledd/De ar waith") neu archwilydd llywodraeth leol i ddarparu gwybodaeth ar gyfer paru yn hytrach na bod y pŵer hwnnw yn berthnasol i restr ddiffiniedig o gyrff yn unig. I Gymru, mae'r rhestr o gyfranogwyr gorfodol o'r fath yn annigonol, am ei bod yn gyfyngedig i lywodraeth leol a chyrff iechyd.

Mae fy nghymheiriaid a minnau wrthi'n barhaus yn datblygu'r Fenter Twyll Genedlaethol er mwyn darparu rhagor o gymorth i gyrff cyhoeddus. Fodd bynnag, ceir risg sylweddol os nad yw deddfwriaeth paru data Cymru yn cadw i fyny â'r hyn a geir mewn awdurdodaethau eraill y DU, yna:

(a) efallai na fydd yn bosibl cynnal ymarferion paru data cyflawn ar draws y DU yng Nghymru;

(b) ni fydd manteision ariannol posibl paru data i nodi camgymeriadau a gwallau, a chynorthwyo adennill dyled ar gael yng Nghymru, ac

(c) ni fydd y potensial i gyflawni arbedion ychwanegol drwy gynnwys cyfranogwyr gorfodol newydd yn cael ei wireddu.

Byddwn felly yn gofyn i'r Pwyllgor ystyried ceisio newid i ddeddfwriaeth Cymru er mwyn ymestyn dibenion a ganiateir paru data i'r rhai a restrir uchod mewn perthynas â chyrff yn Lloegr. Byddwn yn gofyn hefyd i'r Pwyllgor ystyried ceisio newid i'r ddeddfwriaeth er mwyn newid y darpariaethau ar gyfer cyfranogwyr gorfodol posibl fel bod yr holl gyrff a archwilir gan yr Archwilydd Cyffredinol yn cael eu cwmpasu.

## Materion eraill sy'n ymwneud ag archwilio

Rwy'n gwybod bod y Pwyllgor eisoes yn ymwybodol o'm pryderon ynghylch y cymhlethdod a'r anawsterau a achosir gan ddarpariaethau ffioedd Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (a deddfwriaeth gysylltiedig a ddiwygiwyd gan y Ddeddf honno). Fodd bynnag, ni roddaf ragor o fanylion yn nawr, oherwydd bod Bwrdd SAC a minnau yn bwriadu darparu rhagor o ddeunydd yn nodi sut nad yw'r darpariaethau yn addas at y diben ac awgrymu atebion posibl, mewn dogfen ymgynghori i ddod.

Yn olaf, efallai y dylwn grybwyll fy mod yn y broses o ddatblygu fy ymateb i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru "Diwygio Llywodraeth Leol". Prif ffocws y Papur Gwyn hwnnw yw strwythur llywodraeth leol Cymru, sydd â rhai goblygiadau ar gyfer fy swyddogaethau archwilio. Yn ogystal, ceir ychydig bach o sylw ynghylch fy swyddogaethau, gyda, ymhlith pethau eraill, ymrwymiad i ddiddymu Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru)

2009.  Byddaf yn copïo fy ymateb i ymgynghoriad Papur Gwyn Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor.  Fodd bynnag, gallaf ddweud nawr fy mod yn croesawu diddymu Rhan 1 o Fesur 2009, am ei bod yn ddiangen o ragnodol a heb yr hyblygrwydd sydd ei angen i ddarparu adrodd cymesur.  Bydd diddymu Mesur 2009 yn caniatáu defnyddio adnoddau i fynd ar drywydd trefniadau mwy cymesur Rhan 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

Hydref 2017

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Y drefn ffioedd archwilio cyhoeddus gymhleth yng Nghymru – achos dros newid

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.  Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

© Swyddfa Archwilio Cymru 2017

# Cynnwys


Rhagair 4

Crynodeb Gweithredol 5

Yr achos dros newid 8

Trefn ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru 8

Cymhariaeth â chyrff archwilio eraill y DU 9

Sail ein hymgynghoriad â rhanddeiliaid 10

Ateb 1: Diwygio'r ddeddfwriaeth er mwyn sicrhau nad yw ffioedd a godir ar gorff a archwilir yn fwy na chost lawn y gwaith a wnaed, gan ystyried un flwyddyn ag un arall 11

Ateb 2: Gwaith archwilio llywodraeth ganolog a'r GIG yn cael ei ariannu o Gronfa Gyfunol Cymru (ar ôl cymeradwyo Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru) yn hytrach na thrwy ffioedd 14

Ateb 3: Newid deddfwriaethol i alluogi Swyddfa Archwilio Cymru i benderfynu'n llwyr ar delerau talu ar gyfer gwaith cytundeb 17

Argymhellion terfynol 19

Atodiadau

Atodiad 1 – Darnau o ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r drefn ffioedd ymhlith cyrff archwilio'r DU 20

Atodiad 2 – Rhestr o ddeddfiadau y caiff ac y mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffi odanynt 26

# Rhagair

Daw cyllid Swyddfa Archwilio Cymru o ddwy brif ffynhonnell – o'r ffioedd a godir gennym am y gwaith archwilio a wnawn (tua 70% o'n cyllid) ac o Gronfa Gyfunol Cymru sy'n cyfrannu at feysydd penodol o'n gwariant (tua 30%).

Ym mis Mawrth 2016, argymhellodd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol y dylai Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (y Ddeddf) gael ei diwygio er mwyn cadarnhau'r gofynion o ran codi ffioedd archwilio ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, yn dilyn sylwadau a wnaed gennym i'r Pwyllgor am y cymhlethdodau gweithredol sy'n gysylltiedig â gweithio yn unol â'r Ddeddf.

Pennodd y Ddeddf drefniadau newydd y caiff neu y mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd am waith archwilio penodol a wneir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru odanynt. Mae'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu ffioedd archwilio yng Nghymru yn gymhleth ac mae'n wahanol iawn i'r trefniadau llawer symlach sydd ar waith ar gyfer cyrff archwilio eraill y DU. Mae'n golygu bod y prosesau sy'n sail i'r ffordd rydym yn gweithredu'r drefn ffioedd yn gymhleth, yn llafurus ac yn gymhleth i lawer.

Ni chredwn fod Llywodraeth Cymru wedi bwriadu creu'r lefel o gymhlethdod rydym wedi dod ar ei thraws yn ymarferol pan gyflwynodd y ddeddfwriaeth. Ni chredwn ychwaith mai dyma oedd bwriad y Cynulliad pan gafodd y ddeddfwriaeth ei phasio.

Ym mis Mehefin 2017, gwnaethom gyhoeddi papur trafod Symleiddio Trefn Ffioedd Gymhleth a eglurodd gymhlethdodau gweithredol a goblygiadau anfwriadol y ddeddfwriaeth a'r atebion a gynigir gennym i fynd i'r afael â'r cymhlethdodau hynny. Rhannwyd y papur trafod hwn â'n holl randdeiliaid.

Nawr, rydym yn amlinellu'r argymhellion a gynigir gennym sy'n ystyried yr hyn a ddywedodd ein rhanddeiliaid wrthym. Diolch i'n rhanddeiliaid am rannu eu barn â ni.

Rydym yn cloi drwy gynnig ein bod yn gwneud mwy o waith i archwilio mesurau dros dro a allai wella ein heffeithlonrwydd gweithredol a goresgyn rhai o'r cymhlethdodau, nes y cawn ateb tymor hwy pwrpasol y gellir ond ei gyflawni drwy newid deddfwriaethol gan y Cynulliad Cenedlaethol.  Rydym wedi croesawu parodrwydd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol i drafod ac ystyried posibiliadau i symleiddio'r drefn ffioedd yn fawr iawn. Edrychwn ymlaen at barhau i drafod â'r Pwyllgor Cyllid yn dilyn y papur hwn.

**Isobel Garner**
Cadeirydd, Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

**Huw Vaughan Thomas**
Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Crynodeb gweithredol

1 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn nodi'r trefniadau y caiff neu y mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd am waith archwilio penodol odanynt. Mae deddfwriaeth arall, megis Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, yn nodi lle mae'n rhaid pennu graddfeydd ffioedd a gyda phwy y mae'n rhaid ymgynghori wrth bennu'r graddfeydd hynny.

2 Ni allwn godi ffioedd heb Gynllun Ffioedd sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cynulliad. Mae'r ddarpariaeth hon yn Neddf 2013 yn sicrhau lefel bwysig arall o waith craffu annibynnol ar ein cynlluniau, ynghyd â gwaith craffu gan y Cynulliad ar ddogfennau allweddol eraill, gan gynnwys ein Hamcangyfrif o Incwm a Threuliau blynyddol a'r Cynllun Blynyddol.

3 Pan fyddwn yn codi ffi, rydym yn pennu cyfraddau ffi yr awr ar lefel i adennill y costau yr eir iddynt yn unig, gan fod y ddeddfwriaeth yn ein hatal rhag codi mwy na hynny. Yna rydym yn pennu ein ffioedd yn seiliedig ar amser staff amcangyfrifedig ar gyfer pob rôl archwilydd sydd ei hangen i gwblhau'r gwaith. Gwneir hyn yn flynyddol ar gyfer pob corff a archwilir. O dan y ddeddfwriaeth, ni chaiff y ffioedd a godir gennym ‘fod yn fwy na chost lawn arfer y swyddogaeth y mae'r ffi yn ymwneud â hi’. Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn, rydym wedi sefydlu ffyrdd o fesur costau llawn ac rydym yn defnyddio taflenni amser i gofnodi faint o amser a dreulir ar archwiliadau.

4 Mae'r drefn ffioedd yng Nghymru yn wahanol iawn i'r trefniadau sydd ar waith mewn rhannau eraill o'r DU, ac mae'n llawer mwy cymhleth. Mae'r papur hwn yn dadlau y dylid diwygio'r trefniadau yng Nghymru fel eu bod yn fwy cyson â'r rhai sydd ar waith mewn rhannau eraill o'r DU.

5 Mae tair darpariaeth benodol mewn deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â ffioedd mewn rhannau eraill o'r DU a allai symleiddio'r drefn ffioedd yng Nghymru:

- y gallu i godi ffioedd gyda'r nod o adennill costau ar waith ffi 'gan ystyried un flwyddyn ag un arall';
- pennu ffioedd tybiannol am gyfrifon a baratoir gan adrannau'r llywodraeth neu gyrff eraill a ariennir yn uniongyrchol o'r Gronfa Gyfunol berthnasol; a
- mwy o hyblygrwydd fel y bydd rhychwant lawn y telerau ac amodau ar gyfer gwaith cytundeb[1] yn fater i'r corff archwilio perthnasol.

1 Gwaith archwilio anstatudol a wnawn dan gomisiwn

6 Yn ein barn ni, manteision y cynigion symleiddio hyn yw:

- rhoi mwy o sicrwydd i gyrff a archwilir ynglŷn â'r ffi sydd i'w chodi a goresgyn y diffyg cymhelliant i wneud gwaith archwilio yn fwy effeithlon ar lawr gwlad;
- rhoi terfyn ar gylchredeg arian ffioedd ymhlith cyrff llywodraeth ganolog; a
- galluogi Swyddfa Archwilio Cymru i wneud defnydd gwell o waith cytundeb fel rhan o'n strategaeth ariannol, a allai helpu i leihau cost net archwiliadau cyhoeddus yng Nghymru.

7 Gwnaethom ymgynghori â'n rhanddeiliaid ar opsiynau ar gyfer newid yn y meysydd hynny.

8 Roedd ein rhanddeiliaid yn gefnogol ar y cyfan o'n cynnig i ddiwygio'r cyfyngiad ‘ni chaiff y ffi fod yn fwy na chost lawn’ a chyflwyno darpariaeth ar hyd y llinellau canlynol yn adran 24 o Ddeddf 2013 yn ei lle. Byddai hyn yn rhoi digon o hyblygrwydd i wella costeffeithiolrwydd ein trefniadau rheoli a phrosesu:

**‘ Wrth bennu graddfeydd ffioedd, symiau i'w codi a'r ffordd y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyfrifo ffioedd a gynhwysir mewn cynllun o dan yr adran hon, mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru anelu at sicrhau nad yw ffioedd a godir ar berson yn fwy na chost lawn y gwaith a wnaed, gan ystyried un flwyddyn ag un arall.’**

9 Ar sail y gefnogaeth gyffredinol gan randdeiliaid i symleiddio'r agwedd hon ar y drefn ffioedd, byddwn yn gwneud mwy o waith i archwilio mesurau dros dro a allai wella ein heffeithlonrwydd gweithredol a goresgyn rhai o'r cymhlethdodau, ynghyd ag argymell ateb tymor hwy pwrpasol, y gellir ond ei gyflawni drwy newid deddfwriaethol.

10 Gwnaethom ofyn am farn rhanddeiliaid ar ein cynnig i newid i ffioedd tybiannol ar gyfer cyrff a ariennir o Gronfa Gyfunol Cymru yn uniongyrchol ynghyd â'r GIG yng Nghymru a chyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru.

11 Dangosodd yr ymatebion fod camsyniad ymhlith rhanddeiliaid y byddai ffioedd tybiannol yn lleihau tryloywder ac atebolrwydd. Gwelwyd nad yw hyn yn wir yn achos asiantaethau archwilio eraill y DU sydd wedi gweithredu yn y ffordd hon ers tro, fel y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Hyd yn oed o dan drefn ffioedd tybiannol, byddem yn dal i ddisgwyl i Bwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg ein dwyn i gyfrif wrth i ni gynnig ein cynllun archwilio a'r ffi dybiannol am y flwyddyn.

12 Fodd bynnag, gwrthwynebodd Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru y cynnig hwn, gan wneud i ni ailfeddwl. Mae ein cynnig ar gyfer ffioedd tybiannol bellach wedi'i gyfyngu'n gyfan gwbl i'r cyrff hynny a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru[2], sy'n debyg i'r trefniadau sydd ar waith yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

13 Yn olaf, gwnaethom ofyn am farn rhanddeiliaid ar roi pŵer i Swyddfa Archwilio Cymru bennu cyfraddau ffioedd ar gyfer gwaith cytundeb ac i'r gwaith hwnnw beidio â chael ei gyfyngu gan yr amod 'ni chaiff y ffi fod yn fwy na chost lawn' sydd yn y Ddeddf. Byddai newid o'r fath yn rhoi mwy o gymhelliad i Swyddfa Archwilio Cymru wneud gwaith o'r fath, gan gynnig cyfleoedd datblygu i'n staff a'n galluogi i gadw unrhyw warged sy'n weddill o'r costau cyflawni a'i ddefnyddio i leihau ein galw ar Gronfa Gyfunol Cymru.

14 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion o blaid symleiddio'r maes hwn ar y cyfan.  Mae pryderon a godwyd ynghylch y perygl o draws-sybsideiddio eisoes yn rhan o'n trefniadau rheoli risg wrth ystyried gwaith cytundeb.

15 Mae gweddill y papur hwn yn rhoi rhagor o fanylion am yr holl agweddau uchod.

2 Llywodraeth Cymru (Gweinidogion Cymru), Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

# Yr achos dros newid

## Trefn ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru

16 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn nodi'r trefniadau y caiff neu y mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd am waith archwilio penodol odanynt. Mae deddfwriaeth arall, megis Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, yn nodi lle mae'n rhaid pennu graddfeydd ffioedd a gyda phwy y mae'n rhaid ymgynghori wrth bennu'r graddfeydd hynny. Rydym yn dewis ymgynghori'n ehangach nag sy'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth am ein bod o'r farn bod hynny'n cynnig mwy o dryloywder ac yn rhoi cyfle i'n holl randdeiliaid wneud sylwadau ar ein cynlluniau codi ffioedd.

17 Mae Atodiad 1 yn cynnwys y darn perthnasol o Ddeddf 2013, ynghyd â throsolwg o'r ddeddfwriaeth gyfatebol sy'n gymwys i gyrff archwilio eraill y DU. Mae Atodiad 2 yn rhoi rhestr lawn o ddeddfiadau y caiff neu y mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd odanynt. Mae'n ddarlun cymhleth.

18 Mae ein Hamcangyfrif Blynyddol (cyllideb) yn nodi ein hincwm a'n gwariant disgwyliedig ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Ochr yn ochr â'r Amcangyfrif, rydym yn cyhoeddi Cynllun Ffioedd, sy'n nodi ein strwythur codi tâl am waith archwilio a graddfeydd ffioedd fel sy'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth. Mae Pwyllgor Cyllid y Cynulliad yn craffu ar yr Amcangyfrif a'r Cynllun Ffioedd, ynghyd â'n Cynllun Blynyddol, Adroddiad Interim a'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon. Ni allwn godi ffioedd heb Gynllun Ffioedd sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cynulliad, sy'n sicrhau lefel bwysig arall o waith craffu annibynnol ar ein cynlluniau.

19 Ni allwn godi ffioedd am bob agwedd ar ein gwaith – er enghraifft, nid yw'r cyrff a archwilir yn talu am y rhaglen o archwiliadau o ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd a gynhelir gan yr Archwilydd Cyffredinol. Caiff gwaith o'r fath ei ariannu o Gronfa Gyfunol Cymru, fel y nodir yn ein Hamcangyfrif, o dan awdurdod cynnig cyllidebol blynyddol y Cynulliad.

20 Pan fyddwn yn codi ffi, rydym yn pennu cyfraddau ffi yr awr ar lefel i adennill y costau yr eir iddynt yn unig, gan fod y ddeddfwriaeth yn ein hatal rhag codi mwy na hynny. Yna rydym yn pennu ein ffioedd archwilio amcangyfrifedig yn seiliedig ar amser staff amcangyfrifedig ar gyfer pob rôl archwilydd sydd ei hangen i gwblhau'r gwaith. Gwneir hyn yn flynyddol ar gyfer pob corff a archwilir.

## Cymhariaeth â chyrff archwilio eraill y DU

21 Mae Arddangosyn 2 yn cymharu gofynion deddfwriaethol ynglŷn â ffioedd yng Nghymru â'r rhai sydd ar waith i gyrff archwilio eraill y DU (rhoddir naratif yn Atodiad 1).

Arddangosyn 1 – Cymharu deddfwriaeth ynglŷn â ffioedd â chyrff archwilio eraill y DU

| Gofynion ynglŷn â ffioedd | Swyddfa Archwilio Cymru | Swyddfa Archwilio Genedlaethol | Audit Scotland | Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon |
|---|---|---|---|---|
| Pennu ffioedd i adennill cost gwaith ffi yn fras gan ystyried un flwyddyn ag un arall. | Ie | Nid yw'n ofynnol ond mae'n arfer sefydledig | Ie | Nid yw'n ofynnol ond mae'n arfer sefydledig |
| Ni chodir ffi am gyfrifon a baratoir gan gyrff llywodraeth ganolog (cyrff a ariennir yn uniongyrchol gan y Gronfa Gyfunol berthnasol). | Na | Ie | Ie | Ie |
| Rhaid paratoi cynllun ffioedd sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer codi ffioedd. | Ie | Ie | Na | Na |
| Mae telerau ac amodau ar gyfer gwaith cytundeb yn fater i'r corff archwilio. | Ie, ond gyda chyfyngiadau | Ie | Ie | Ie |

22 Mae tair darpariaeth benodol yn amlwg o Arddangosyn 2 a allai symleiddio'r drefn ffioedd yng Nghymru:

- y gallu i godi ffioedd gyda'r nod o adennill costau ar waith ffi 'gan ystyried un flwyddyn ag un arall';
- peidio â chodi ffi am gyfrifon a baratoir gan adrannau'r llywodraeth neu gyrff eraill a ariennir yn uniongyrchol o'r Gronfa Gyfunol berthnasol; a
- mwy o hyblygrwydd fel y bydd telerau ac amodau gwaith cytundeb yn fater i'r corff archwilio perthnasol (Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn ein hachos ni).

## Sail ein hymgynghoriad â rhanddeiliaid

23 Gwnaethom gyhoeddi papur trafod ar 6 Mehefin 2017 a gwahoddwyd rhanddeiliaid i gyflwyno eu barn erbyn 28 Gorffennaf. Roeddem yn falch o dderbyn 24 o ymatebion o'r holl sectorau rydym yn eu harchwilio.

24 Nododd ein papur trafod y cymhlethdodau sy'n deillio o'r trefniadau presennol a'u goblygiadau yn fanwl. Nodwyd yn y papur trafod ein bod yn gweld bod cyfle i symleiddio yng Nghymru drwy sicrhau bod agweddau ar y drefn ffioedd yn fwy cyson â'r rhai sy'n llywodraethu rhannau eraill o'r DU. Yn benodol, gwnaethom nodi manteision posibl o ran:

- rhoi mwy o sicrwydd i gyrff a archwilir ynglŷn â'r ffi sydd i'w chodi a goresgyn y diffyg cymhelliant i wneud gwaith archwilio yn fwy effeithlon ar lawr gwlad;
- rhoi terfyn ar gylchredeg arian ffioedd ymhlith cyrff llywodraeth ganolog a'r GIG; a
- galluogi Swyddfa Archwilio Cymru i wneud defnydd gwell o waith cytundeb fel rhan o'n strategaeth ariannol.

25 Isod, amlinellir y tri ateb a awgrymwyd yn y papur trafod, ynghyd â chrynodeb o'r ymatebion a gafwyd gan randdeiliaid a'n hargymhellion sy'n ystyried yr ymatebion hynny i'r ymgynghoriad.

## Ateb 1: Diwygio'r ddeddfwriaeth er mwyn sicrhau nad yw ffioedd a godir ar gorff a archwilir yn fwy na chost lawn y gwaith a wnaed, gan ystyried un flwyddyn ag un arall

26 Ni chredwn fod yna fwriad i Ddeddf 2013 achosi'r fath gymhlethdod a welir bellach na pheryglu sefyllfa ariannol gyffredinol Swyddfa Archwilio Cymru. Ac ni chredwn ychwaith fod bwriad i'r cyfyngiad 'ni chaiff y ffi fod yn fwy na chost lawn' fod yn wrthanogaeth i gynnal archwiliadau'n fwy effeithlon. Mae'r wrthanogaeth hon yn codi am fod y cyfyngiad 'ni chaiff y ffi fod yn fwy na chost lawn' wedi'i gynnwys yn adran 23 o'r Ddeddf (darpariaethau yn ymwneud â ffioedd, ac mewn mannau eraill mewn deddfwriaeth arall) yn hytrach nag yn adran 24 (darpariaethau ar gyfer cynllun ar gyfer codi ffioedd). Mae gosod y cyfyngiad yn adran 23 yn arwain at rwymedigaeth gaeth mewn perthynas â thaliadau unigol am agweddau penodol ar ein gwaith, yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol i raddfeydd ffioedd a symiau ffioedd gael eu pennu ar lefel briodol yn y Cynllun Ffioedd am yr holl waith archwilio a gynhelir gennym.

27 Er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon, gwnaethom awgrymu y dylid diwygio'r Ddeddf fel y bydd y cyfyngiad 'ni chaiff y ffi fod yn fwy na'r gost lawn' yn gymwys i bennu graddfeydd ffioedd a symiau ffioedd yn adran 24 Cynllun ar gyfer codi ffioedd, yn hytrach na'r ffioedd a godir mewn gwirionedd o dan adran 23 (a darpariaethau perthnasol mewn deddfwriaeth arall). Awgrymwyd hefyd y dylid dileu'r cyfeiriad at gost 'swyddogaeth'[3] a chynnwys darpariaeth ar gyfer 'ystyried un flwyddyn ag un arall'. Byddai gwneud y newidiadau hyn yn cadw'r ddisgyblaeth o bennu graddfeydd ffioedd a symiau ffioedd gyda'r nod o adennill dim mwy na chost lawn y gwaith a wnaed, ond mewn ffordd lai rhagnodol ac anhyblyg nag sy'n digwydd ar hyn o bryd. Dylai darpariaeth debyg yn adran 24 o'r Ddeddf gynnig digon o hyblygrwydd i wella costeffeithiolrwydd ein trefniadau rheoli a phrosesu:

> **'Wrth bennu graddfeydd ffioedd, symiau i'w codi a'r ffordd y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyfrifo ffioedd a gynhwysir mewn cynllun o dan yr adran hon, mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru anelu at sicrhau nad yw ffioedd a godir ar berson yn fwy na chost lawn y gwaith a wnaed, gan ystyried un flwyddyn ag un arall.'**

3 Drwy hepgor is-adran 23(5)(b) o Ddeddf 2013, ynghyd ag is-adran 20(5A) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac is-adran 27(4A) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

## Ymatebion i'r ymgynghoriad

28 Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn cefnogi ein hateb a ffefrir i symleiddio'r drefn, gyda'r sicrwydd na fyddem yn codi mwy ar gyrff a archwilir na chost yr archwiliad gan ystyried un flwyddyn ag un arall. Darparwyd amrywiaeth o ymatebion naratif; heblaw am sylwadau a oedd ond yn mynegi cytundeb, ceir crynodeb o'r pwyntiau allweddol a godwyd mewn ymatebion unigol isod:

1 Cefnogi er mwyn lleihau cost y gwasanaeth a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru drwy wneud mwy o arbedion effeithlonrwydd.

2 Rhaid i gyfraddau ffioedd fod mor dryloyw â phosibl a rhaid gwneud arbedion effeithlonrwydd lle bo hynny'n bosibl.

3 Cydnabyddiaeth bod y drefn bresennol yn wrthanogaeth i fod yn fwy effeithlon wrth gyflawni gwaith archwilio; rhaid i newidiadau fod o fudd i'r cyrff a archwilir yn ogystal â Swyddfa Archwilio Cymru.

4 Ni ddylai'r broses alluogi'r archwilydd i fod yn aneffeithlon yn ei waith. Ni ddylai cost newidiadau i dimau archwilio gael eu trosglwyddo i'r cyrff a archwilir.

5 Byddai'n lleihau'r risg o gael sioc annifyr ar ddiwedd y flwyddyn o ran ffioedd ychwanegol a godir.

6 Wrth leihau cymhlethdod, mae'n bwysig nad yw Swyddfa Archwilio Cymru yn creu system gyffredinol a gor-syml sydd hefyd yn arwain at oblygiadau anfwriadol.

7 Hapus gyda'r dull codi tâl presennol, ond yn awyddus i gael dadansoddiad manylach o gostau fel y gall y sawl sy'n cael eu harchwilio gael syniad o werth am arian.

8 Annog ffocws parhaus ar leihau costau a ffioedd is lle bo hynny'n bosibl.

9 Ceisio newid y dull gweithredu ond heb fod angen newid deddfwriaethol – cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru i hwyluso cam o'r fath yn y dyfodol.

10 Dylid symleiddio'r ddeddfwriaeth ymhellach, ar hyd y trywydd canlynol: 'Rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd yn unol â Chynllun Ffioedd a gymeradwyir gan y Cynulliad Cenedlaethol yn flynyddol'. Yna, defnyddio polisïau rheoli i'w rhoi ar waith yn fanylach.

## Argymhelliad Swyddfa Archwilio Cymru ar ôl ystyried barn rhanddeiliaid

29 Roeddem yn croesawu'r ymatebion a gafwyd a'r gefnogaeth gyffredinol i symleiddio'r agwedd hon ar y ddeddfwriaeth. Mae'n amlwg bod dyhead cyffredin i Swyddfa Archwilio Cymru weithio mor effeithlon ac effeithiol â phosibl, er mwyn rheoli neu ostwng ffioedd lle bo hynny'n bosibl. Byddwn yn parhau i sicrhau bod y broses o bennu ffioedd yn dryloyw a bod cyrff a archwilir yn deall sut y caiff eu ffi ei chyfrifo. Byddwn hefyd yn parhau i geisio gwella gwerth am arian yn gyffredinol drwy ein gwaith fel Swyddfa Archwilio Cymru, a byddwn yn adrodd yn flynyddol ar hyn drwy ein Hamcangyfrif a'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

30 **Ar sail y gefnogaeth gyffredinol gan randdeiliaid i symleiddio'r agwedd hon ar y drefn ffioedd, argymhellwn y dylid diwygio'r ddeddfwriaeth fel bod yr amod presennol i beidio â chodi 'mwy na chost lawn' yn cael ei ddisodli gan ddyletswydd ar Swyddfa Archwilio Cymru i lunio graddfeydd ffioedd a chyfrifo ffioedd er mwyn ceisio adennill dim mwy na chostau llawn, gan ystyried un flwyddyn ag un arall.**

31 Yn y cyfamser, byddwn yn ceisio mwy o gyngor cyfreithiol i ailbrofi p'un a oes modd symleiddio ein trefniadau codi ffioedd, gan sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Deddf 2013 ar yr un pryd. Os gallwn wneud y cyfryw waith symleiddio, byddem yn ailosod y Cynllun Ffioedd er mwyn adlewyrchu ac egluro'r trefniadau hynny

## Ateb 2: Gwaith archwilio llywodraeth ganolog a'r GIG yn cael ei ariannu o Gronfa Gyfunol Cymru (ar ôl cymeradwyo Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru) yn hytrach na thrwy ffioedd.

32 Mae codi ffioedd ar gyrff llywodraeth ganolog a'r GIG yn golygu y caiff cyllid gwerth tua £4.9 miliwn bob blwyddyn ei gylchredeg o fewn yr un sector.

33 O edrych ar ein cymheiriaid yng nghyrff archwilio eraill y DU, gwelwn fod modd osgoi cyllido arian parod cylchol o'r fath i adrannau'r llywodraeth – ni chodir ffi arian parod (ond caiff tâl tybiannol ei gynnwys yng nghyfrifon y cyrff hynny) a darperir cyllid ar gyfer y gwaith hwnnw i'r swyddfa archwilio dan sylw yn uniongyrchol o'r Gronfa Gyfunol berthnasol.

34 Wrth ystyried p'un a ddylid symud i'r dull gweithredu hwn yng Nghymru, gwelwn fod lle i ymestyn hyn i'r GIG, cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru a chyrff y Comisiynwyr. Yn achos yr holl gyrff hyn, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'u gwaith i'r Cynulliad yn hytrach nag i'r corff a archwilir. Felly gellir dadlau ei bod hefyd yn briodol bod cost yr archwiliadau'n cael ei hariannu'n uniongyrchol gan y Cynulliad drwy broses craffu a chymeradwyo cyllideb Swyddfa Archwilio Cymru yn hytrach na chan y corff a archwilir. I ryw raddau, mae'r dull gweithredu hwn yn atgyfnerthu annibyniaeth archwilio ar y corff a archwilir.

35 Byddai'r Archwilydd Cyffredinol yn dal i fod yn ddarostyngedig i waith monitro a chyngor Swyddfa Archwilio Cymru a'r gofyniad cyfreithiol i arfer swyddogaethau'n gosteffeithiol. At hynny, byddai Swyddfa Archwilio Cymru yn dal i fod yn ddarostyngedig i broses graffu'r Cynulliad drwy'r Pwyllgor Cyllid.

36 Byddai cyfanswm cost amcangyfrifedig y gwaith archwilio ymhlith y cyrff hyn (tua £4.9 miliwn) yn cael ei chynnwys yn Amcangyfrif blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru, i'w ariannu o Gronfa Gyfunol Cymru. Byddai'n cael ei fantoli drwy addasiad untro i gyllideb Llywodraeth Cymru a chyrff perthnasol eraill.

37 Byddem yn rhoi cost ffi dybiannol i gyrff perthnasol a archwilir, i'w chynnwys yn eu Cyllideb Adnoddau a'u Cyfrifon Blynyddol, yn unol â gofynion y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol. Y newid allweddol yw na fyddem yn mynd ati i baratoi ac anfon anfonebau ar gyfer y gwaith hwnnw mwyach na throsglwyddo arian rhwng cyfrifon banc am y symiau a anfonebwyd.

## Ymatebion i'r ymgynghoriad

38 Er bod y rhan fwyaf o randdeiliaid yn cefnogi'r ateb a ffefrir gennym, mae'n bwysig nodi nad oedd y ddau randdeiliad mwyaf, Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ei gefnogi. Heb gynnal cysylltiad clir rhwng gwaith archwilio a'r costau archwilio yr eir iddynt, dywedodd Llywodraeth Cymru fod llai o gymhelliant i'r sector cyhoeddus geisio newid.

39 Darparodd y rhanddeiliaid amrywiaeth o ymatebion naratif; heblaw am sylwadau a oedd ond yn mynegi cytundeb, ceir crynodeb o'r pwyntiau allweddol a godwyd mewn ymatebion unigol isod:

1. Pryder bod y cynnig hwn yn cymhlethu pethau ymhellach.
2. Angen sicrhau bod yr addasiad yn niwtral o ran cost.
3. Goblygiadau i gyrff a archwilir, eu byrddau a Phwyllgorau Archwilio o ran cael gwasanaeth o ansawdd am bris rhesymol. O ble daw'r her i'r ffi archwilio o dan y cynnig newydd?
4. Byddai'r arbedion o ran prosesu trafodion yn fach iawn a gallent gael eu gwrthbwyso gan fwy o faterion gweinyddol sy'n ymwneud â newid dyraniadau cymorth grant.
5. Pryder y gallai Llywodraeth Cymru wneud addasiadau i Gymorth Grant y tu hwnt i'r addasiadau ar gyfer y ffi, ar sail profiad blaenorol cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru. Hefyd, rhai cyrff yn defnyddio cymysgedd o Gymorth Grant ac incwm arall i dalu'r ffi. Nid yw eraill yn cael Cymorth Grant o gwbl.
6. Creu argraff nad yw'r corff a archwilir yn talu am ei archwiliad.
7. Mae'n debygol y gallai trafodaethau yn ystod cam cynllunio'r archwiliad arwain at newid yr oriau sydd eu hangen i gwblhau'r gwaith ac, felly, gostau'r gwaith.
8. Byddai'r dull gweithredu hwn yn lleddfu'r baich ar y corff cyhoeddus ac mae'n rhoi rhyddid i Swyddfa Archwilio Cymru gynnal archwiliad llawn heb bwysau costau.
9. Mae'n bwysig nodi bod Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu newid i ffioedd tybiannol fel y cynigir yn y cwestiwn hwn.

## Argymhelliad Swyddfa Archwilio Cymru ar ôl ystyried barn rhanddeiliaid

40 Rydym wedi gwrando'n ofalus ar y pryderon a godwyd gan randdeiliaid mewn perthynas â newid i ffioedd tybiannol. Roedd rhai rhanddeiliaid yn pryderu y gallai ffioedd tybiannol leihau tryloywder ac atebolrwydd. Gwelwyd nad yw hyn yn wir yn y rhannau eraill o'r DU sydd wedi gweithredu yn y ffordd hon ers tro, fel y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Hyd yn oed o dan drefn ffioedd tybiannol, byddem yn dal i ddisgwyl i Bwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg ein dwyn i gyfrif wrth i ni gynnig ein cynllun archwilio a'r ffi dybiannol am y flwyddyn.

41 Fodd bynnag, rydym wedi ailystyried pethau yn sgil yr adborth a byddem yn ei chael hi'n anodd dadlau o blaid newid sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn sydd ar waith mewn rhannau eraill o'r DU. Felly, mae ein cynnig ar gyfer ffioedd tybiannol bellach wedi'i gyfyngu'n gyfan gwbl i'r cyrff hynny a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru, sy'n debyg i'r trefniadau sydd ar waith yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Y cyrff dan sylw yng Nghymru yw Llywodraeth Cymru (Gweinidogion Cymru), Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

42 **Rydym yn argymell y dylai ffioedd tybiannol gael eu pennu ar gyfer cyrff a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru, fel bod Cymru yn unol â'r trefniadau sydd ar waith yng ngweddill y DU.**

## Ateb 3: Newid deddfwriaethol i alluogi Swyddfa Archwilio Cymru i benderfynu'n llwyr ar delerau talu ar gyfer gwaith cytundeb

43 Mae ein trefn ffioedd yn golygu na allwn godi mwy na chost lawn y gwaith a wneir gennym – boed hynny o dan statud neu drwy gytundeb. Mae hyn yn anffodus. Pe caniateid i ni godi am waith cytundeb ar sail gystadleuol, credwn y gallem sicrhau sefyllfa ariannol gyffredinol well ac un a allai leihau ein gofyniad am gyllid cyhoeddus mewn gwirionedd drwy leihau ein costau gweithredu net.

44 Mae gwaith cytundeb yn cynnwys archwilio cyfrifon, ardystio grantiau neu waith archwilio arall a gomisiynir gan y corff a archwilir yn hytrach na gwaith sy'n ofynnol dan statud. Mae enghreifftiau o waith o'r fath yn cynnwys ein harchwiliadau ar gyfer Llywodraeth Anguilla y gwnaethom eu hennill drwy ymarfer tendr cystadleuol.

45 Credwn y byddai mabwysiadu model lle y gall Swyddfa Archwilio Cymru benderfynu'n llwyr ar delerau talu ar gyfer gwaith cytundeb, yn hytrach na'u bod wedi'u gorfodi mewn deddfwriaeth, yn sicrhau mwy o ddarbodusrwydd yng nghost gyffredinol gwaith archwilio cyhoeddus yng Nghymru. Rydym wedi wynebu sefyllfa lle bu'n rhaid i ni ad-dalu ffioedd yn rhannol am fod cost derfynol y gwaith yn llai na'r ffi y cytunwyd arni drwy broses tendr cystadleuol; mae hyn yn ymddangos yn ddisynnwyr.

46 Byddai newid o'r fath yn ein galluogi i gadw unrhyw wargedau a wneir yn hytrach nag ad-dalu'r gwahaniaeth. Rydym yn gweld potensial i arfer y disgresiwn ychwanegol hwn fel rhan o'n strategaeth ariannol yn yr hirdymor er mwyn helpu i reoli cost archwiliadau cyhoeddus yng Nghymru. Yn syml, gallai olygu na fydd angen i ni dynnu cymaint o arian o Gronfa Gyfunol Cymru.

## Ymatebion i'r ymgynghoriad

47 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion o blaid symleiddio'r maes hwn ar y cyfan. Heblaw am sylwadau a oedd ond yn mynegi cytundeb, ceir crynodeb o'r pwyntiau allweddol a godwyd mewn ymatebion unigol isod:

1. Ar ôl sicrhau gwaith drwy broses gystadleuol, neu drwy gytundeb, os gall Swyddfa Archwilio Cymru gyflawni gwarged, mae'n ymddangos yn rhesymol y dylai allu cadw'r gwarged cyffredinol net a gynhyrchir drwy weithgareddau o'r fath mewn unrhyw flwyddyn a'i ddefnyddio'n effeithiol i leihau'r swm sydd ei angen o Gronfa Gyfunol Cymru.
2. Mae'r cynnig yn rhesymol ar yr amod ei fod ond yn gymwys i waith y tu allan i Gymru er mwyn osgoi traws-sybsideiddio ffioedd. Rhaid cael amgylchedd gwirioneddol gystadleuol er mwyn i'r cynnig hwn weithio.
3. Mae perygl y gellir cael mantais gystadleuol annheg drwy draws-sybsideiddio o Gronfa Gyfunol Cymru.
4. Dylai unrhyw elw gael ei ddefnyddio i leihau cost gwaith archwilio statudol.
5. Bydd y gallu i gynyddu craffter masnachol yn galluogi Swyddfa Archwilio Cymru i gynyddu refeniw masnachol er mwyn gwrthbwyso'r costau i'r sector cyhoeddus. Dylai pris risgiau masnachol gael eu hystyried wrth gostio.
6. Drwy achub ar gyfleoedd masnachol eraill, mae'n bosibl gwerthu gwasanaethau ychwanegol i gyrff cyhoeddus, fel hyfforddiant a chanllawiau arfer gorau, a allai arwain at ffioedd is o ganlyniad i arferion gwell a lleihad mewn amser archwilio.

## Argymhelliad Swyddfa Archwilio Cymru ar ôl ystyried barn rhanddeiliaid

48 Yn sgil adborth y rhanddeiliaid, rydym am ddatgan yn glir nad ydym yn bwriadu creu unrhyw berygl o draws-sybsideiddio cyllid y sector cyhoeddus. Yn ein barn ni, prif fantais symleiddio'r maes hwn yw lleihau cost gyffredinol gwaith archwilio cyhoeddus ac, felly, ein galw ar Gronfa Gyfunol Cymru (er mai dim ond lleihad bach iawn fydd hyn yn ôl pob tebyg) a gwella gwerth am arian ymhellach o safbwynt ein defnydd o adnoddau a chyfleoedd datblygu i staff.

49 Mae pryderon a godwyd ynghylch y perygl o draws-sybsideiddio eisoes yn rhan o'n trefniadau rheoli risg wrth ystyried gwaith cytundeb.

50 **Argymhellwn y dylid diwygio'r ddeddfwriaeth er mwyn galluogi Swyddfa Archwilio Cymru, ar gyfer gwaith comisiwn, i bennu lefelau ffioedd priodol drwy ei Chynllun Ffioedd, nad ydynt yn ddarostyngedig i'r amod i beidio â chodi mwy na chost y swyddogaeth.**

## Argymhellion terfynol

51 Cyflwynir yr argymhellion a wneir yn y papur hwn yn Arddangosyn 2 at ddibenion cyflawnder:

Arddangosyn 2 – argymhellion i symleiddio'r drefn ffioedd archwilio cyhoeddus yng Nghymru

Mae'r arddangosyn yn nodi'r argymhellion a gyflwynir drwy'r papur hwn sy'n amlinellu'r achos dros newid.

| Argymhellion | |
|---|---|
| A1 | Argymhellwn y dylid diwygio'r ddeddfwriaeth fel bod yr amod presennol i beidio â chodi 'mwy na chost lawn' yn cael ei ddisodli gan ddyletswydd ar Swyddfa Archwilio Cymru i lunio graddfeydd ffioedd a chyfrifo ffioedd er mwyn ceisio adennill dim mwy na chostau llawn y gwaith, gan ystyried un flwyddyn ag un arall. |
| A2 | Rydym yn argymell y dylai ffioedd tybiannol gael eu pennu ar gyfer cyrff a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru, fel bod Cymru yn unol â'r trefniadau sydd ar waith yng ngweddill y DU. |
| A3 | Argymhellwn y dylid diwygio'r ddeddfwriaeth er mwyn galluogi Swyddfa Archwilio Cymru, ar gyfer gwaith comisiwn, i bennu lefelau ffioedd priodol drwy ei Chynllun Ffioedd, nad ydynt yn ddarostyngedig i'r amod i beidio â chodi mwy na chost y swyddogaeth. |

52 Diolch i'r holl randdeiliaid a roddodd o'u hamser i rannu eu barn â ni. Edrychwn ymlaen yn awr at drafod yr argymhellion hyn a'n hachos dros newid â Phwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol.

# Atodiadau

## Atodiad 1 – Darnau o ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r drefn ffioedd ymhlith cyrff archwilio'r DU

### Swyddfa Archwilio Cymru:
### Adran 20 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

20 Fees in respect of functions exercised by the Auditor General for Wales

A1 The Wales Audit Office must, in accordance with a scheme for charging fees prepared under section 24 of the Public Audit (Wales) Act 2013, charge a fee in respect of functions exercised by the Auditor General for Wales—

- a in auditing the accounts of local government bodies in Wales under this Chapter, and
- b in undertaking studies at the request of a local government body under section 44.

1 The Wales Audit Office must prescribe a scale or scales of fees payable for one or more financial years in respect of the audit of accounts of local government bodies in Wales under this Chapter.

2 Before prescribing a scale of fees under subsection (1) the Wales Audit Office must consult -

- a any associations of local government bodies in Wales which appear to the Wales Audit Office to be concerned, and
- b such other persons as the Wales Audit Office thinks fit.

3 [repealed]

4 A local government body in Wales must, subject to subsection (5), pay to the Wales Audit Office the fee payable in respect of the audit in accordance with the appropriate scale.

5 If it appears to the Wales Audit Office that the work involved in a particular audit differed substantially from that envisaged by the appropriate scale, the Wales Audit Office may charge a fee which differs from that referred to in subsection (4).

5A But a fee charged under this section may not exceed the full cost of exercising the function to which it relates.

6 [repealed]

## Adrannau 23 a 24 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

23 Darpariaeth gyffredinol yn ymwneud â ffioedd

1. Rhaid talu ffioedd a symiau eraill y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn eu cael, i SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU.
2. Caiff SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU godi ffi mewn perthynas ag archwilio cyfrifon neu ddatganiad o gyfrifon person gan yr Archwilydd Cyffredinol.
3. Caiff SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU godi ffi mewn perthynas â'r canlynol -
    a. ymchwiliad, ardystiad neu adroddiad o dan baragraff 18(3) o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (ymchwiliadau penodol i ddarbodaeth etc person wrth ddefnyddio adnoddau);
    b. ymchwiliad a gynhelir ar gais person o dan adran 145 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (ymchwiliadau i ddefnydd o adnoddau) neu astudiaeth a wneir ar gais person o dan adran 145A o'r Ddeddf honno (astudiaethau ar gyfer gwella darbodaeth etc mewn gwasanaethau);
    c. ymchwiliad neu astudiaeth a gynhelir neu a wneir gan yr Archwilydd Cyffredinol ar gais person o dan adran 46(4) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995;
    d. unrhyw wasanaeth sy'n cael ei ddarparu neu swyddogaethau sy'n cael eu harfer o dan adran 19.
4. Rhaid i SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU godi ffi mewn perthynas â'r canlynol -
    a. darparu gwasanaethau i gorff o dan baragraff 20 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (ardystio hawliadau, ffurflenni etc ar gais corff);
    b. (b) astudiaeth ar gais corff addysgol o dan adran 145B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.
5. O ran ffioedd a godir o dan yr adran hon -
    a. ni chaniateir iddynt gael eu codi ond yn unol â chynllun a baratoir gan SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU o dan adran 24;
    b. ni chaiff y ffi fod yn fwy na chost lawn arfer y swyddogaeth y mae'r ffi'n ymwneud â hi;
    c. maent yn daladwy i SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU gan y person y mae'r swyddogaeth a arferir yn ymwneud ag ef.

24 Cynllun ar gyfer codi ffioedd

1 Rhaid i SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU baratoi cynllun sy'n ymwneud â chodi ffioedd gan SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU.

2 Rhaid i’r cynllun gynnwys y canlynol -

- a rhestr o’r deddfiadau y caiff SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU godi ffi odanynt;
- b pan fo’r deddfiadau hynny yn gwneud darpariaeth i SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU ragnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd, y raddfa honno neu’r graddfeydd hynny;
- c pan fo’r deddfiadau hynny yn gwneud darpariaeth i SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU ragnodi swm i’w godi, y swm hwnnw;
- d pan nad oes darpariaeth wedi ei gwneud ar gyfer rhagnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd, na rhagnodi swm, y modd y bydd SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU yn cyfrifo’r ffi a godir.

3 Caiff y cynllun wneud y canlynol ymysg pethau eraill -

- a cynnwys darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol neu ddosbarthau ar achosion gwahanol, a
- b darparu ar gyfer yr adegau a’r modd y bydd taliadau yn cael eu gwneud.

4 O ran y Cynllun -

- a rhaid i SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU ei adolygu o leiaf unwaith mewn blwyddyn galendr,
- b caiff SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU ei ddiwygio neu ei ail-wneud ar unrhyw adeg, ac
- c rhaid i SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU ei osod (a gosod unrhyw ddiwygiad iddo) gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

5 Pan fo Gweinidogion Cymru yn rhagnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd o dan -

- a adran 64F o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (ffioedd am baru data), neu
- b adran 27A o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (pŵer Gweinidogion Cymru i ragnodi graddfa ffioedd),i gael effaith yn lle graddfa neu raddfeydd ffioedd a ragnodwyd gan SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU, rhaid i SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU ddiwygio’r cynllun i gynnwys y raddfa neu’r graddfeydd ffioedd a ragnodwyd gan Weinidogion Cymru yn lle’r rhai a ragnodwyd gan SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU.

6 Nid oes rhaid cael cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol os mai diwygiad a wneir yn unol ag isadran (5) yw'r unig ddiwygiad i gynllun.

7 Bydd y cynllun yn cael effaith pan fydd wedi cael ei gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol neu, yn achos diwygiad a wneir yn unol ag isadran (5), unwaith y bydd wedi cael ei osod gerbron y Cynulliad.

8 Rhaid i SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU gyhoeddi'r cynllun (ac unrhyw ddiwygiad iddo) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi iddo gael effaith.

## Swyddfa Archwilio Genedlaethol: Paragraff 8 o atodlen 3 i Ddeddf Cyfrifoldeb am Gyllidebau ac Archwilio Cenedlaethol 2011

8 Audit fees etc

1 NAO may charge fees for audits carried out by the Comptroller and Auditor General.

2 Any fees must be charged in accordance with a scheme prepared by NAO.

3 The scheme (including any revision) must be approved by the Public Accounts Commission.

4 The agreement of a Minister of the Crown is required for the charging of a fee if the accounts to be audited are the accounts of a body or other person who acts on behalf of the Crown.

5 Sub-paragraphs (1) to (4) do not apply in relation to an audit carried out as part of any NAO-approved services.

6 The Comptroller and Auditor General may charge fees and other amounts in relation to NAO-approved services, but only in accordance with the agreement or other arrangements under which the services are provided.

7 Fees and other amounts received by the Comptroller and Auditor General must be paid to NAO.

8 Fees and other amounts received by NAO under this paragraph must be paid into the Consolidated Fund.

## Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon: Erthygl 7 o Orchymyn Archwilio (Gogledd Iwerddon) 1987

7 Audit fees

1. Subject to paragraph (2), the Comptroller and Auditor General may charge a fee for auditing the accounts of any person or body.
2. The Comptroller and Auditor General shall not without the consent of a Northern Ireland department charge a fee for auditing the accounts of a person or body whose functions are discharged on behalf of the Crown; and this Article shall not be construed as authorising the charging of a fee for the audit by agreement of the accounts of any other person or body unless the agreement so provides.
3. Any fee received by the Comptroller and Auditor General by virtue of this Article shall be paid by him into the Consolidated Fund.

## Erthygl 8 o Orchymyn Llywodraeth Leol (Gogledd Iwerddon) 2005

8 Audit fees

There shall be paid to the Comptroller and Auditor General for Northern Ireland by every body whose accounts are audited by the local government auditor such fees as the local government auditor may determine.

## Audit Scotland: Adran 11 o Ddeddf Cyllid Cyhoeddus ac Atebolrwydd (Yr Alban) 2000

11 Audit Scotland: financial provisions

1. Audit Scotland may impose reasonable charges in respect of the exercise of its functions in connection with—

   a. the provision of services under arrangements made in pursuance of section 10(5),

   b. the audit under sections 21 and 22 of an account, other than one prepared in pursuance of section 19(1) to (3) or 20(1),

   c. the carrying out under section 23 of an examination, other than one in respect of an office-holder in the Scottish Administration or a body or other office-holder to whom sums are paid out of the Fund,

   ca. carrying out a data matching exercise under section 26A,

d the audit of an account in pursuance of Part VII of the Local Government (Scotland) Act 1973 (c.65),

e the undertaking or promotion of any study under section 97A or 105A of that Act,

f the giving of directions under section 1 of the Local Government Act 1992 (c.19).

2 Charges under subsection (1) may be determined by reference to particular cases or classes of case.

3 In determining the amounts of those charges Audit Scotland must seek to ensure that the total sum received in respect of the charges is, taking one year with another, broadly equivalent to its expenditure in connection with the matters mentioned in subsection (1)(a) to (f).

4 Charges under subsection (1)(b) to (f) are payable by the body or office-holder whose account is audited or, as the case may be, in respect of whom the examination is carried out, the study undertaken or promoted or the direction given.

5 Where a charge under subsection (1)(c), (e) or (f) relates to an examination, study or direction in respect of more than one body or office-holder, each body or office-holder is to pay such proportion of the charge as is determined by Audit Scotland.

5A Charges under subsection (1)(ca) may be imposed on (either or both) -

a persons who disclose data for a data matching exercise,

b persons who receive the results of such an exercise.

6 Sums received by Audit Scotland in respect of charges under subsection (1) are to be retained by it and applied to meet the expenditure mentioned in subsection (3).

7 Any other sums received by Audit Scotland are to be paid into the Fund, subject to any provision made by any enactment for such sums to be applied for any purpose instead of being paid into the Fund.

8 Any expenditure of Audit Scotland, so far as not met out of sums received and applied in accordance with subsection (6), is payable out of the Fund.

9 Audit Scotland must, for each financial year, prepare proposals for its use of resources and expenditure and send the proposals to the Scottish Commission for Public Audit (constituted under section 12), which is to examine the proposals and report to the Parliament on them.

# Atodiad 2 – Rhestr o ddeddfiadau y caiff ac y mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffi odanynt

Arddangosyn 3 – rhestr o ddeddfiadau y caiff ac y mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffi odanynt

| Natur y gwaith | Deddfiadau |
|---|---|
| **Caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd am y gweithgareddau canlynol:** | |
| • archwilio cyfrifon gan yr Archwilydd Cyffredinol (heblaw am gyfrifon llywodraeth leol). | • adran 23(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| • astudiaethau gwerth am arian a wneir drwy gytundeb. | • adran 23(3)(a)-(c) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| • archwiliad, ardystiad neu adroddiad o dan adran 31 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 mewn perthynas â Datganiad Treth Awdurdod Refeniw Cymru. | • adran 23(3)(ba) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013<br>(Heb ei chychwyn. Dyddiad i'w bennu.) |
| • archwiliad o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (anaw 2) (archwiliadau o gyrff cyhoeddus at ddibenion asesu'r graddau y mae corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy). | • adran 23(3)(ca) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| • unrhyw rai o swyddogaethau awdurdod perthnasol a gyflawnir gan Swyddfa Archwilio Cymru neu'r Archwilydd Cyffredinol drwy gytundeb, ac unrhyw wasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru neu'r Archwilydd Cyffredinol drwy drefniant o dan adran 19 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. | • adran 23(3)(d) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| • archwiliad eithriadol o gyfrifon corff llywodraeth leol. | • adran 37(8) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 |
| • ymarferion paru data. | • adran 64F(A1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004<br>• rhaid rhagnodi graddfa ffioedd ar gyfer y gwaith hwn |

| Natur y gwaith | Deddfiadau |
|---|---|
| **Caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd am y gweithgareddau canlynol:** | |
| • cyngor a chymorth a roddir i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gan yr Archwilydd Cyffredinol. | • adran 145D(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 |
| • gwaith o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. | • adran 27 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009<br>• rhaid rhagnodi graddfa ffioedd ar gyfer y gwaith hwn |
| • gwasanaethau ardystio grantiau. | • adran 23(4)(a) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| • astudiaethau ar gais cyrff addysgol o dan adran 145B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. | • adran 23(4)(b) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| • archwilio cyfrifon corff llywodraeth leol a gwneud astudiaethau drwy gytundeb â chorff llywodraeth leol. | • adran 20(A1)(a)-(b) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004<br>• rhaid rhagnodi graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon cyrff llywodraeth leol |
| • astudiaethau gweinyddu budd-daliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol. Caiff yr Archwilydd Cyffredinol gynnal, neu gynorthwyo'r Ysgrifennydd Gwladol i gynnal, astudiaeth o weinyddu budd-daliadau dim ond os yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud trefniadau i dalu ffi i Swyddfa Archwilio Cymru am yr astudiaeth. Rhaid i'r ffi fod yn swm rhesymol y mae'r Ysgrifennydd Gwladol a Swyddfa Archwilio Cymru yn cytuno arno. | • adran 45 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 |
| • cynorthwyo Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru i arolygu awdurdodau lleol. Ni fydd yr Archwilydd Cyffredinol yn darparu cymorth o'r fath oni fydd y Prif Arolygydd, cyn iddo wneud hynny, wedi cytuno i dalu ffi i Swyddfa Archwilio Cymru. | • adran 41A o Ddeddf Addysg 1997 |

| Natur y gwaith | Deddfiadau |
|---|---|
| **Caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd am y gweithgareddau canlynol:** | |
| • rhaglenni astudio yn ymwneud â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a gynhelir drwy gytundeb rhwng Gweinidogion Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol. Bydd yn un o amodau unrhyw raglen o'r fath bod yn rhaid i Weinidogion Cymru dalu swm i Swyddfa Archwilio Cymru am y costau yr eir iddynt. | • adran 145C(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 6

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Simon Thomas AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

**Cyfeirnod:** HVT/2811/caf
**Dyddiad cyhoeddi:** 7 Chwefror 2018

Annwyl Simon

Diolch am eich gwahoddiad i fynychu'r Pwyllgor Cyllid ar 15fed o Fawrth i drafod ymchwiliad y Pwyllgor i'r ffordd y mae Comisiwn y Cynulliad yn defnyddio'r tanwariant sy'n deillio o Benderfyniadau'r Bwrdd Taliadau. Rydw i wedi gofyn i fy Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol, Anthony Barrett, i fynychu ar fy rhan. Bydd Ann-Marie Harkin, Arweinydd Archwilio Ariannol ar gyfer archwiliadau cyfrifon Comisiwn y Cynulliad, yno'n cefnogi Anthony.

Does gen i ddim byd i'w hychwanegu i sylwadau Anthony yn ei lythyr i'r Pwyllgor ar 20 Mehefin 2017 sydd wedi'i hatodi.

Yn gywir

**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel/Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn destun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Simon Thomas AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

**Cyfeirnod:** [AJB301]

**Dyddiad cyhoeddi:** 21 Mehefin 2017

Annwyl Simon

## Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Cyllideb Ddrafft

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 24 Mai 2017, i'r Archwilydd Cyffredinol. Rwyf yn ateb ar ran Huw gan ei fod ef ar ei wyliau ar hyn o bryd.

Mae fy ymateb yn seiliedig ar yr hyn a wyddom am y materion fel y'u hamlinellwyd yn eich llythyr a'r trawsgrifiad ategol o'r Pwyllgor Cyllid. Nid ydym wedi cynnal adolygiad penodol o drefniadau'r Comisiwn ar gyfer gosod y gyllideb.

Ymddengys i mi fod yna ddau fater y mae angen ymdrin â hwy:

- Yr angen i'r Comisiwn ddarparu adnoddau digonol i gyllido penderfyniadau'r Bwrdd Cydnabyddiaeth Ariannol. Deallaf fod y Comisiwn yn gosod ei gyllideb ar y swm mwyaf y mae'n amcangyfrif y bydd ei angen i gyfarfod â'r angen hwn.
- Cyfrifoldebau'r Pwyllgor Cyllid i graffu ar gyllideb y Comisiwn, sy'n gymhleth oherwydd y ddarpariaeth wrth gefn ("tanwariant rhagweladwy") sydd wedi ei hadeiladu i mewn i linell gyllideb y Bwrdd Cydnabyddiaeth Ariannol.

Mae Trysorlys Ei Mawrhydi yn rhoi arweiniad yn ei gyhoeddiad,

'*Supply Estimates: a guidance manual*' ar ffurf a chynnwys Amcangyfrifon Cyflenwi. Ym mharagraff 2.1 dywed yr arweiniad hwn:

> "*Parliament expects departments to submit for approval Estimates based upon <u>taut and realistic</u> spending plans. This means that the amount of provision sought in the Estimates must reflect the department's best view as to the amount of expenditure likely to take place in that financial year. The amounts sought in the Estimate should be neither more (perhaps in order to provide a buffer in case of unexpected additions) nor less (perhaps in order to spread out the increase) than is actually expected to be needed*."

Mater i'r Cynulliad Cenedlaethol yw penderfynu a ddylid cymhwyso arweiniad o'r fath yng Nghymru.

Rwyf yn llwyr gydnabod yr anawsterau ymarferol y mae'r Comisiwn yn eu hwynebu drwy orfod gwneud darpariaeth yn y gyllideb ar gyfer gwariant o'r fath sy'n cael ei arwain gan y galw. Mae'n ddiddorol, felly, adolygu sefyllfa derfynol 2015-16 a gyhoeddwyd ar gyfer pob un o gyrff cyfatebol y Comisiwn yn y DU ar draws llinellau cyllideb cyfatebol, fel sydd wedi eu crynhoi yn y tabl canlynol.

| Corff | Disgrifiad o Wariant | Gwariant Amcangyfrifedig* £'000 | Gwariant mewn Gwirionedd* £'000 | Amrywiad £'000 | % yr Amrywiad |
|---|---|---|---|---|---|
| Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru | Adnoddau o ran penderfyniadau'r Bwrdd Cydnabyddiaeth Ariannol | 14,500 | 13,453 | 1,047 | 7.2 |
| Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol | Cyflogau ASau, staffio, costau busnes a threuliau | 201,082 | 169,230 | 31,852 | 15.6 |
| Cynulliad Gogledd Iwerddon | Cyflogau aelodau, treuliau a chostau gweinyddol | 46,230 | 43,063 | 3,167 | 6.8 |
| Corff Corfforaethol Senedd yr Alban | Nid yw'r Corff yn cynhyrchu crynodeb alldro manwl | | | | |

* Fel yr eglurwyd yn Natganiad Alldro Adnoddau'r corff

Rwyf hefyd yn crynhoi isod, ar gyfer blynyddoedd blaenorol, ganran tanwariant y Comisiwn ar benderfyniadau'r Bwrdd Cydnabyddiaeth Ariannol:

- 2014 -15: 5.5%
- 2013 -14: 3.2%
- 2012 -13: 4.2%

Dengys y dadansoddiad lefel uchel hwn, fod pob un o gyrff cyfatebol y Comisiwn wedi adrodd am danwariant cymharol sylweddol ar "gostau aelodau" ar gyfer 2015-16. Er nad ydym wedi adolygu prosesau gosod cyllideb y cyrff hyn, rydym wedi cael trafodaethau gyda chydweithwyr yn Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon ac Archwiliad yr Alban, sydd wedi tynnu sylw at rai gwahaniaethau diddorol o ran trefniadau gosod cyllideb ar gyfer costau Aelodau. Er enghraifft, cawsom ar ddeall fod Corff Corfforaethol Senedd yr Alban yn amcangyfrif faint o lwfansau aelodau sy'n debygol o gael eu hawlio bob blwyddyn; tra bydd Cynulliad Gogledd Iwerddon, yn debyg i'r Comisiwn, yn gosod ei gyllideb ar y swm mwyaf sy'n daladwy, er ein bod yn deall bod yna drefniant anffurfiol i ad-dalu unrhyw danwariant. Os nad yw wedi gwneud hynny'n ddiweddar, efallai y byddai'n werth i'r Comisiwn ystyried gyda'i gyrff cyfatebol sut y maent yn ceisio rheoli'r rhan hon o'r gyllideb.
Er nad wyf yn meddwl bod yna ateb syml i'r problemau yr ydych yn eu codi, rwyf yn cynnig isod ddau fodel i'r Pwyllgor Cyllid eu hystyried.

## Sefydlu cyfanswm rheoli adnoddau ar wahân ar gyfer penderfyniadau'r Bwrdd Cydnabyddiaeth Ariannol

Ar hyn o bryd mae'r Cynnig Cyllideb a gafodd ei gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol, yn cynnwys un terfyn adnoddau sengl ar gyfer y Comisiwn mewn perthynas â'i holl wariant. Gallech ystyried gyda'r Comisiwn y dewis o rannu hyn yn ddau gais am adnoddau: y cyntaf ar gyfer penderfyniadau'r Bwrdd Cydnabyddiaeth Ariannol; a'r ail ar gyfer gwariant arall y Comisiwn. Byddai'r dewis hwn yn ei gwneud yn bosibl cael mwy o dryloywder ym mhroses y gyllideb yn ei chyfanrwydd. Gellid gosod y cais gwreiddiol am adnoddau ar gyfer penderfyniadau’r Bwrdd Cydnabyddiaeth Ariannol ar lefel amcangyfrifedig ar gyfer y flwyddyn a cheisio unrhyw adnoddau

ychwanegol fyddai eu hangen drwy broses y gyllideb atodol. Byddai'r dull hwn, i bob pwrpas, yn trosglwyddo'r risg o ddarparu adnoddau digonol ar gyfer penderfyniadau oddi wrth y Comisiwn i'r rheolaeth gyffredinol ar gyllideb floc Cymru.
Byddwn yn nodi, fodd bynnag, y byddai'n anarferol i gorff deddfwriaethol ymarfer rheolaeth mor fanwl dros gyllideb corff.

## Cadw'r sefyllfa fel y mae gydag adrodd ychwanegol

Yr ail ddewis fyddai gofyn i'r Comisiwn roi mwy o fanylion yn ei gyflwyniad cyllideb, gan gynnwys:

- Y gyllideb amcangyfrifedig ar gyfer penderfyniadau yn y flwyddyn (yn seiliedig, o bosibl, ar brofiad hanesyddol); y swm mwyaf fel sydd wedi ei gynnwys ar hyn o bryd yn y cais cyffredinol am adnoddau; a'r lefel o ddarpariaeth wrth gefn (sef y gwahaniaeth rhwng y ddau ffigur).
- Gwybodaeth am y prosiectau y câi unrhyw danwariant yn erbyn cyllideb y penderfyniadau ei wario arnynt.

Byddai'r dull hwn yn rhoi'r cyfle i'r Pwyllgor Cyllid graffu ar holl gynlluniau gwariant y Comisiwn. Byddai gan y Pwyllgor wedyn dri dewis wrth ystyried y cais cyllideb:

- Cadarnhau'r cais mwyaf, a chaniatáu i'r Comisiwn ddefnyddio unrhyw danwariant ar ei brosiectau pwysicaf.
- Cadarnhau'r cais mwyaf, ond gofyn i'r Comisiwn gyflwyno cyllideb ddiwygiedig yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol os oedd y gwariant disgwyliedig ar Benderfyniadau yn debygol o fod yn sylweddol is na'r lefel uchaf. Byddai hyn yn galluogi'r Pwyllgor i benderfynu p'un a ddylid caniatáu i'r Comisiwn gadw'r cyllid ar gyfer ei brosiectau pwysicaf ynteu ailddyrannu'r cyllid i gorff arall a gyllidir drwy Gronfa Gyfunol Cymru.
- Cadarnhau'r lefel ddisgwyliedig yn hytrach na'r lefel uchaf o gyllideb a gofyn i'r Comisiwn gyflwyno amcangyfrif atodol os oedd disgwyl i'r gwariant gwirioneddol fod yn uwch na'r amcangyfrif cychwynnol.

Gobeithio y byddwch yn cael y wybodaeth hon yn ddefnyddiol. Nid wyf wedi gofyn i'r Clerc am bersbectif y Comisiwn ar y dewisiadau hyn. Efallai y bydd y Pwyllgor Cyllid yn dymuno gwneud hynny a gofyn yr un pryd am sylwebaeth fanylach ar reolaeth y gyllideb yng ngweinyddiaethau eraill y DU.

Yn gywir



Anthony Barrett
Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Simon Thomas AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

5 Chwefror 2018

Annwyl Simon

Ysgrifennaf atoch yn dilyn eich llythyr dyddiedig 8 Rhagfyr 2017 ynghylch Ymchwiliad eich Pwyllgor i danwariant Penderfyniad y Bwrdd Taliadau. Rydym yn nodi cylch gorchwyl y Pwyllgor ar gyfer yr ymchwiliad hwn ac mewn ymateb, rydym yn cyflwyno papur i chi (ynghlwm), y gobeithiwn iddo fynd i'r afael â'r meysydd o'r ymchwiliad sy'n berthnasol i'r Comisiwn.

Diolch ichi hefyd am y gwahoddiad i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Mawrth - byddwn yn hapus i fod yn bresennol i drafod y materion sydd wedi'u cynnwys yn y cylch gorchwyl ac yn ein hymateb. Rhowch wybod os hoffai eich Pwyllgor gael unrhyw wybodaeth bellach.

Yn gywir

Suzy Davies

copi at Gomisiynwyr y Cynulliad, Manon Antoniazzi, Nia Morgan

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Sulafa.Thomas@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 6227

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Sulafa.Thomas@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 6227

## *Sut y mae Comisiwn y Cynulliad yn amcangyfrif ei gyllideb ar gyfer penderfyniadau'r Bwrdd Taliadau*

Mae'r Bwrdd Taliadau yn annibynnol ar y Cynulliad a Chomisiwn y Cynulliad. Mae Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 yn atal y Cynulliad a Chomisiwn y Cynulliad rhag rheoli'r Bwrdd yn y modd y mae'n arfer ei swyddogaethau. Blaenoriaeth Comisiwn y Cynulliad yw sicrhau ei fod mewn sefyllfa i allu talu'r holl daliadau ac ad-dalu'r holl gostau y mae gan Aelodau hawl iddynt o dan y Penderfyniad.

Un Penderfyniad yn unig y mae'r Bwrdd yn cael ei wneud ym mhob Cynulliad ar gyfer talu cyflogau'r Aelodau, ac mae'r rhain felly yn gymharol syml i'w rhagweld, yn amodol ar yr uwchraddio blynyddol. O ran agweddau eraill, mae'r Bwrdd yn cynnal adolygiad blynyddol o'r holl lwfansau. Gall y Bwrdd o bryd i'w gilydd gynnal adolygiadau manylach ar agweddau penodol ar y Penderfyniad, a allai arwain at newidiadau bach yn y gyllideb sydd ei hangen ar gyfer y Penderfyniad.

Mae Comisiwn y Cynulliad yn rhagweld ei gyllideb ar gyfer penderfyniad y Bwrdd Taliadau drwy amcangyfrif y gost ar gyfer bodloni'r galw arno o dan y Penderfyniad diweddaraf, drwy ddeall rhaglen waith y Bwrdd ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, a thrwy drafod â'r swyddogion sy'n cefnogi'r Bwrdd.

Nid yw hyn yn cynnwys amcangyfrifon ar gyfer costau cyfraniad Comisiwn y Cynulliad at gynlluniau pensiwn yr Aelodau - caiff y rhain eu penderfynu gan actiwari'r cynllun fel yr eglurir isod.

Amcangyfrifwyd y rhagolygon ar gyfer 2018-19 (£16.201 miliwn) fel a ganlyn:

## Dadansoddiad 'Cyflogau'r Aelodau a'r costau cysylltiedig'*

| Tabl 1 (9 yn y Gyllideb) | 2017-18 Cyllideb £'000 | 2018-19 Cyllideb £'000 | 2019-20 Cyllideb £'000 | 2020-21 Cyllideb £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogau Aelodau'r Cynulliad ac ar-gostau (i) | £5,725 | £6,140 | £6,269 | £6,401 |
| Cyflogau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad ac ar-gostau (ii) | £8,110 | £8,365 | £8,545 | £8,729 |
| Lwfansau a Chostau Swyddfa (iii) | £1,697 | £1,696 | £1,724 | £1,754 |
| **Cyfanswm** | **£15,532** | **£16,201** | **£16,538** | **£16,884** |

*wedi'i gymryd o Gyllideb Comisiwn y Cynulliad 2018-19, sef y gyllideb ddiweddaraf a osodwyd.

i) **Cyflogau Aelodau'r Cynulliad ac ar-gostau (£6.140 miliwn)**

Yn 2016-17, gosododd Penderfyniad y Bwrdd Taliadau'r cyflog sylfaenol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad i fod yn £64,000 gan uwchraddio hynny bob blwyddyn yn unol â chyflogau cyfartalog fel y cânt eu mesur gan yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion. Ar gyfer 2017-18, arweiniodd hyn at gynnydd o 2.1%. Cymerwyd y bydd y cynnydd canrannol blynyddol hwn o 2.1% yn cael ei gymhwyso i 2018-19 a'i adlewyrchu yn y gyllideb a osodir. Mae'r ffigurau diweddaraf o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion yn dangos cynnydd o 2.3% mewn enillion cyfartalog, ac mae cyflogau yn 2018-19 felly yn debygol o fod yn uwch na'r ffigurau yn y gyllideb.

Mae'r ar-gostau sy'n gysylltiedig â chyflogau'r Aelodau yn cynnwys Yswiriant Gwladol, cyfraniad pensiwn y cyflogwr a'r Ardoll Prentisiaeth, a gyflwynwyd trwy godi 0.5% ar bob cyflogres sydd dros £3 miliwn (llai na £15,000 o lwfans) y flwyddyn, o 2017-18.

Wedi'i gynnwys hefyd mae'r cyflogau ychwanegol a delir i Aelodau sydd mewn swydd â chyfrifoldeb ychwanegol sylweddol, megis Gweinidogion, y Llywydd a chadeiryddion pwyllgorau, ac mae'r rhain i'w cael ar dudalen 10 o Benderfyniad 2017-18. Rhagdybiwyd ar gyfer 2018-19 fod y Cwnsler Cyffredinol yn parhau i fod yn Aelod Cynulliad etholedig. Nid yw effaith y ddau Ddirprwy Weinidog newydd, a benodwyd ym mis Tachwedd 2017, wedi'i hadlewyrchu yn y gyllideb a osodwyd ar gyfer 2018-19.

Mae'r taliad ar gyfer y cyfraniad cyfrannol yn y cynllun pensiwn yn cael ei osod gan actiwari'r cynllun pensiwn. Yn achos y Comswiwn, darperir gwasanaethau actiwaraidd gan Adran Actiwaraidd y Llywodraeth. Mae prisiad mis Ebrill 2017 o'r cynllun pensiwn wedi arwain at angen i gynyddu'r cyfraniad pensiwn o 15.6% i 20.8% i osgoi sefyllfa lle bo'r gronfa mewn diffyg ariannol. Mae hyn wedi cynyddu'r gost o £240,000 am y flwyddyn, gan dybio bod yr Aelodau'n derbyn yr un cynnydd cyflog yn 2018-19 ag y cawsant yn 2017-18. Mae'r cynnydd mewn cyfraniadau pensiwn wedi'i adlewyrchu yng nghyllideb 2018-19.

**Ffactorau a all effeithio ar yr elfen hon yn y gyllideb**:

- Pan fo ffigurau'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, pan gânt eu cyhoeddi, yn uwch na'r cynnydd a gyllidebwyd.
- Pan benodir Cwnsler Cyffredinol nad yw'n AC (fel y digwyddodd ym mis Mai 2011).
- Pan grëir swyddi ychwanegol neu swyddi sy'n fwy costus, gan arwain at gyflogau ychwanegol, megis Ysgrifennydd y Cabinet arall (yn hytrach na Dirprwy Weinidog) neu swydd cadeirydd pwyllgor.
- Pan fo newidiadau i ar-gostau, y tu hwnt i reolaeth y Comisiwn e.e. yr Ardoll Prentisiaethau, newidiadau i'r Yswiriant Gwladol a chyfraniadau pensiwn.

Nid oes dim darpariaeth ar gyfer y newidiadau hyn na thaliadau ychwanegol yng nghyllideb 2018-19.

### ii) Cyflogau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad, cymorth i bleidiau gwleidyddol ac ar-gostau (£8.365 miliwn)

Mae Penderfyniad y Bwrdd Taliadau yn nodi'r cyllid sydd ar gael (hyd at £96,995 y flwyddyn i bob Aelod yn 2017-18) i Aelodau gyflogi hyd at dri aelod o staff cyfwerth ag amser llawn i'w cefnogi ym mhob agwedd ar eu rôl. Cynyddwyd hyn o 2.1% yn 2017-18 fel rhan o'r adolygiad blynyddol o gyflogau staff. Roedd yr un cynnydd i'w gael ar gyfer y swm i gefnogi'r holl bleidiau gwleidyddol, a ddefnyddir yn bennaf i gyflogi staff, gan olygu cyfanswm o £929,110 yn 2017-18.

Mae'r Bwrdd Taliadau wedi dechrau adolygiad o gymorth staff i Aelodau gan gynnwys digonoldeb lefel y cymorth a ddarperir i'r Aelodau; hyblygrwydd a rhagnodoldeb y system gymorth bresennol ar gyfer Aelodau; ac addasrwydd y telerau ac amodau presennol ar gyfer staff cymorth. Mae'n bosibl y caiff canfyddiadau'r adolygiad effaith ariannol yn 2018-19 ond ni chyflwynir adroddiad tan hydref 2018. Amcangyfrifwyd cynnydd o 3% yn y gyllideb staff cymorth ar gyfer 2018-19 i ganiatáu ar gyfer cynnydd posibl sy'n uwch na'r cynnydd a wnaed i gyflogau'r Aelodau.

**Ffactorau a all effeithio ar yr elfen hon yn y gyllideb**:

- Mae adolygiad y Bwrdd Taliadau yn golygu newidiadau sy'n arwain at gynnydd o dros 3% yng nghyllidebau'r staff cymorth a chefnogaeth ar gyfer pleidiau gwleidyddol.
- Nid yw'r gyllideb ar gyfer cyflogau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad a'r ar-gostau yn darparu ar gyfer costau annisgwyl megis taliadau diswyddo a thaliadau mewn achosion o farwolaeth mewn gwasanaeth, a gorfu gwneud y ddau fath o daliad yn 2017-18.

- Nid yw'r gyllideb ar gyfer cyflogau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad a'r ar-gostau yn darparu ar gyfer costau annisgwyl megis taliad ar gyfnod mamolaeth neu daliad ar gyfer salwch tymor hir.

Nid oes dim darpariaeth ar gyfer y mathau hyn o daliadau yng nghyllideb 2018-19.

**iii) Lwfansau a Chostau Swyddfa (£1.696 miliwn)**

Caiff y gyllideb costau swyddfa a gwariant llety preswyl eu hadolygu'n flynyddol a'u haddasu yn ôl yr angen.  At ddibenion amcangyfrif cyllideb ar gyfer 2018-19, rhagdybiwyd chwyddiant yn unig i godi (1.56%). Mae'r llinell gyllideb hon hefyd yn cynnwys aros dros nos, cronfa ymchwil a pholisi a chostau teithio.

**Ffactorau a all effeithio ar yr elfen hon yn y gyllideb**:

- Mae'n bosibl y bydd costau ychwanegol annisgwyl yn codi o fewn llinell gostau'r swyddfa e.e. y gronfa i wella diogelwch. Efallai y bydd angen i'r symiau ychwanegol hyn gael eu cyllido ar fyr-rybudd a hwyrach y byddant y tu hwnt i'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol ym Mhenderfyniad cyllideb costau swyddfeydd.

**Ystyriaethau eraill**:

Mae'r lwfans a'r gyllideb costau swyddfeydd yn cynnwys costau swyddfeydd a'r eitemau eraill a nodwyd yn y Penderfyniad. Fodd bynnag, nid yw'r gyllideb yn cynnwys pob cost a wynebir gan Aelodau sy'n gysylltiedig â'r swyddfa. Mae'r Comisiwn, o'i gyllideb ei hun, yn darparu cymorth ychwanegol ar gyfer costau swyddfeydd i gefnogi Aelodau. Mae'r Comisiwn hefyd yn ysgwyddo'r holl gostau sy'n gysylltiedig â Bwrdd Taliadau annibynnol. Nid yw'r costau hyn wedi'u cyllido gan y Penderfyniad.

Mae'r symiau a ganlyn wedi'u cynnwys yng nghyllideb weithredol y Comisiwn.

| Tabl 2 | Rhagolygon 2017-18 | Cyllideb 2018-19 |
|---|---|---|
| Deunydd ysgrifennu'r Aelodau | £60,041 | £61,000 |
| Argraffu gan Aelodau | £119,191 | £120,000 |
| Hyfforddiant i Aelodau | £144,987 | £145,000 |
| Costau'r Bwrdd Taliadau | £63,839 | £68,000 |
| Treuliau Eraill e.e. teithio rhyngwladol | £67,046 | £76,000 |
| **Cyfanswm** | **£455,104** | **£470,000** |

Mae'r costau hyn yn gyfanswm o £470,000, sydd wedi'i ysgwyddo'n llwyr gan gyllideb weithredol y Comisiwn. Er y gosodir cyllideb gan y Comisiwn ar gyfer yr eitemau ychwanegol hyn, sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag Aelodau ac sy'n cael eu llywio gan yr Aelodau, yn wahanol i wariant y Penderfyniad, nid oes dim uchafswm penodedig ar faint y gall bob Aelod Cynulliad alw ar y gwasanaethau hyn. Gall y swm a gyfyd gan yr Aelodau amrywio'n sylweddol.

Gallai cynnydd yng ngwariant y Bwrdd Taliadau olygu i'r gyllideb hon, a osodir gan y Comisiwn, gael ei chynyddu. O dan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010, mae'n rhaid i'r Comisiwn roi cymorth gweinyddol o'r fath i'r Bwrdd fel y mae angen rhesymol amdano er mwyn ei alluogi i gyflawni ei swyddogaethau. Mae'r Mesur yn atal y Cynulliad a Chomisiwn y Cynulliad rhag rheoli'r Bwrdd yn y modd y mae'n arfer ei swyddogaethau. Mae'n bosibl felly i’r cyfanswm y bydd y Bwrdd Taliadau yn ei wario ar ymgynghorwyr arbenigol neu ar ymarferion ymgynghorol yn ystod blwyddyn ariannol fod yn uwch na'r gyllideb a ragwelwyd.

## *A yw'r ffordd y mae Comisiwn y Cynulliad yn rhoi gwybodaeth am y tanwariant yn glir a thryloyw*

Yn nogfen y gyllideb 2018-19, y craffwyd arni gan y Pwyllgor hwn ym mis Hydref 2017 cyn ei gosod gerbron y Cynulliad ym mis Tachwedd 2017, mae'r Comisiwn yn darparu gwybodaeth glir a thryloyw ynghylch maint a defnydd unrhyw danwariant sy'n deillio o gyllideb Penderfyniad y Bwrdd Taliadau.

Mae dogfen y gyllideb 2018-19 yn cynnwys gwybodaeth ynghylch amcangyfrif cyfanswm y tanwariant a ragwelir ar gyfer 2018-19 (£600,000) ac mae'n cynnwys manylion am flaenoriaethau buddsoddi 2018-19.  Mae dogfen y gyllideb yn cadarnhau bod unrhyw danwariant sydd ar gael yn cyfrannu at gronfa fuddsoddi'r Comisiwn ac ei fod ond yn cael ei ddefnyddio ar brosiectau sy'n flaenoriaethau clir, fel y nodir yn y ddogfen.

Mae'r Comisiwn hefyd wedi bod yn glir a thryloyw ynghylch ei ddefnydd o danwariant cyllideb Penderfyniad y Bwrdd Taliadau yn ystod 2016-17 a 2017-18, gan ddarparu gwybodaeth yn ymwneud â thanwariant tebygol Penderfyniad y Bwrdd Taliadau am y ddwy flynedd honno i'r Pwyllgor, fel y gofynnwyd, mewn llythyrau ar 28 Mawrth 2017 a 21 Rhagfyr 2017.

Mae'r wybodaeth a ganlyn (tabl 3) yn rhan o'r llythyr a anfonwyd i'r Pwyllgor ar 21 Rhagfyr 2017, ac mae'n darparu gwybodaeth ar y gyllideb fuddsoddi a ragwelir ar gyfer 2017-18 a 2018-19 ynghyd â'r cyfraniad a ragwelir gan linell gyllideb Penderfyniad y Bwrdd Taliadau.

| Tabl 3 | £’000<br>2017-18 | £’000<br>2018-19 |
|---|---|---|
| | | |
| **Y Gronfa Fuddsoddi Agoriadol** | £850 | - |
| Cyllideb Cyfalaf | £500 | £500 |
| **Cyfanswm y gronfa fuddsoddi o fewn cyllideb graidd y Comisiwn ar gyfer eitemau sy'n flaenoriaeth/hanfodol** | **£1,350** | **£500** |
| **Amcangyfrifon o arian a fydd ar gael o ganlyniad i danwariant o fewn:** | | |
| - Cyllidebau Gweithredol | £500 | £800 |
| - Cyllideb Penderfyniad y Bwrdd Taliadau | £1,000 | £600 |
| **Amcangyfrif o gyfanswm y cyllid a fydd ar gael ar gyfer blaenoriaethau buddsoddi** | **£2,850** | **£1,900** |

Bydd y Comisiwn yn parhau i nodi bob blwyddyn, yn nogfen ei gyllideb derfynol, y swm tebygol a fydd heb ei ddefnyddio o Gyllideb Penderfyniad y Bwrdd Taliadau. Bydd hyn yn sicrhau tryloywder lle bo'r gyllideb yn cael ei gosod ar sail 100% a hyblygrwydd i ddarparu gwariant annisgwyl o dan y Penderfyniad.

Bydd y Comisiwn, fel y gwnaeth y llynedd, yn adolygu cyflwyniad y gyllideb a'r swm y gwneir cais amdano o fewn llinell gyllideb y Penderfyniad yn ei gyfarfod ym mis Ebrill. Mae hyn i sicrhau ei fod yn parhau i fod y dull a'r fecanwaith fwyaf tryloyw a hyblyg i fynd i'r afael â gofynion Penderfyniad y Bwrdd Taliadau.

At hynny, sicrheir tryloywder ymhellach wrth i ddogfen ein hadroddiad a chyfrifon blynyddol, a archwilir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, hefyd ddarparu manylion llawn ein gwariant y llynedd yn erbyn cyllideb Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer pob blwyddyn.

## *Sut y mae Comisiwn y Cynulliad yn penderfynu defnyddio'r tanwariant ar ôl bodloni penderfyniadau'r Bwrdd Taliadau.*

**Bodloni'r Penderfyniad**

Fel y nodwyd uchod, blaenoriaeth Comisiwn y Cynulliad yw sicrhau ei fod mewn sefyllfa i allu talu'r holl daliadau ac ad-dalu'r holl gostau y mae gan Aelodau hawl iddynt o dan y Penderfyniad. Mae'r Comisiwn yn monitro'r taliadau a wneir o dan y Penderfyniad drwy gydol y flwyddyn i sicrhau bod cyllid digonol i ad-dalu'r holl gostau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Mae'r rhagolwg hwn yn darparu amcangyfrif o'r tanwariant tebygol neu'r diffyg ariannol a ddisgwylir ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Yn ystod y flwyddyn, cynhelir asesiad o sicrwydd yr amcangyfrif ac a yw'n ddoeth defnyddio unrhyw faint o'r tanwariant a ragwelir ar brosiectau buddsoddi sy'n flaenoriaeth. Cyflawnir hyn drwy gyfathrebu'n rheolaidd â Gwasanaeth Busnes yr Aelodau, sy'n darparu rhagolygon o wariant Aelodau ynghyd ag esboniadau ar gyfer unrhyw amrywiadau sylweddol mewn tueddiadau gwario. Mae Gwasanaeth Busnes yr Aelodau hefyd yn sicrhau bod y rhagolwg yn cael ei ddiweddaru'r rheolaidd i adlewyrchu'r eitemau ychwanegol nad ydynt wedi'u cynnwys yn y gyllideb, unwaith y byddant yn codi.

Ni fydd y Comisiwn ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn ariannol wedi "bodloni" y Penderfyniad. Ni wyddys y cyllid sydd ei angen ar gyfer y Penderfyniad â sicrwydd mewn gwirionedd tan dair wythnos wedi diwedd y flwyddyn ariannol, pan fydd mwyafrif yr hawliadau gan Aelodau'r Cynulliad wedi cael eu derbyn.

**Y defnydd a wneir o danwariant Penderfyniad y Bwrdd Taliadau**

Yn ystod y flwyddyn, caiff y gyllideb gyfan, gan gynnwys y tanwariant a ragwelir, ei monitro. Adolygir y rhagolygon bob pythefnos i fesur yn gywir y Gronfa Fuddsoddi a fydd ar gael ar gyfer prosiectau ac unrhyw wariant arall sy'n flaenoriaeth gan y Comisiwn. Caiff y rhagolygon hyn eu hadolygu gan y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau a gwneir penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a gwariant, y dilyn craffu, yng nghyfarfodydd y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau bob pythefnos.

Mae'r wybodaeth yn nhabl 4 yn dangos y galw a ragwelir ar y gronfa fuddsoddi yn 2017-18. Mae hyn yn cynnwys galw annisgwyl ar y Penderfyniad ynghyd â gwariant ar brosiectau yn 2017-18. Gellir gweld gwybodaeth am y gwariant a ragwelir ar gyfer 2018-19 yng Nghyllideb Derfynol y Comisiwn ar gyfer 2018-19 (tudalen 19), a osodwyd gerbron y Cynulliad ym mis Tachwedd 2017.

Yn ystod 2017-18, defnyddiwyd cyfuniad tanwariant y Penderfyniad, tanwariant gweithredol, y gyllideb gyfalaf a'r gronfa fuddsoddi agoriadol (Tabl 3 - £2.85 miliwn) i dalu am yr eitemau o flaenoriaeth a ganlyn:

Tabl 4

| Cost y tanwariant a'r Gronfa Fuddsoddi | | £'000 |
| --- | --- | --- |
| **Effaith newidiadau 2016-17 mewn capasiti staffio** | | £1,000 |
| **Gwariant ar y Penderfyniad:** | | £177 |
| – Marwolaeth mewn swydd (staff cymorth Aelodau'r Cynulliad)* | £125 | |
| – Cyflog ychwanegol Gweinidogion* | £21 | |
| – Taliadau diswyddo i staff cymorth Aelodau'r Cynulliad* | £31 | |
| **Ardoll brentisiaethau** | | £110 |
| **Gwariant y Gwasanaeth Rheoli Ystadau a Chyfleusterau ar Flaenoriaethau:** | | £133 |
| – Cyfnod 2 o'r Byrddau Dosbarthu Trydan | £29 | |
| – Gwelliannau i lifftiau y Senedd a'r Pierhead | £34 | |
| – Gwaith adfer yn dilyn asesiadau risg dŵr yn Nhŷ Hywel | £16 | |
| – Adnewyddu rhaffau lifftiau 1,2 a 3 Tŷ Hywel | £54 | |
| **Prosiectau (Tabl 5 - isod)** | | £1,262 |
| **Cyfanswm gwariant ar flaenoriaethau** | | £2,682 |
| **Arian sy'n weddill** | | **£168** |

*Nid oedd modd rhagweld yr eitemau a farciwyd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

**Tabl 5 – Gwariant ar brosiectau**

Mae'r eitemau hyn wedi'u crynhoi yn nhabl 4 uchod (£1,262k).

| Gwariant ar Brosiectau yn 2017-18: | | £'000 |
|---|---|---|
| **System Reoli'r Llyfrgell** | | £32 |
| **Y System Gyllid (cyfnod 2)** | | £22 |
| **Fy Senedd, yn cynnwys:** | | £156 |
| – Y wefan a rheoli cynnwys | £35 | |
| – Rheoli gwybodaeth | £22 | |
| – Cofnod y Trafodion | £52 | |
| – Y Swyddfa Gyflwyno | £32 | |
| **Gwaith ar y Llawr Gwaelod gan gynnwys offer TGCh a Darlledu** | | £513 |
| **Teledu cylch cyfyng (CCTV)** | | £362 |
| **Diwygio trefniadau'r Cynulliad** | | £100 |
| **Cynllunio adeiladau yn y dyfodol** | | £23 |
| **Weeping Window (Pabïau)** | | £44 |
| **Senedd Ieuenctid** | | £10 |
| **Cyfanswm gwariant cyllidebol ar brosiectau* (Tabl 4 uchod)** | | **£1,262** |

*Y gwariant gwirioneddol y flwyddyn hyd yma yw £962,000.

**Cyflwyniad Cyllideb y Comisiwn 2019-20**

Fel y nodwyd yn ein llythyr at eich Pwyllgor ar 21 Rhagfyr 2017, ystyriodd y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau yn ei gyfarfod ar 7 Rhagfyr bapur ar gyflwyniad Cyllideb y Comisiwn 2019-20. Argymhellodd y Bwrdd y dylai'r Comisiwn ystyried cyflwyniadau amgen ar gyfer cyllideb 2019-20, yn hytrach na pharhau â'r cyflwyniad presennol.

Ein nod wrth gyflwyno model diwygiedig fyddai mynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd gan eich Pwyllgor ynghylch tryloywder, gan gadw hyblygrwydd a lleihau'r risg i gyllideb y Comisiwn.

Bydd y Comisiwn yn adolygu cyflwyniadau amgen ar gyfer y gyllideb yn nhymor y gwanwyn 2018. Dyma'r ddau fodel amgen y dylid eu hystyried:

- cyllideb wedi'i neilltuo ar gyfer penderfyniad y Bwrdd Taliadau, wedi'i osod ar sail 100%, gan ddychwelyd unrhyw symiau nas defnyddiwyd i Gronfa Gyfunol Cymru ar ffurf cyllideb atodol, gyda chynnydd cyfatebol yng nghyllideb weithredol y Comisiwn.
- gosod cyfanswm llai, er enghraifft 98%, fel cyllideb ar gyfer cyllido Penderfyniad y Bwrdd Taliadau, gyda chynnydd cyfatebol yng nghyllideb weithredol y Comisiwn.

**Comisiwn y Cynulliad**

**Chwefror 2018**

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon